------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Medi 2016

Amser: 13.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Buckle**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilo@cynulliad.cymru

## (13.45 - 14.00 Rhag-gyfarfod preifat)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad

(14.00-14.15) (Tudalennau 1 - 30)

PAC(5)-03-16 Papur 1: Ymateb Llywodraeth Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 2: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14.15)

Eitimau 4, 5, 6, 7, 8, 9 & 11

## 4 Papur(au) i'w nodi

(14.15-14.20)

**Cylchffordd Cymru**

(Tudalennau 31 - 63)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

PAC(5)-03-16 PTN1: Llythyr oddi wrth David T. C. Davies AS at Nick Ramsay AC
PAC(5)-03-16 PTN2: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-03-16 PTN1: Llythyr oddi wrth Nick Ramsay AC at David T. C. Davies AS

## 5 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(14.20-14.30) (Tudalennau 64 - 71)

PAC(5)-03-16 Papur 3 – Adroddiad Archwilydd Cenedlaethol Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 4 – Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cenedlaethol Cymru

## 6 Y Fenter Dwyll Genedlaethol: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(14.30-14.40) (Tudalennau 72 - 75)

PAC(5)-03-16 Papur 5: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 6: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 7 Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(14.40-14.50) (Tudalennau 76 - 78)

PAC(5)-03-16 Papur 7: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 8: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 8 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(14.50-15.00) (Tudalennau 79 - 131)

PAC(5)-03-16 Papur 9 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 10 – Llythyr oddi wrth y Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru at Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)-03-16 Papur 11 – Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Deisebau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 9 Y rhaglen waith: Trafod Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ymchwiliadau a arweinir gan y Pwyllgor

(15.00-15.20) (Tudalennau 132 - 142)

PAC(5)-03-16 Papur 12 - Papur Cwmpasu

## (15.20-15.30 Egwyl)

## (Sesiwn Gyhoeddus)

## 10 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Comisiwn y Cynulliad

(Tudalennau 143 - 165)

PAC(5)-03-16 Papur 13 – Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015-16
PAC(5)-03-16 Papur 14 – Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015-16 – Crynodeb Gweithredol
Briff Ymchwil

Suzy Davies AC – Comisiynydd y Cynulliad
Claire Clancy - Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Nia Morgan - Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Sesiwn Breifat

## 11 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.30 - 16.50)

Eitem 2

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

d/o committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

Our Ref: AG/SG

02 Mehefin 2016

Annwyl Gadeirydd

**Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'**

Ysgrifennaf atoch i amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'.

Mae rhai o argymhellion yr Adroddiad yn berthnasol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac mae ymateb y corff hwnnw wedi'i ddarparu mewn atodiad i'r ddogfen sydd ynghlwm, sy'n cynnwys ein hymateb ninnau. Ceir crynodeb hefyd o ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i argymhellion 12 a 13 mewn atodiad sydd ynghlwm.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 27 argymhelliad ynddo. Mae ymatebion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i argymhellion perthnasol wedi eu hamlinellu ar wahân yn Atodiadau A a B. Mewn rhai achosion, rydym wedi darparu ymateb cyfunol i argymhellion sy'n gysylltiedig â'i gilydd.

**Argymhelliad 1 -** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod lefelau presenoldeb rhai Aelodau Annibynnol yng nghyfarfodydd Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn anfoddhaol. Mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phob bwrdd iechyd yng Nghymru i fonitro absenoldeb a mynd i'r afael ag ef mewn modd priodol a chydag ystyriaeth briodol o'r amgylchiadau.

**Argymhelliad 2** – Rydym yn argymell ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol pob bwrdd iechyd ddatgelu manylion presenoldeb aelodau'r bwrdd yng nghyfarfodydd y bwrdd a bod proses yn cael ei datblygu ar gyfer diswyddo'r aelodau sy'n gyson absennol.

| ***Derbyn Argymhellion 1 a 2*** |
|---|
| Rydym yn nodi pryderon y Pwyllgor ynghylch lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae byrddau iechyd yn monitro lefelau presenoldeb ac maent eisoes yn gorfod adrodd yn ôl ar hyn yn flynyddol yn y Datganiad Llywodraethu, sy'n cael ei gyhoeddi.<br><br>Mae Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn nodi'r canlynol o dan 'Terfynu penodiad aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru';<br><br>Os yw person a benodwyd wedi methu â bod yn bresennol yn unrhyw gyfarfod y Bwrdd am gyfnod o chwe mis neu fwy, caiff Gweinidogion Cymru ei symud o'r swydd honno oni chânt eu bodloni —<br>a) bod achos rhesymol dros yr absenoldeb; a<br>b) y bydd y person yn gallu bod yn bresennol yn y cyfryw gyfarfodydd o fewn unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn credu sy'n rhesymol.<br><br>Dylai bod cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhan o'r dystiolaeth a fydd yn sail i drafodaeth yng nghyfarfodydd 1:1 y Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol ac yn yr adolygiadau o berfformiad. Byddwn yn gofyn am sicrhad fod hyn yn digwydd ym mhob Bwrdd Iechyd a byddwn yn atgoffa Ysgrifenyddion y Byrddau o'r gofyniad yn y rheoliadau perthnasol i fonitro lefelau presenoldeb ac adrodd yn ôl arnynt yn y Datganiad Llywodraethu blynyddol erbyn mis Awst 2016. |

**Argymhelliad 3** - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio yn fanylach i sut y gall wella rhannu arfer da, mewn perthynas â llywodraethu da, gan roi mwy o gyfeiriad, lle bo modd, ynghylch arfer o'r math a chan fonitro cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir.

| ***Derbyn*** |
|---|
| Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn modd cynaliadwy ac maent yn sail i'r Safonau Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd yn 2015. Penodir Prif Weithredwyr fel swyddogion cyfrifyddu gyda chyfrifoldebau dirprwyedig yn y meysydd hyn.<br><br>Mae Ysgrifenyddion y Byrddau bellach yn cwrdd yn fisol i rannu pryderon ac arferion da cyffredin. Mae cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd hefyd. Mae'r fforwm hwn yn darparu'r cyfle i fynd ati'n weithredol i wella'r broses o rannu arferion da o ran llywodraethu. Mae hyn yn ychwanegol at y canllawiau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r safonau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd, sy'n cynnwys y Canllaw Llywodraethu Da, sy'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd, a memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol ar lywodraethu gan Lywodraeth Cymru a chyrff y GIG.<br><br>Fel y gwnaethom nodi yn ein hymateb i adroddiad gwreiddiol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym o'r farn fod datblygu Bwrdd effeithiol yn hanfodol bwysig. Rydym yn parhau i weithio gydag Academi Wales a byrddau iechyd i gefnogi dysgu a datblygu. Yn ystod 2016/17, bydd hyn yn cynnwys Academi Wales yn adolygu a diweddaru y rhaglen gynefino ar gyfer aelodau annibynnol o'r bwrdd i sicrhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o'r cychwyn.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio adeiladu ar y canllawiau a'r rhwydweithiau a geir ar hyn o bryd, gan roi cyfarwyddyd neu ganllawiau pellach lle bo angen. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch rhannu unrhyw arferion da a nodwyd drwy waith asesu strwythuredig blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol. |

**Argymhelliad 4** – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd rannu â hi fel mater o drefn ganlyniad yr holl waith a gomisiynwyd oherwydd pryderon difrifol a oedd yn codi o gwynion.

| ***Derbyn – systemau ar waith a rhagor o waith ar y gweill*** |
|---|
| Pan fydd sefydliadau'n comisiynu adolygiadau annibynnol o faterion sy'n codi o bryderon difrifol, rydym yn disgwyl iddynt rannu'r canlyniad gyda Llywodraeth Cymru. Rydym eisoes wedi ysgrifennu at y Byrddau Iechyd ynghylch hyn a byddwn yn anfon neges i'w hatgoffa. Byddwn hefyd yn cynnwys hyn yn yr adolygiad o'r canllawiau Gweithio i Wella. |

**Argymhelliad 5** – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu dull mwy systematig sy'n sicrhau yr ymdrinnir yn ddigonol â phryderon/cwynion yn y

dyfodol ar lefel bwrdd iechyd, ac, o beidio â gwneud hynny, dylid eu huwchgyfeirio at Lywodraeth Cymru yn llawer cynt nag ar hyn o bryd.

| ***Ddim yn derbyn – systemau priodol ar waith*** |
|---|
| Mae Gweithio i Wella eisoes yn cynnig ffordd systematig o ymchwilio i gwynion a phryderon unigol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl uniongyrchol yn y broses hon, ac felly y dylai fod. Dylai bod Byrddau Iechyd yn adolygu cwynion yn barhaus i ganfod a oes diffygion ehangach yn y gwasanaethau a disgwyliwn iddynt ein hysbysu'n llawn os gwelir bod diffygion mwy difrifol yn y gwasanaethau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n monitro ansawdd a pherfformiad, gan gynnwys rheoli pryderon a chwynion, yn fisol ac yn trafod unrhyw bryderon gyda byrddau iechyd unigol mewn cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd rheolaidd. Caiff pryderon sydd heb gael eu datrys eu huwchgyfeirio at Fwrdd Cyflenwi Integredig Llywodraeth Cymru. |

**Argymhelliad 6** – Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu cronfa ddata ganolog ar gyfer ymdrin â gohebiaeth Weinidogol er mwyn canfod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a diogelu rhag esgeulustod clinigol.

| ***Derbyn – system ar waith*** |
|---|
| Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes gronfa ddata (sef CABS) sy'n cofnodi ac olrhain pob gohebiaeth Weinidogol sy'n dod i law. Gall y gronfa ddata ganfod materion penodol neu faes penodol, os yw'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y teitl neu mewn meysydd eraill, pan fo'r llythyrau'n cael eu hychwanegu at y gronfa ddata. Byddwn yn ystyried ymhellach sut y gallwn wella ein gallu i chwilio/olrhain gohebiaeth.<br><br>O ran gohebiaeth ynghylch materion iechyd, caiff unrhyw ohebiaeth sy'n codi pryderon ynghylch ansawdd a diogelwch eu cyfeirio at y Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r tîm polisi perthnasol, er enghraifft y Tîm Iechyd Meddwl. Mae'r system hon yn sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n gallu canfod a gweithredu ar unrhyw dueddiadau a welir mewn cwynion neu bryderon ynghylch ansawdd neu ddiogelwch mewn unrhyw leoliad gofal iechyd. |

**Argymhelliad 7** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses benodi ar gyfer Prif Weithredwyr yn y GIG yng Nghymru er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar eirdaon gan ganolwyr personol a enwir gan ymgeiswyr.

| ***Ddim yn derbyn*** |
|---|
| Fel y Pwyllgor, rydym ninnau o'r farn ei bod yn hanfodol bod prosesau penodi Prif Weithredwyr yn drwyadl. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno â'r awgrym y ceir gor-ddibyniaeth ar eirdaon personol a bod angen cynnal adolygiad oherwydd hynny. Un rhan o'r broses yw geirdaon ac, yn aml, ni wneir cais am eirda nes bod yr ymgeisydd a ffefrir wedi'i ddewis gan y panel recriwtio.<br><br>Y Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros recriwtio, gan gynnwys i'w swyddi Prif Weithredwr. Yn ymarferol, wrth recriwtio Prif Swyddog Gweithredol, mae Cadeirydd y bwrdd iechyd yn gyfrifol am arwain y broses |

| |
|---|
| recriwtio, gyda chymorth gan Andrew Goodall fel Prif Weithredwr GIG Cymru a Julie Rogers fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol GIG Cymru, ynghyd ag eraill ar y panel recriwtio. Mae'n bosibl y bydd geirdaon yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses recriwtio i ddilysu tystiolaeth a gafwyd drwy, er enghraifft, seicometreg, paneli rhanddeiliaid, adborth/asesiadau gan rai sy'n chwilio am ymgeiswyr addas, sesiwn holi ac ateb gyda chymorth ac - ym mhob achos – cyfweliad. Ni ddibynnir ar eirdaon fel yr unig ddull o benodi mewn unrhyw amgylchiadau yng Nghymru. |

**Argymhelliad 8** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n monitro telerau ymadael holl uwch-reolwyr y GIG yng Nghymru, gan wahardd yn llwyr delerau ymadael nad yw'n ystyried eu bod yn rhoi gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

| ***Derbyn yn rhannol*** |
|---|
| Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol, yn gweithredu fel cyflogwyr, eisoes yn gorfod ystyried yr holl amgylchiadau ac opsiynau yn erbyn hawliau cyflogaeth unigolion a rhwymedigaethau cytundebol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch telerau ymadael aelodau o'r weithrediaeth a deiliaid swyddi uwch. Yn ogystal, pan argymhellir taliad terfynu cyflogaeth – boed yn statudol, yn gytundebol neu'n *ex-gratia*, mae'n ofynnol eu bod yn trafod yr argymhellion gyda Llywodraeth Cymru ymlaen llaw ac yn gofyn yn ffurfiol am gytundeb Andrew Goodall fel y swyddog cyfrifyddu yn Llywodraeth Cymru. Wrth ystyried unrhyw gais i wneud taliad o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru – ymhlith pethau eraill – yn chwilio am dystiolaeth fod y bwrdd, fel y cyflogwr, wedi cael cyngor drwy ei Fwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol ynghylch yr ystod o opsiynau a rhwymedigaethau cyfreithiol, a'i fod yn fodlon bod y penderfyniad wedi'i wneud er budd eu sefydliad gan roi sylw priodol i arian cyhoeddus ar yr un pryd.<br><br>Yn y dystiolaeth a ddarparwyd, eglurwyd bod secondiad Trevor Purt yn fater i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel ei gyflogwr ac fel y sefydliad sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb cytundebol. Er nad oedd gofyniad i ofyn am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd yn ddisgwyliedig y byddent yn ymgynghori â ni, ac fe wnaethant hynny. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ymyrryd i'r graddau a awgrymir yn nhrefniadau cyflogaeth uwch-reolwyr ac aelodau o'r weithrediaeth y tu hwnt i'r hyn a nodir uchod. |

**Argymhelliad 9** – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwerthusiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o gynghorwyr annibynnol ac, os canfyddir bod y trefniadau wedi gweithio'n dda, dylai ystyried sefydlu fframwaith ar gyfer defnyddio ymgynghorwyr annibynnol ledled y byrddau iechyd.

| ***Ddim yn derbyn*** |
|---|
| Mae Clerc y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cadarnhau bod yr argymhelliad hwn yn cyfeirio at rôl Cynghorydd Pwyllgor. Sefydlwyd y rôl hon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd ir afael â bylchau a oedd wedi'u canfod o ran sgiliau a gallu ar rai pwyllgorau. Yn dilyn cyfnod treialu o 12 mis, cynhaliwyd gwerthusiad o'r rôl. |

Canfuwyd bod y bylchau o ran sgiliau a gallu wedi cael eu llenwi yn y cyfamser, o ganlyniad i benodi Aelodau Annibynnol newydd. Roedd hyn yn cryfhau aelodaeth pwyllgorau ac yn dileu'r angen am rôl Cynghorydd Pwyllgor. Penderfynwyd dileu'r rôl o 31.12.15.
Nid ydym yn derbyn bod angen sefydlu fframwaith ar gyfer defnyddio cynghorwyr pwyllgor ledled y byrddau iechyd o ystyried y gwerthusiad o'r rôl. Yr hyn y mae angen canolbwyntio arno yw sicrhau bod yr aelodau annibynnol yn gallu cynghori ar ystod ddigonol o faterion.

**Argymhelliad 10** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres genedlaethol o ddangosyddion ansawdd a diogelwch i gefnogi byrddau iechyd o ran darparu gofal o ansawdd uchel ac i hyrwyddo'r arfer o nodi pryderon diogelwch yn gynnar.

***Derbyn – trefniadau ar waith***

Roedd datblygu "Trothwyon Ansawdd" yn un o'r camau gweithredu a oedd yn codi o'r Cynllun Sicrhau Ansawdd i gynorthwyo Byrddau i ofyn y cwestiynau iawn ynghylch ansawdd y gwasanaethau y mae eu sefydliad yn eu darparu. Mae'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol wedi cytuno'n ddiweddar ei bod yn adeg priodol i adolygu'r canllawiau hyn, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod 2016/17.
Mae Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni cyfredol y GIG hefyd yn cynnwys ystod o ddangosyddion y dylai Byrddau Iechyd eu monitro fel mater o drefn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod angen i'r dull o sicrhau ansawdd gynnwys gwaith dadansoddi a dilysu gwahanol ddata a rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun lleol er mwyn dod i gasgliad.

**Argymhelliad 11** – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses ar gyfer ailbenodi aelodau bwrdd annibynnol er mwyn sicrhau bod modd gwneud ailbenodiadau fesul achos, yn dibynnu ar gydbwysedd a chyfansoddiad y bwrdd o ran ei aelodau annibynnol.

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r prosesau ar gyfer ailbenodi aelodau annibynnol yn barhaus. Bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul achos, gyda chyngor gan y cadeirydd. Ar bob achlysur, caiff manteision ailbenodiadau eu pwyso a mesur yn erbyn manteision cyflwyno unigolion â syniadau newydd i gorff cyhoeddus a'r angen i sicrhau parhad ar y bwrdd, yn ogystal â'r amrywiaeth o sgiliau a phrofiad sydd ei angen ar y bwrdd wrth symud ymlaen. Yn y pen draw, y Gweinidog Iechyd sy'n cymeradwyo ailbenodiadau ar sail cyngor gan swyddogion, gan gynnwys barn y Cadeirydd.
Gwnaethom nodi yn ein hymateb i adroddiad gwreiddiol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod yr wybodaeth o'r adolygiadau o berfformiad aelodau annibynnol yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses ailbenodi. Efallai y dymuna'r Pwyllgor nodi mai ein bwriad ar gyfer y dyfodol yw cynnwys gwybodaeth ynghylch cofnod presenoldeb yr Aelod Annibynnol, yn benodol, fel rhan o'r cyngor hwnnw. Bydd hynny'n cryfhau tryloywder ynghylch y mater hwn, a oedd yn destun pryder i'r Pwyllgor, fel yr ydym yn ei ddeall o rannau cynharach o'r adroddiad.

**Argymhelliad 12** – Rydym yn argymell bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu diweddariad i'n Pwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad am y cynnydd tuag at wella gwasanaethau iechyd meddwl erbyn mis Mehefin 2016.

| ***Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn derbyn*** |
|---|
| Mae'r ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei amlinellu yn Atodiad B.<br><br>Efallai y dymuna'r Pwyllgor nodi hefyd fod gofyniad i'r bwrdd iechyd adrodd yn ôl a rhoi diweddariad ar gynnydd o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl o dan y camau sydd wedi eu pennu yn y fframwaith gwella o dan y mesurau arbennig. Cyflwynwyd yr adroddiad ar gam un ym mis Mai 2016. |

**Argymhelliad 13** – Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y cyflenwad ar gyfer Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dderbyniol ac rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â hyn ar frys.

| ***Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn derbyn*** |
|---|
| Mae'r ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei amlinellu yn Atodiad B.<br><br>Mae'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn broblem ledled y DU; mae'n hysbys bod heriau o ran recriwtio a chadw gweithwyr i wasanaethau o'r fath ledled y DU. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi llwyddo i recriwtio gweithlu newydd, gan gynnwys meddygon teulu, i'r gwasanaeth y tu allan i oriau ac mae'n parhau i ddatblygu modelau gwasanaeth i ddiwallu'r galw am y gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.<br><br>O dan drefniadau'r mesurau arbennig, hwylusodd Llywodraeth Cymru gymorth penodol ar gyfer y bwrdd iechyd i helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, ac agweddau ehangach ar ofal sylfaenol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cynnydd y bwrdd iechyd yn erbyn y cerrig milltir a'r disgwyliadau sydd wedi'u pennu yn y fframwaith gwella o dan y mesurau arbennig. |

**Argymhelliad 14** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob bwrdd iechyd yn cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'u hystadau gofal sylfaenol a'u bod yn paratoi cynlluniau i wella adeiladau gwasanaethau gofal sylfaenol a'u bod yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd.

| ***Derbyn – eisoes ar waith*** |
|---|
| Mae'r gofynion a'r fframwaith cynllunio eisoes ar waith ar gyfer seilwaith ystad y GIG, yn cynnwys lleoliadau gofal sylfaenol.<br><br>Mae **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2016-17** yn egluro'r gofyniad i sefydliadau GIG Cymru nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ym mhob lleoliad gofal iechyd, yn cynnwys yr ystad gofal sylfaenol. Wrth fanylu ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygu, dylai sefydliadau alinio gofynion yr ystad ac asedau ffisegol eraill â chynlluniau gwasanaeth a hyrwyddo cynlluniau sy'n helpu i ddatblygu gwasanaethau diogel a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys rhoi ffocws ar adeiladu |

gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymunedol hygyrch a chydnerth. Fel rhan o ofynion y Fframwaith Cynllunio, gofynnir i sefydliadau gynnwys yr effaith y bydd datblygu a buddsoddi yn ei chael ar ddangosyddion perfformiad allweddol yr ystad.

Mae'r Fframwaith yn gymharol newydd ond bydd yn cael ei yrru ymlaen, a'i fonitro, drwy'r adnodd pwrpasol sydd wedi'i greu yn y tîm Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau i arwain ar yr agenda ystadau gofal sylfaenol. Mae'r Fframwaith wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol ers iddo gael ei gyflwyno ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal â thimau lleol hefyd i drafod dulliau o fynd ati i lunio strategaethau ar gyfer gwasanaethau ac ar gyfer ystadau gofal sylfaenol. Bydd pwysigrwydd y Fframwaith yn cael ei drafod hefyd yng nghyfarfod y Prif Weithredwyr ym mis Gorffennaf.

Bydd y dull wedi'i dargedu a drafodir uchod yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau Cynllunio a'r trefniadau perfformiad ac atebolrwydd sydd eisoes yn eu lle, ee drwy'r trefniadau Monitro Cyfalaf, cyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol a thrwy Arfarniadau'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr.

Yn unol â **Canllawiau Buddsoddi yn Seilwaith GIG Cymru**, mae disgwyliad ar bob un o sefydliadau'r GIG i gael cynllun seilwaith (yn cynnwys strategaethau rheoli ar gyfer yr ystad a'r asedau). Disgwylir i'r cynllun seilwaith weithio at yr un nod a chyd-fynd â chynlluniau eraill y sefydliadau yn gyffredinol, a'r strategaeth gwasanaethau yn benodol. Unwaith yn rhagor, mae hyn yn cynnwys holl adeiladau ac asedau ffisegol y GIG, gan gynnwys y rheini sy'n perthyn i ofal sylfaenol.

Gan gyfeirio'n benodol at lety nad yw'n eiddo i fwrdd iechyd lleol, mae **Cyfarwyddiadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - Costau Adeiladau) (Cymru) 2015** yn pennu'r fframwaith y gall byrddau iechyd lleol wneud taliadau yn unol ag ef i gontractwyr Meddygon Teulu, mewn perthynas â datblygu a gwella adeiladau. Yn unol â'r fframwaith hwn, cyn dod i benderfyniad am unrhyw gynnig gan gontractwr, rhaid i fwrdd iechyd lleol ystyried amrywiaeth o faterion gan gynnwys Canllawiau Buddsoddi yn Seilwaith GIG Cymru. O dan y fframwaith hefyd, bydd rhaid ystyried pob cynnig yng nghyd-destun strategaeth ystad pob bwrdd iechyd lleol, a rhaid iddo gael ei gydnabod fel un o'r datblygiadau â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu'r strategaeth honno.

Mae'r Cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chostau adeiladau hefyd yn rhestru cyfres o safonau gofynnol y mae'n rhaid i adeiladau meddygon teulu eu bodloni, gan gynnwys ystyriaethau o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gwresogi, awyru, storio deunyddiau, trefniadau diogelwch a'r amgylchedd clinigol. O ran rhoi cyllid ar gyfer adeiladau meddygon teulu, dylai byrddau iechyd lleol ystyried a ydy'r adeiladau yn bodloni'r gofynion sylfaenol hyn a gallant ofyn i gamau unioni gael eu cymryd lle y bo pryderon yn dod i'r amlwg.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad yn monitro'r cynnydd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei wneud yn ystod y cyfnod y mae o dan fesurau arbennig, gan gynnwys Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau.

| ***Nodwyd*** |
|---|
| Mater i'r Pwyllgor olynol yw hwn. |

| |
|---|
| Mae gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn cael eu monitro'n rheolaidd yn unol â'r Fframwaith Gwella o dan y Mesurau Arbennig, ac yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus gan y Bwrdd Iechyd fel y dangosir ar dudalen 24 yn yr enghraifft ganlynol o bapur Bwrdd diweddar http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_70.1%20Special%20Measures%20improvement%20framework.pdf |

**Argymhelliad 16** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adolygiad Marks, gan gynnwys nodi a chyflawni unrhyw flaenoriaethau uniongyrchol a mwy syml, erbyn mis Mawrth 2016.

| ***Derbyn*** |
|---|
| Mae AGIC wedi darparu diweddariad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion adolygiad Marks yn yr ychwanegiad at Atodiad A.<br><br>Yn 2015, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd a oedd yn cynnwys amryw o gwestiynau yn deillio o argymhellion Adolygiad Marks, yn arbennig o ran cylch gwaith, swyddogaethau ac annibyniaeth yr arolygiaethau; y syniad o Ddyletswydd Didwylledd statudol a fframwaith safonau cyffredin. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ar 22 Chwefror. Bydd gwaith pellach yn hyn o beth yn ddibynnol ar y blaenoriaethau yn y rhaglen lywodraethu sydd i ddod. |

**Argymhelliad 17** – Rydym yn argymell bod prosesau rheoli perfformiad ac adrodd cryfach yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer paratoi a chyhoeddi adroddiadau arolygu, a hynny er mwyn sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyrraedd ei thargedau adrodd.

| ***Derbyn*** |
|---|
| Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm. |

**Argymhelliad 18** – Rydym yn argymell y dylai adroddiadau arolygu a gyhoeddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnwys dyddiad cyhoeddi, er mwyn gwella tryloywder o ran adrodd ac atebolrwydd.

| ***Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn derbyn*** |
|---|
| Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm. |

**Argymhelliad 19** – Rydym yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Chynghorau Iechyd Cymunedol yn datblygu a gweithredu ar y cyd gynlluniau i sicrhau gwell perthnasau gwaith; dylai Protocol Gweithredu 2015 gael ei adolygu, i nodi sut y mae'n gweithio yn ymarferol, i fynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella, ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn effeithiol ac yn amserol.

| *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn derbyn* |
|---|
| Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm.<br><br>Mae rheoliadau wedi cael eu gwneud i ganiatáu i'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned osod safonau ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau'r Cyngorhau Iechyd Cymuned, gan gynnwys safonau ar gyfer arolygu adeiladau a chael mynediad iddynt. Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ac AGIC yn adolygu eu protocol cydweithio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ddau sefydliad chwilio am gyfleoedd i gydweithio lle bynnag y bo'n bosibl. |

**Argymhelliad 20** – Rydym yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cytuno â phrosesau'r byrddau iechyd ar gyfer sicrhau bod gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fynediad amserol a rheolaidd at grynodebau o ddata cwynion y byrddau iechyd, er mwyn gallu llywio ei gwaith.

| *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn derbyn yn rhannol* |
|---|
| Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm. |

**Argymhelliad 21** – Rydym yn argymell bod datrysiad electronig yn cael ei roi ar waith i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gysylltu â Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn uniongyrchol.

| *Derbyn* |
|---|
| Mae AGIC wedi darparu manylion cyswllt y Prif Weithredwr i Aelodau Cynulliad gysylltu â'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol yn yr ymateb a geir yn yr Atodiad sydd ynghlwm.<br><br>Gofynnwyd am eglurder hefyd ynghylch yr hyn yr oedd yr argymhelliad yn ei awgrymu. Cadarnhaodd Clerc y Pwyllgor fod Aelodau, yn ystod y sesiwn dystiolaeth â Phrif Weithredwr AGIC fel rhan o'r ymchwiliad hwn, wedi mynegi pryder nad oeddynt yn gallu cysylltu â hi yn uniongyrchol drwy'r e-bost oherwydd mater TG rhwng AGIC a'u cyfrifon hwy; gwnaed yr argymhelliad hwn yn y gobaith y byddai modd datrys y mater yn y dyfodol. Mae'r mater wedi'i drafod â'r Is-adran TG ac Is-adran y Cabinet a chafwyd cadarnhad nad oes unrhyw gyfyngiad ar e-bost yn dod i mewn i'r sefydliad o'r tu allan (ar wahân i drefniadau ar gyfer diogelu rhag sbam, feirysau etc). Mae cyfyngiadau ar anfon e-byst at ACau ar hyn o bryd ond caiff y mater ei adolygu ac, os byddant yn parhau, bydd staff allweddol yn AGIC yn cael eu cynnwys ar y rhestr o bobl sydd wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau hynny. |

**Argymhelliad 22 –** Rydym yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhoi trefniadau eglur, cadarn ac effeithiol ar waith gydag asiantaethau partner er mwyn gwella cydweithio a chyd-ddysgu, gan ddatblygu yn well adnoddau rhannu gwybodaeth i gefnogi gwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac eraill.

| *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn derbyn* |
|---|
| |

Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

**Argymhelliad 23** – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ac yn cytuno ar ymateb prydlon, priodol a statudol o ran sicrhau annibyniaeth amlwg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

**Argymhelliad 24** – Rydym yn argymell y dylid edrych yn fanwl ar ystod y cyfrifoldebau sydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a nodi'r rhai y byddai efallai'n well eu lleoli yn rhywle arall.

***Derbyn yn rhannol argymhellion 23 a 24***

Bydd y Llywodraeth Cymru newydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor a chanlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn ymwneud â chylch gwaith ac annibyniaeth AGIC. O ran cyfrifoldebau AGIC, cafwyd cadarnhad gan Adolygiad Marks eu bod yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, byddem yn edrych ar hyn yn fanylach fel rhan o unrhyw waith polisi i gael ei gynnal ar yr arolygiaethau, yn ôl gofynion y Llywodraeth newydd, a byddem yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn unol â hynny.

**Argymhelliad 25** - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol brys a manwl i archwilio gofynion presennol a gofynion posibl yn y dyfodol o ran aseswyr lleyg er mwyn cefnogi'r drefn arolygu yng Nghymru, a bod cyd-strategaethau clir yn cael eu datblygu i sicrhau proses recriwtio a chadw sy'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

***Ddim yn derbyn***

Amlinellir ymateb AGIC yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar hyn o bryd i gynnal adolygiad brys o aseswyr lleyg gan mai materion gweithredol i AGIC yw'r rhain. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn AGIC o ran a ydyw manteision gweithio'n agosach a symud at ddefnyddio aseswyr lleyg gwirfoddol yn cael eu bodloni, gan gynnwys cynyddu'r pwll a sicrhau cynaliadwyedd.

**Argymhelliad 26** – Nododd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch cynllunio ariannol gyda'r GIG yn ei adroddiad blaenorol *Cyllid Iechyd 2012-2013 a Thu Hwnt.* Rydym yn cymeradwyo drachefn argymhelliad 8 yn yr adroddiad hwnnw, sef:

Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell, o ystyried peryglon cynllunio ariannol dros 3 blynedd, y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol yn ofynnol:

a) Cynllun cwbl gytbwys dros dair blynedd i bob Bwrdd Iechyd ynghyd â manylion ategol;
b) Cynllunio ariannol ar y cyd yn dangos sut y bydd cyllidebau yn cydbwyso ar draws y GIG cyfan bob blwyddyn (er mwyn aros o fewn DEL);
c) Cynlluniau wrth gefn manwl yn nodi sut fydd Byrddau Iechyd yn ymateb os na fydd arbedion a gynlluniwyd o fuddsoddiad ymlaen llaw yn cael eu

gwireddu a/ neu y bydd pwysau ychwanegol o ran cost. Dylai'r cynlluniau wrth gefn hyn gynnwys asesiad o risgiau i gleifion/gwasanaethau.

| ***Derbyn – eisoes ar waith*** |
|---|
| Mae'r fframwaith statudol a ddarparwyd yn Neddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 eisoes ar waith. Yn unol â'r fframwaith hwn, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi, yn flynyddol, Gynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd sy'n gytbwys o safbwynt ariannol dros gyfnod o dair blynedd. Mae cadarnhad o'r gofyniad hwn i'w gael yn Fframwaith Cynllunio'r GIG, a gyhoeddir yn flynyddol fel cyfarwyddyd gweinidogol ar ffurf Cylchlythyr Iechyd Cymru.<br><br>Mae'r dull integredig hwn yn hanfodol ac mae a wnelo'r gofynion cynllunio â mwy na chynlluniau ariannol yn unig. Mae'r gofynion yn cael eu hasesu o safbwynt pob agwedd, nid dim ond cyllid, gan ei bod hi'n hanfodol bod ansawdd y gwasanaethau, y perfformiad a'r cyllid yn cael sylw priodol er mwyn osgoi materion ansawdd a diogelwch niweidiol i gleifion.<br><br>Mae'r gofynion cynllunio yn gymharol newydd o hyd ac nid yw rhai byrddau iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn bennaf, wedi gallu datblygu cynlluniau tair blynedd priodol. Mae'r Byrddau hyn yn cael eu cefnogi drwy'r broses uwchgyfeirio y cytunwyd arni rhwng y tri pharti perthnasol. Mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth arnynt yn y dyfodol i ddatblygu'r cynlluniau hyn ac ni fydd hynny'n digwydd yn 2016/17 nac yn 2017/18 oherwydd bod angen datblygu modelau gwasanaeth cadarn a chynaliadwy yn y ddwy ardal a fydd yn sicrhau bod perfformiad, gweithluoedd a chynlluniau ariannol gwasanaethau yn cydweddu'n llawn â'i gilydd.<br><br>Bu gan bob bwrdd iechyd arall Gynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd cymeradwy ar gyfer 2015-16, ac mae Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl iddynt ddatblygu a pharhau yn y sefyllfa hon ar gyfer 2016-17. Yn achos rhai sefydliadau, gallai hyn olygu y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach a rhoi rhagor o gefnogaeth os bydd ei hangen, fel rhan o'r fframwaith uwchgyfeirio.<br><br>O ran cynllunio ariannol ar y cyd, dylid nodi bod Cyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi parhau yn rhan o gyfansymiau rheoli'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) yn ystod y blynyddoedd diweddar, a disgwylir iddi barhau felly pan gyhoeddir y ffigurau terfynol ar gyfer 2015-16. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi ei chyllideb flynyddol, gan gynnwys y cyllid ar gyfer y GIG, wedi'i diweddaru ar gyfer newidiadau'r Gyllideb Atodol. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi'r dyraniad refeniw blynyddol ar gyfer byrddau iechyd. Cafodd y dyraniad refeniw cychwynnol ar gyfer 2016-17, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, ei adolygu ym mis Ebrill 2016 i gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gofal sylfaenol, ac ar gyfer dosbarthu'r £200 miliwn a ddarparwyd ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, darparodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiadau cyfnodol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y rhagolygon ariannol ar gyfer y GIG a'r Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a disgwylir i'r broses honno barhau yn ystod y Pumed Cynulliad. Yn gryno, mae manylion y gyllideb a'r dyraniadau wedi'u cyhoeddi eisoes, felly nid oes bwriad cyhoeddi rhagor o wybodaeth am gynllunio ariannol ar y cyd ar gyfer y GIG ar gyfer 2016-17 na'r blynyddoedd sydd i ddod.<br><br>Disgwylir i'r byrddau iechyd gynnwys eu cynlluniau wrth gefn yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, sy'n ddogfennau cyhoeddus, wedi'u cymeradwyo gan eu Byrddau. |

| |
|---|
| Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'r cynlluniau hyn fel rhan o'i hasesiad o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig cyn cynghori'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol pa un a ddylid cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig bwrdd iechyd ai peidio. |

**Argymhelliad 27** – Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Archwilydd Cyffredinol Cymru i adolygu effaith Deddf Cyllid y GIG (Cymru) yn ystod y Pumed Cynulliad ac rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried unrhyw wersi sy'n codi o'i waith.

| ***Nodwyd*** |
|---|
| Mater i'r Pwyllgor olynol yw hwn. |

**Atodiad A**

Cynhyrchwyd yr atodiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i ychwanegu at yr ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 16** – Mae'r pwyllgor yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ynghylch y cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn argymhellion adolygiad Marks, gan gynnwys nodi a darparu unrhyw flaenoriaethau uniongyrchol a mwy syml erbyn mis Mawrth 2016.

| ***Derbyniwyd*** |
| --- |
| Mae AGIC yn fodlon rhoi diweddariad ynghylch argymhellion perthnasol adolygiad Marks. Mae hwn ynghlwm fel atodiad. |

**Argymhelliad 17 –** Rydym yn argymell bod rheolaeth perfformiad a phrosesau adrodd cryfach yn cael eu sefydlu mewn cyswllt â pharatoi a chyhoeddi adroddiadau arolygu, i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn bodloni ac yn cyflawni ei thargedau adrodd.

| ***Derbyniwyd*** |
| --- |
| Mae prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar waith yn AGIC. Roedd yr wybodaeth a roddwyd i'r pwyllgor yn cyfeirio at 2014-15. Yn ystod 2015-16, cyhoeddwyd 75% o adroddiadau o fewn tri mis yn dilyn arolygiad. Mae targedau cyhoeddi yn cael eu monitro yn ffurfiol mewn cyfarfodydd wythnosol a misol ac mae perfformiad wedi'i gynnwys yn rhan o'n Hadroddiad Blynyddol. |

**Argymhelliad 18 –** Rydym yn argymell y dylai adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnwys dyddiad cyhoeddi, i ganiatáu ar gyfer mwy o dryloywder o ran adrodd ac atebolrwydd.

| ***Derbyniwyd*** |
| --- |
| Bydd AGIC yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ym mhob un o'i hadroddiadau o 1 Mehefin 2016. Hefyd, bydd AGIC yn cyflwyno amserlen gyhoeddi ymlaen llaw ar ei gwefan newydd sy'n cynnwys y dyddiad cyhoeddi arfaethedig ar adeg arolygiad. Caiff hon ei lansio yn haf 2016. |

**Argymhelliad 19 –** Rydym yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chynghorau iechyd cymuned yn datblygu a gweithredu cynlluniau ar y cyd i sicrhau gwell perthnasoedd gwaith. Dylai Protocol Gweithredu 2015 gael ei adolygu, i nodi sut y mae'n gweithio'n ymarferol, i dynnu sylw at y meysydd sydd angen eu gwella, ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd effeithiol ac amserol.

| ***Derbyniwyd*** |
|---|
| Roedd hwn yn ymrwymiad o fewn y protocol presennol ac mae gwaith yn mynd rhagddo gan swyddogion yn y ddau sefydliad i gynnal yr adolygiad hwn. |

**Argymhelliad 20 –** Rydym yn argymell bod AGIC yn cytuno â phrosesau'r byrddau iechyd i sicrhau y caiff Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fynediad amserol a rheolaidd i ddata cwynion cryno gan y bwrdd iechyd, i hysbysu eu gwaith.

| ***Derbyniwyd yn rhannol*** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cydnabod y rhaglen waith arwyddocaol a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar ymdrin â chwynion, gan gynnwys yr adolygiad o ddata cwynion gan Keith Evans. Byddai'n well gan AGIC leihau'r baich ar fyrddau iechyd, a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ganiatáu i fyrddau iechyd rannu eu data cwynion gydag AGIC a Llywodraeth Cymru, yn hytrach na rhoi dadansoddiadau pwrpasol i AGIC. |

**Argymhelliad 21 –** Rydym yn argymell bod ateb electronig yn cael ei roi ar waith i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gysylltu â Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn uniongyrchol.

| ***Derbyniwyd*** |
|---|
| Gall Aelodau'r Cynulliad gysylltu â Phrif Weithredwr AGIC yn uniongyrchol ar hyn o bryd drwy<br><br>- e-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk; Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk<br>- ffôn: 0300 062 8163<br>- ffacs: 0300 062 8387<br>- llythyrDr K Chamberlain<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>Mae'r Prif Weithredwr wedi ymweld ag Aelodau'r Cynulliad yn eu swyddfeydd i drafod unrhyw bryderon a godwyd gan etholwyr ar adegau. |

Argymhelliad 22 – Rydym yn argymell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhoi trefniadau sydd â ffocws, yn gadarn, ac yn effeithiol ar waith gydag asiantaethau partneriaeth i wella gweithio ar y cyd a dysgu, a datblygu adnoddau gwybodaeth a rennir yn well i gefnogi gwaith arolygu AGIC ac eraill.

| ***Derbyniwyd*** |
|---|
| Mae AGIC yn derbyn yr argymhelliad hwn gan fod ein trefniadau ar gyfer dadansoddi a defnyddio gwybodaeth yn cael eu hadolygu a'u datblygu'n rheolaidd.<br><br>Mae gennym ystod eang o femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda chyrff eraill sy'n amlinellu sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, a chyhoeddwyd y rhain eisoes. Mae eraill yn cael eu datblygu hefyd.<br><br>Yn ogystal, rydym yn cynnal arolygiadau ar y cyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, ac Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. Yng Nghymru, rydym wedi cynnal adolygiadau ar y cyd gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac arolygiadau ar y cyd gydag AGGCC. Yn ystod 2015-16, gwnaethom gynnal rhaglen o arolygiadau a gefnogwyd gan y cynghorau iechyd cymuned.<br><br>Rydym yn aelodau rhagweithiol o'r Concordat, sy'n dod ag amrywiaeth o reoleiddwyr, arolygwyr a chyrff craffu eraill at ei gilydd yn chwarterol i drafod materion sy'n gyffredin o ran diddordeb.<br><br>Mae AGIC hefyd yn trefnu uwchgynadleddau ddwywaith y flwyddyn sy'n dod â rheoleiddwyr, arolygwyr a chyrff craffu eraill at ei gilydd i rannu gwybodaeth benodol ar bob sefydliad y GIG. Trefnir yr uwchgynadleddau hyn i hysbysu'r Cyfarfodydd Uwchgyfeirio ac Ymyrryd tri pharti a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Llywodraeth Cymru. |

Argymhelliad 25 – Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol brys â phwyslais penodol i archwilio’r angen, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ar gyfer cael aseswyr lleyg yn cefnogi'r drefn arolygu yng Nghymru, ac y bydd strategaethau clir ar y cyd yn cael eu datblygu i sicrhau recriwtio a chadw effeithiol a chynaliadwy.

| ***Gwrthodwyd*** |
|---|
| Penderfynwyd symud i ddefnyddio aseswyr lleyg gwirfoddol am nifer o resymau. Yn bwysig, roedd defnyddio gwirfoddolwyr yn cael gwared ar rwystr i weithio'n agosach gyda chynghorau iechyd cymuned gan nad yw eu haelodau yn cael eu talu hefyd ac maent wedi bod yn gweithio gydag AGIC fel adolygwyr lleyg yn rhan o'n rhaglen arolygu meddygon teulu. Hefyd, mae'r penderfyniad hwn wedi ein cysoni â sefydliadau cyfwerth mewn gweinyddiaethau eraill ac mae ganddo'r potensial i ehangu ein cronfa o recriwtiaid gan y byddai gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn gallu defnyddio eu diwrnodau gwirfoddoli. Mater ar gyfer Llywodraeth Cymru yw pa un a ydynt yn dymuno adolygu'r penderfyniad hwn. |

## Atodiad – Diweddariad AGIC ynglŷn ag Argymhellion Marks

Mae'r tabl isod yn dangos datganiad sefyllfa yn erbyn yr argymhellion hynny yn yr adroddiad Marks sy'n gyfrifoldeb i AGIC.

| Rhif | Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1 | Pan fo'n briodol, dylai AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar lywodraethu ac arweinyddiaeth cyrff iechyd ar y cyd, yn benodol wrth ystyried i ba raddau y mae eu gweithgareddau yn cael eu harwain gan y nod o wella gwasanaethau'n barhaus ac ymgeisio i gyflawni safonau sydd o'r radd flaenaf. | Mae AGIC wedi cyflwyno proses o adrodd yn flynyddol i gyrff iechyd sy'n dwyn ein canfyddiadau ynghyd ac yn rhoi adborth ar drefniadau llywodraethu a sicrwydd. Cydlynir y gwaith hwn gyda'r asesiadau strwythuredig o Swyddfa Archwilio Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ffurfioli ein cydweithrediad ar yr asesiad o drefniadau llywodraethu a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ein gwefan yn haf 2016. |
| 2 | Dylai AGIC barhau i rannu gwybodaeth a chydlynu arolygiadau ac adolygiadau gyda Swyddfa Archwilio Cymru, cynghorau iechyd cymuned, rheoleiddwyr proffesiynol a cholegau meddygol brenhinol er mwyn osgoi dyblygu eu gweithgareddau ac i wella eu heffaith. | Mae AGIC yn gweithio'n agos i rannu gwybodaeth a chydlynu gweithgareddau gyda Swyddfa Archwilio Cymru, cynghorau iechyd cymuned , rheoleiddwyr proffesiynol eraill a'r colegau meddygol brenhinol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:<br><br>- Rhaglen Arolygiaeth Cymru<br>- Fforwm Concordat o gyrff sy'n cymryd rhan yn y gwaith rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol<br>- Uwchgynadleddau o gyrff sy'n rhan o'r broses craffu a sicrwydd gofal iechyd<br>- Cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd.<br><br>Mae cynghorau iechyd cymuned a cholegau meddygol brenhinol hefyd wedi'u cynrychioli ar Fwrdd Cynghori AGIC. |
| 3 | Dylai AGIC gyhoeddi ei hymagwedd tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol wrth gynnal gweithgareddau arolygu, a diogelu a hyrwyddo diddordebau pobl o gefndiroedd amrywiol a'r rhai sydd yn aml yn cael eu gwthio i'r cyrion ac sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. | Mae AGIC eisoes wedi mabwysiadu ymagwedd sydd o blaid cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei gwaith. Mae hon wrth wraidd ein dull arolygu, sy'n edrych yn uniongyrchol ar y ffordd y mae cleifion yn profi gwasanaethau drwy lygaid y cleifion a'u perthnasau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rydym yn blaenoriaethu gwaith, yn rhannol, yn ôl pa mor fregus yw'r unigolion sy'n derbyn gofal, ac mae gennym gyfrifoldebau arbennig o ran hyn sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Rydym ni hefyd yn aelodau o’r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol – grŵp o tua 20 sefydliad sy'n monitro canolfannau cadw ar draws Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys dalfeydd yr heddlu, carchardai, dalfeydd y llysoedd, dalfeydd mewnfudwyr a milwrol, cartrefi diogel i blant, a mannau lle y mae pobl yn cael eu cadw dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl.<br><br>Mae Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu AGIC hefyd yn eistedd ar Fwrdd Cynghori Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG. |
| 4 | Gall AGIC wneud cyfraniad sylweddol at ddiogelwch a gofal cleifion drwy ddwyn byrddau i gyfrif am berfformiad clinigol meddygon drwy'r broses ail-ddilysu feddygol.<br>Felly, dylai roi blaenoriaeth uchel i weithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau bod arweinyddiaeth a llywodraethu'r byrddau iechyd o Reoliadau'r Swyddog Cyfrifol yn effeithiol. | Mae AGIC yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, drwy'r Fforwm Concordat, Fforwm Cynghori Cymru y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chyfarfodydd dwyochrog rheolaidd.<br><br>Mae AGIC hefyd yn gweithio gydag Uned Cymorth Ailddilysu Deoniaeth Cymru yn ei gwaith goruchwylio datblygiad y broses ailddilysu.<br><br>Mae'r graddau y mae ailddilysu yn cael ei weithredu'n gywir yn ystyriaeth bwysig o ran ein hasesiad o brosesau llywodraethu a sicrwydd sefydliad. |
| 5 | Dylai AGIC a Llywodraeth Cymru archwilio pa mor ddefnyddiol yw'r dulliau archwilio a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon ac ystyried pa un a ddylid eu cynnwys yn rhan o'r Safonau Iechyd newydd sy'n cael eu datblygu, a pha un a allent gyfrannu at raglenni arolygu AGIC. | Mae AGIC yn tynnu ar yr arferion proffesiynol sefydledig gorau gan amrywiaeth o ffynonellau wrth ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer arolygiadau, a byddai hyn yn cynnwys y dulliau a rhestrau gwirio hynny a ddatblygwyd gan y colegau brenhinol. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r colegau brenhinol i eistedd ar ein Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid pan fydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | methodolegau newydd yn cael eu datblygu, ac mae Academi Colegau Meddygol Brenhinol wedi ei chynrychioli ar ein Bwrdd Cynghori. |
| 6 | Dylai AGIC ddatblygu rhaglen arolygu gyfatebol sydd wedi'i seilio ar risg a hysbysir gan yr wybodaeth y mae'n ei chasglu ac yn ei dadansoddi. Dylai'r rhaglen arolygu gynnwys:<br>• bydd gweithio'n agosach gyda chynghorau iechyd cymuned yn hanfodol i sicrhau'r defnydd gorau o wybodaeth ar lefel ward unigol neu mewn lleoliadau eraill<br>• dysgu gwersi arfer da o ganlyniad i hapwiriadau Llywodraeth Cymru mewn nifer sylweddol o wardiau ysbyty, a wnaeth asesu diogelwch ac ansawdd y gofal, a defnyddio'r rhain i lywio'r datblygiad o arolygiadau urddas a gofal hanfodol ar ffurf gryno. Byddai hyn yn galluogi cynnal mwy o arolygiadau<br>• parhau gyda'i dull newydd i lendid a rheoli heintiau i atal heintiau sy'n dod o'r ysbyty. Dylai hyn barhau i fod yn flaenoriaeth uchel ac ni ddylai materion capasiti byth rwystro ar ei gallu i ddarparu'r agwedd hon o'i gwaith<br>• dod o hyd i adnoddau i gynyddu nifer yr arolygiadau y mae'n cynnal o bractisau meddygon teulu. | (I) Mae Protocol Gweithredu sydd wedi'i gytuno gan AGIC gyda'r cynghorau iechyd cymuned, a chyfnewidiwyd hwn yn ffurfiol ym mis Mawrth 2015. Mae adolygiad o hyn bellach wedi dechrau.<br>(II) Mae AGIC wedi cysylltu'n agos gyda'r rhaglen hapwiriadau wreiddiol, ac mae sawl un o'r adolygwyr bellach wedi ymuno â'n panel adolygwyr allanol. Mae AGIC wedi adolygu cymhwysedd ymweliadau ffurf fer i ystyried sut y gallwn adeiladu ar y rhain er mwyn cyflwyno'r trefniadau cadarn angenrheidiol ar gyfer casglu tystiolaeth ac adrodd sy'n sail i raglen arolygu ffurfiol.<br>(III) Mae grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol wedi bod yn gweithio gydag AGIC i ddatblygu dull tair blynedd i helpu i gyflwyno'r canllawiau atal a rheoli heintiau newydd a rhoi sicrwydd ynghylch eu gweithrediad.<br>(IV) Cyfrifoldeb AGIC yw gweithredu o fewn y gyllideb a roddwyd iddi gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i AGIC ystyried nifer yr arolygiadau meddyg teulu a gymerir ganddi pan mae'n blaenoriaethu'r ffordd y bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio. Mae newid o ran nifer yr arolygiadau meddyg teulu a gynhelir yn effeithio ar weithgarwch arolygu mewn mannau eraill. |
| 7 | Dylai AGIC ffurfioli ei chytundebau gyda'r cyrff canlynol:<br>• Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, sef prif reoleiddiwr y proffesiwn fferylliaeth yng Nghymru, ac adrodd ar effeithiolrwydd rheoleiddio fferylliaeth ledled Cymru yn ei Hadroddiad Blynyddol | Mae AGIC wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.<br><br>Mae AGIC yn ymgymryd ag adolygiad thematig o offthalmoleg. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar y grŵp rhanddeiliaid ar gyfer yr adolygiad |

| | | |
|---|---|---|
| | • Y Cyngor Optegol Cyffredinol, sef prif reoleiddiwr y proffesiwn optegol yng Nghymru, ac adrodd ar effeithiolrwydd rheoleiddio optegol ledled Cymru yn ei Hadroddiad Blynyddol. | hwn a bydd hyn yn cynnig cyfle i arbrofi'r angen am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol. |
| 8 | Dylai AGIC ehangu adolygiadau thematig, arbennig, a chan gymheiriaid gan eu bod yn gallu gwella ansawdd y gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar draws Cymru. Yn benodol, dylai adolygiadau thematig ac arbennig gael eu datblygu ymhellach oherwydd gallant nodi atebion i broblemau mewn un gwasanaeth neu ardal y byddai'r holl sector yn gallu eu gweithredu. Er hynny, ni ddylai rheoliad ac arolygiad gwasanaethau iechyd gofal gael eu cyfaddawdu. | Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi sefydlu Grŵp Llywio Adolygiad gan Gymheiriaid Cymru Gyfan i reoli rhaglen flynyddol o adolygiadau gan gymheiriaid ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru. Bydd y grŵp llywio yn adrodd i'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol. Mae aelodau'r grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolydd AGIC, a bydd y cydgysylltiad parhaus hwn, ynghyd â'r broses uwchgyfeirio bresennol, yn helpu i roi mwy o bwys i'r adolygiadau gan gymheiriaid.<br><br>Ers 2015-16, mae AGIC wedi cyflwyno’r defnydd o adolygiadau thematig.<br><br>Rydym yn parhau i ymgymryd ag ymchwiliadau arbennig lle y ceir materion sy'n peri pryder. |
| 10 | O ran gweithio mewn lleoliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, dylai AGIC:<br>• gynyddu nifer yr arolygiadau o gyfleusterau cleifion preswyl y GIG i ddiogelu buddiannau cleifion sydd â phroblem iechyd meddwl neu anabledd dysgu yn well<br>• canolbwyntio ei model arolygu yn fwy ar ddadansoddi canlyniadau i gleifion ac yn llai ar graffu ar ba un a ddilynwyd prosesau priodol. | Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn ymgymryd ag arolygiadau o gyfleusterau cleifion preswyl y GIG.<br><br>Yn ogystal â'n rhaglen graidd, rydym wedi bod yn cynnal adolygiad thematig gydag AGGCC ynghylch anableddau dysgu.<br><br>Pan fo'n briodol, rydym yn defnyddio ein hymweliadau Deddf Iechyd Meddwl arunig i ddarparu gwybodaeth ddiagnostig fel y gallwn dargedu ein harolygiadau llawn yn fwy effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae ein dull arolygu, ymweld ac adolygu eisoes yn canolbwyntio ar archwilio ansawdd profiad y claf. Er bod AGIC hefyd yn edrych ar faterion prosesu arbennig (yn enwedig ynglŷn â pha un a yw gofynion cyfreithiol wedi'u bodloni), gwneir hyn o fewn cyd-destun y gofal a dderbyniwyd. |
| 12 | Dylai AGIC adnewyddu ei Datganiad o Ddiben i ganolbwyntio ar y claf a'r dinesydd. Dylai'r cyhoedd ddeall yn iawn mai ei swyddogaeth yw sicrhau eu bod yn derbyn triniaeth a gofal o'r ansawdd gorau, yn ogystal â'u hamddiffyn rhag niwed. Hefyd, efallai y byddai'r Datganiad o Ddiben eisiau rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth AGIC o ran hyrwyddo gwelliannau ledled Cymru gyfan ac arloesiad yng ngofal iechyd, ac y gallai fod yn llawer mwy nag arolygydd gwasanaethau unigol. | Mae gan AGIC ddatganiad o ddiben, gwerthoedd, a chanlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni sy’n eglur ac sydd bellach wedi'i gynnwys ym mhob un o'i chynlluniau cyhoeddedig. Bydd hyn yn fwy clir hefyd yn dilyn lansiad ei gwefan newydd. |
| 14 | Dylai AGIC ddatblygu ymhellach a chyhoeddi strategaeth gyfathrebu, a fydd yn ei chaniatáu i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd. Bydd yn gallu darparu tystiolaeth ei bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr iawn ar eu rhan nhw. Bydd mwy o ryngweithio â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth drwy fformatau aml-gyfrwng yn darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi arolygiadau a arweinir gan dargedau o wasanaethau lle y mynegir pryderon. | Mae AGIC wedi adnewyddu ei strategaeth gyfathrebu, sydd wedi arwain at ddefnydd cynyddol a mwy rhyngweithiol o'r cyfryngau cymdeithasol. Comisiynwyd gwefan newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, a bwriedir ei lansio ym mis Mehefin 2016. |
| 15 | Dylai AGIC gynnwys mwy o wybodaeth yn ei Hadroddiad Blynyddol o ran allbwn ac effeithiolrwydd prosesau gweithio sy'n gwasanaethu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. Dylai nifer y camau gofal cwsmeriaid gael eu | Mae adroddiadau blynyddol AGIC bellach yn canolbwyntio ar themâu a chanfyddiadau o'n gwaith.<br>Nid ydym yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn unig, ond rydym hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddadansoddiad thematig o raglenni gwaith penodol ar sail gyfnodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | lleihau, er mwyn caniatáu'r defnydd o adnoddau prin i werthuso canlyniadau arwyddocaol. | Rydym yn adrodd yn agored ar ein targedau perfformiad, gan gynnwys maint a phrydlondeb. |
| 16 | Mae angen i AGIC adolygu effeithiolrwydd ei modelau arolygu ac adolygu, nid yn unig er mwyn gwella ei dealltwriaeth ynghylch perfformiad darparwyr gofal iechyd, ond hefyd fel modd o'i helpu i wella ansawdd gweithgareddau arolygu. Dylai darparwyr gael y cyfle i roi adborth ar ba un a yw craffu AGIC ar eu gwasanaeth yn ddefnyddiol, ac i ba raddau y mae'n eu helpu nhw i nodi'r agweddau hynny sydd angen eu gwella. | Rydym yn ymgymryd â gwerthusiadau o'n gweithgareddau lle bo hynny'n briodol:<br>- Gwnaethom werthuso'r model newydd ar gyfer goruchwylio bydwragedd.<br>- Gwnaethom werthuso a chyhoeddi dysgu a themâu o'n hadolygiadau dynladdiad.<br>- Rydym wedi adolygu ac adnewyddu ein hymagwedd at arolygiadau urddas a gofal hanfodol a'n hadolygiadau iechyd meddwl.<br><br>- Rydym wedi peilota a gwerthuso dull ar gyfer arolygiadau meddygon teulu.<br>- Rydym yn defnyddio grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid i gynghori a herio mewn meysydd gwaith newydd a/neu arwyddocaol, e.e. arolygiadau deintyddol, arolygiadau meddygon teulu, gweithgareddau iechyd meddwl.<br>- Gwnaethom ymgymryd ag arolwg rhanddeiliaid sylfaenol yn gynnar yn 2014/15. |
| 17 | Dylai AGIC fesur canlyniadau ei meysydd arolygu pwysicaf a dangos sut y mae ei harolygiadau wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd drwy helpu darparwyr i wella eu perfformiad. | Mae priodoli achos ac effaith yn anodd ei gyflawni ac mae hefyd wedi bod yn destun adolygiad rhyngwladol heb lawer o lwyddiant, fel yr adroddwyd drwy'r Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio.<br>Fodd bynnag, rydym yn parhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd gan werthusiadau megis y rhai a nodwyd uchod i ddatblygu'r ffordd y gall ein gwaith helpu i gefnogi gwelliant. |
| 19 | Dylai AGIC, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, gyhoeddi Datganiad o Risg sy'n amlinellu ei dull rheoleiddio ac arolygu. Dylai egluro beth yw'r nifer isaf o arolygiadau ac adolygiadau y bydd yn eu cynnal o gyrff y GIG a'r sector annibynnol ac | Rydym yn dryloyw o ran sut yr ydym yn blaenoriaethu ein gwaith yn ein cynlluniau cyhoeddedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyried hyn o fewn cyd-destun ei chapasiti i fodloni'r targedau hyn. | |
| 21 | Dylai AGIC adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd strategaethau defnyddwyr gwasanaeth byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Fframwaith i Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau', i benderfynu pa un a ydynt mewn gwirionedd yn cynnwys cleifion a gofalwyr fel modd o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau. | Gallai hyn gael ei ystyried yn adolygiad thematig posibl, ond byddai angen ei flaenoriaethu ochr yn ochr â chynigion eraill.<br>Mae ein hadolygiadau yn ystyried profiad y claf a'r graddau y mae'r claf yn ymwneud â'i ofal ei hun fel mater o drefn. |
| 25 | Dylai AGIC weithredu camau dilynol bob amser pan fo'r canlyniadau arolygu yn dangos bod hyn yn angenrheidiol, ac yn yr enghreifftiau o fethiant gwasanaeth mwyaf difrifol, dylai fod yn fwy cadarn wrth ddefnyddio ei phwerau gorfodi, a chyhoeddi data ynghylch sut y mae wedi defnyddio'r pwerau hyn yn ei Hadroddiad Blynyddol. | Mae dull strategol gan AGIC o ran camau dilynol, sy'n cynnwys cynnal ymweliadau dilynol. Caiff hwn ei gyhoeddi yn ystod haf 2016.<br>Gweithredwyd proses newydd i reoli gwasanaethau sy'n peri pryder.<br>Mae trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd tri pharti ar waith ar gyfer y GIG. |
| 27 | Dylai AGIC ystyried gwerth datblygu fframwaith i asesu ansawdd a diogelwch yr holl wasanaethau gofal iechyd. Gallai'r fframwaith adlewyrchu canlyniadau arwyddocaol i gleifion, a bod yn gyson â'r Safonau Iechyd sydd newydd gael eu hadnewyddu, y systemau hunan sicrwydd a ddefnyddir gan gyrff iechyd i fesur eu perfformiad eu hunain, a'r dangosyddion clinigol a ddefnyddir gan reoleiddwyr proffesiynol a cholegau brenhinol. Dylai'r fframwaith fod yn gyffredin i waith AGIC ac AGGCC gan fod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn gynyddol. Byddai gwybodaeth glir yn cael ei rhoi i aelodau'r cyhoedd, a byddai adroddiadau arolygu a chanlyniadau yn annog gwelliant ac arloesoldeb gan ddarparwyr. | Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith ac mae angen rhoi ystyriaeth bellach mewn cyswllt â hyn yn sgîl darpariaeth gwasanaeth a chyfeiriad sy'n newid megis datblygu gwasanaethau integredig. Byddwn yn parhau i ddysgu sut y mae cyrff eraill yn datblygu eu fframweithiau dyfarniad. |
| 28 | Dylai AGIC graffu ar ba un a yw: | Mae AGIC yn cynnal profion i weld pa |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyrff iechyd yn darparu'r driniaeth glinigol fwyaf effeithiol i gleifion. Mae cleifion am elwa nid yn unig ar dderbyn gofal sydd yn hanfodol er mwyn cynnal bywyd, megis cael eu bwydo, eu hydradu, a'u cynorthwyo wrth fynd i'r tŷ bach yn ôl yr angen, ond maent hefyd am dderbyn y triniaethau clinigol gorau sydd ar gael.<br>• Mae'r gwersi a hyrwyddwyd gan raglen wella 1000 o Fywydau yn cael eu bodloni yn ystod arolygiadau neu adolygiadau unigol, neu gallent fod yn destun adolygiadau thematig cenedlaethol. | un a yw gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn erbyn y safonau cyhoeddedig.<br><br>Nid ein gwaith ni yw arbrofi effeithiolrwydd triniaethau clinigol. Mae hyn yn fater i gyrff eraill, megis NICE.<br><br>Wrth gynnal adolygiadau thematig, byddem yn tynnu ar arferion gorau gan nifer o ffynonellau gan gynnwys 1000 o Fywydau a Mwy. |
| 33 | Dylai AGIC gynyddu ei chydweithrediad â sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cynnig cyngor ac eiriolaeth i gleifion a gofalwyr, er mwyn casglu mwy o wybodaeth ynghylch unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ran ansawdd gwasanaethau gofal iechyd, e.e. Gofalwyr Cymru, Mind Cymru, a Cyngor ar Bopeth Cymru. | Mae AGIC yn parhau i gysylltu a rhwydweithio gyda'r trydydd sector i gadw'n gyfredol gyda gwybodaeth unigryw sefydliadau arbennig a grwpiau buddiant megis yr RNIB ac AHL. Wrth gynnal adolygiadau thematig a/neu arbenigol, bydd AGIC yn cynnwys y trydydd sector o fewn grwpiau cynghori/llywio ei hadolygiad. Mae tri sefydliad trydydd sector sy'n aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ein hadolygiad thematig o wasanaethau offthalmoleg.<br>Mae ein Cynllun Strategol wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. |
| 34 | Dylai AGIG a chynghorau iechyd cymuned gynnal digwyddiadau gwrando mewn cymunedau lleol yn ogystal â chynnwys arbenigwyr ar sail profiad yn eu timau arolygu pan fo adolygiad manwl o ysbyty penodol neu fwrdd iechyd lleol yn digwydd. | Mae gan AGIG berthynas waith agosach gyda chynghorau iechyd cymuned ers arwyddo'r Protocol Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys AGIC yn dibynnu ar yr wybodaeth a gasglwyd gan gynghorau iechyd cymuned o ffynonellau gwahanol. Defnyddir adolygwyr lleyg yn ystod arolygiadau AGIC i sicrhau bod safbwynt y claf yn cael ei nodi.<br><br>Byddem yn dal i fod yn obeithiol y gallwn barhau i ddefnyddio rôl ymgysylltu â'r cyhoedd cynghorau |

| | | |
|---|---|---|
| | | iechyd cymuned i gynnal digwyddiadau gwrando, a byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda chynghorau iechyd cymuned ar ôl iddynt gael cyfle i ddatblygu ymhellach eu strategaeth, cynlluniau a safonau corfforaethol. |
| 36 | Dylai AGIC gynnal mwy o adolygiadau thematig cenedlaethol o wasanaethau gofal iechyd. Dylai'r holl ddarparwyr ar draws Cymru ddilyn safonau meincnodi rhyngwladol ar gyfer gofal da, a swyddogaeth AGIC byddai craffu ar ba un a yw pob corff iechyd yn eu gweithredu, a pha un a ydynt yn hunanasesu eu perfformiad yn barhaus er mwyn gwella safonau gofal. Byddai'n profi pa un a yw hunanasesiadau perfformiad yn ddilys neu beidio, a thrwy weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff arbenigol eraill, nodi gwersi gan ddarparwyr llwyddiannus iawn a allai fod yn fuddiol i'r holl gleifion a defnyddwyr gwasanaeth pe byddent yn cael eu rhoi ar waith ar draws Cymru gyfan. | Rydym wedi gweithredu rhaglen o adolygiadau thematig cenedlaethol. Nodwyd y rhain yn ein Cynlluniau Strategol a Gweithredol. |
| 38 | Pan fo'n briodol, dylai AGIC roi blaenoriaeth i gynnal adolygiadau ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru o lywodraethiad, arweinyddiaeth a pherfformiad byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau, ac ystyried gofyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gynnig ei arbenigedd. | Rydym yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gydlynu ei gwaith asesu corfforaethol gyda'n hadolygiadau o lywodraethu corfforaethol.<br>Mae arweinwyr perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â rheolwyr perthynas AGIC. Pan fo pryderon arwyddocaol yn codi, rydym yn cynnal gwaith adolygu ar y cyd. |
| 40 | Dylai AGIC sicrhau pa un a yw byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn dilyn meincnodau arferion gorau ac yn rheoli perfformiad gwasanaethau gofal iechyd i'r safonau uchaf posibl. | Mae adolygiadau AGIC yn defnyddio safonau sefydlog cyhoeddedig a'r arferion gorau wrth ddatblygu methodolegau ar gyfer arolygiadau safonol ac ar gyfer adolygiadau thematig. |
| 41 | Dylai AGIC ac AGGCC weithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframwaith arolygu | Mae AGIC ac AGGCC yn gweithio ar y cyd fesul thema wrth ddatblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | integredig i graffu ar berfformiad sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.  Y nod byddai asesu ansawdd gofal integredig – pa un a yw pobl yn derbyn gwasanaethau di-dor pan fyddant yn symud rhwng gofal sylfaenol, ysbytai a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau cofrestredig. | dulliau sy'n briodol i'r pwnc.<br>Rydym yn cynnal gwaith ar y cyd ym maes y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd.<br>Rydym yn gweithio gyda'n gilydd ar adolygiad o wasanaethau anabledd dysgu.<br>Rydym yn cynnwys AGGCC yn ein hadolygiadau dynladdiad pan fo hynny'n briodol.<br>Archwiliodd y Papur Gwyrdd y posibilrwydd o integreiddio ymhellach. |

**Argymhelliad 12** - Rydym yn argymell bod Bwrdd Iechyd PBC yn rhoi diweddariad i'n Pwyllgor olynol yn y pumed Cynulliad ar gynnydd tuag at wella gwasanaethau iechyd meddwl erbyn mis Mehefin 2016.

| ***Derbyniwyd*** |
|---|
| Mae cynnydd tuag at wella gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Iechyd bob yn ail fis fel rhan o'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig. Bydd trefniadau cadarn yn cael eu rhoi ar waith yn fewnol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gasglu'r holl wybodaeth fydd ei angen ar gyfer adrodd ar wasanaethau iechyd meddwl i'r pumed Cynulliad erbyn 1.6.16.<br>Mae prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gael eu datblygu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'u monitro'n lleol, erbyn hydref 2016. |

**Argymhelliad 13** - Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn dderbyniol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â hyn ar frys.

| ***Derbyniwyd*** |
|---|
| Mae gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau BIPBC wedi canolbwyntio gwelliant mewn tri phrif faes, sef: llywodraethu ac atebolrwydd; ansawdd a mynediad; a gweithlu.<br><br>Mae'r prif welliannau a gyflawnwyd dros y saith mis diwethaf wedi cynnwys:<br>• Strwythurau perfformiad ac atebolrwydd newydd wedi'u cefnogi gan linellau adrodd clir yn gysylltiedig â thimau rheoli ar safleoedd a Chynllun Dirprwyo y cytunwyd arno.<br>• Datblygwyd cofrestr risg ar gyfer y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau ac mae'n cael ei chynnal i adlewyrchu risgiau lleol a rhai ar draws BIPBC.<br>• Rhoddwyd 'Polisi Uwch Gyfeirio' ar waith yn seiliedig ar arfer da o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.<br>• Cymerwyd rhan weithredol â gwaith modelu Gofal Cychwynnol FISH/capasiti/galw ar y gwasanaeth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.<br>• Cyflwynwyd Cynlluniau Uwch Gyfeirio Triniaeth (TEPS) gan weithio â Chartrefi Gofal dynodedig â Nyrsio a meddygfeydd penodol.<br>• Llwyddwyd i recriwtio Nyrs Ymarferwyr a meddygon teulu ynghyd â defnydd gwell o ymarferwyr parafeddygol.<br>• Cwblhawyd asesiad sylfaenol ar draws BIPBC yn barod ar gyfer 111*. Gosodwyd y meddalwedd newydd i gasglu galwadau sy'n aros (cyn cael eu hateb), ac fe'i rhoddwyd ar waith. Mae'n rhoi cyfle i ddeall profiad y claf a risg glinigol yn well.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio Adolygiad Archwilio Mewnol o safonau'r gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, i gael ei gynnal erbyn 1.7.16. |

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 30 Mehefin 2016 |
| Ein cyf: | HVT/2576/fgb |
| Tudalen: | 1 o 3 |

Annwyl Nick

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS: MATERION EHANGACH SY'N DEILLIO O ADOLYGIAD LLYWODRAETHU BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC)**

Mae'r Dirprwy Glerc Pwyllgor wedi gofyn am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol yn deillio o'r ymchwiliad uchod. Nodaf fod gohebiaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys ymatebion i argymhellion penodol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Fy marn gyffredinol yw bod yr ymatebion i'r argymhellion gan yr holl bartïon perthnasol yn rhesymol ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod camau gweithredu naill ai'n mynd rhagddynt neu wedi'u cynllunio yn y rhan fwyaf o'r meysydd lle cododd y Pwyllgor bryderon. Nodaf fod tri argymhelliad nad ydynt wedi'u derbyn a bod pedwar arall sydd wedi'u derbyn yn rhannol. Wrth archwilio'r ymatebion i'r argymhellion penodol hyn, ymddengys fod y rhesymau dros beidio â derbyn neu dderbyn yn rhannol yn rhesymol ac wedi'u hystyried yn briodol, er ei fod wrth gwrs yn fater i'r Pwyllgor os yw'n dymuno pwyso ymhellach ar Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran y materion penodol a gwmpesir yn yr argymhellion hynny.

Argymhellodd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol y dylai'r Pwyllgor newydd wneud gwaith dilynol yn rheolaidd ar y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr ymchwiliad uchod. Er fy mod o'r farn bod yr ymateb cyffredinol i'r argymhellion yn rhesymol, ceir rhai meysydd penodol lle efallai y bydd y Pwyllgor am gael y diweddaraf ynghylch cynnydd:

- i ba raddau y mae adroddiadau blynyddol cyrff y GIG, a datganiadau llywodraethu blynyddol yn datgelu manylion am bresenoldeb aelodau'r bwrdd yng nghyfarfodydd y bwrdd (a'r pwyllgor) [Argymhelliad 2];
- gwaith gydag Academi Cymru i adolygu ac adfywio'r rhaglen sefydlu i aelodau annibynnol y bwrdd [Argymhelliad 3];

- yr adolygiad o'r canllawiau Gweithio i Wella [Argymhelliad 4];
- gwelliannau o ran y gallu i chwilio ac olrhain yng nghronfa ddata CABS ar draws y llywodraeth [Argymhelliad 6];
- cynlluniau Llywodraeth newydd Cymru ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, yn benodol mewn perthynas ag annibyniaeth weledol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru [Argymhelliad 23];
- cynlluniau Llywodraeth newydd Cymru i ystyried ystod y cyfrifoldebau sydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru [Argymhelliad 24];
- y sefyllfa ar draws cyrff y GIG o ran cymeradwyo eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-17 [Argymhelliad 26].

Gwnaeth adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol hefyd argymhell y dylai'r Pwyllgor newydd fonitro'r cynnydd a wnaed gan BIPBC yn ystod y cyfnod o fesurau arbennig, gan gynnwys gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddyg Teulu, ac awgrymwyd cymryd tystiolaeth lafar bellach gan y Bwrdd Iechyd yng ngwanwyn 2017. Ar hyn o bryd, rwy'n bwriadu gwneud gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ddechrau 2017 a fydd yn ceisio adolygu'r cynnydd y mae BIPBC yn ei wneud yn erbyn yr argymhellion y gwnaed gennym yn flaenorol i gryfhau trefniadau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd. Rwy'n disgwyl y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael briffiad gennyf ar y gwaith hwn pan fydd yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017, mae'n bosibl y bydd am gael tystiolaeth bellach gan dystion. Felly gallai'r diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y meysydd a nodwyd uchod (ac agweddau eraill ar ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor) gael ei gymryd fel rhan o'r ymarfer casglu tystiolaeth. Byddwn hefyd mewn sefyllfa i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau o waith archwilio lleol rwyf yn ei wneud ledled Cymru ar wasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu. Rwyf o'r farn y byddai'n werth i'r Pwyllgor drafod unrhyw gynlluniau ar gyfer craffu pellach ar yr holl feysydd hyn gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon newydd.

Gan gyfeirio at ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 3, efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol y byddaf, fel rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yng nghyrff y GIG eleni, yn cynnal rhywfaint o asesiadau cymharol ar fframweithiau sicrwydd bwrdd a hefyd y dulliau sydd yn eu lle i fonitro cyflawni cynlluniau tymor canolig. Mae'r gwaith hwn yn rhoi dull imi nodi a rhannu unrhyw arfer da a nodwyd mewn perthynas â'r agweddau hyn ar lywodraethu. Mewn perthynas ag Argymhelliad 27 yn adroddiad y Pwyllgor, efallai y bydd aelodau wedi nodi o'r memorandwm sy'n rhoi'r diweddaraf am fy nghynllun gwaith fy mod yn bwriadu cyhoeddi fy adroddiad ar weithredu Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Hyderaf fod yr uchod yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ymateb i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 5 argymhelliad ynddo.

**Argymhelliad 1 - Wedi'i dderbyn**

*Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd arafach nag yr oedd wedi ei fwriadu i roi sylw i rai o argymhellion adolygiadau blaenorol a chamau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol. Mae llawer o'r camau hyn a oedd heb eu cymryd wedi eu hadlewyrchu ers hynny yn Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru (2014) a Chynllun Cyflawni ar Adolygiad Arfordirol Cymru (2015). Wrth ailwampio ei Strategaeth Genedlaethol yn 2017/18, dylai Llywodraeth Cymru:*

a) *Werthuso ei chynnydd yn erbyn argymhellion adolygiadau blaenorol a diweddaru'r Cynllun Cyflawni ar Adolygiad Arfordirol Cymru i roi sylw i unrhyw broblemau sy'n dal i fodoli. Dylai'r cynllun bennu targedau ac amserlenni realistig ar gyfer rhoi atebion ar waith.*

Bydd adolygiad y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn 2017/18 yn diweddaru'r cynnydd ar yr amcanion sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd ac, os yw hynny'n briodol, yn eu hadnewyddu a'u diweddaru. Bydd hwn yn gyfle amserol i adolygu'r amcanion sydd eto i'w cwblhau a'r amcanion parhaus, cymeradwyo'r rhai sydd wedi'u cwblhau ac ystyried rhai newydd.

Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol at amcanion y Strategaeth Genedlaethol ers ei chyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r rhaglen newydd gwerth £150m – y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol - a rheoli'r ymateb i bedwar achos o lifogydd mawr. Er ein bod yn cynllunio ar gyfer digwyddiadau o'r fath, mae gwaith adweithiol ychwanegol yn anochel gysylltiedig â hyn, gan gynnwys cyllid ar gyfer argyfyngau. Mae Adolygiad Arfordirol Cymru a'i Gynllun Cyflawni'n esiamplau o waith a chamau gweithredu a ddeilliodd o lifogydd eang 2013/14.

Cyhoeddir Cynllun Cyflawni'r Adolygiad Arfordirol yn nes ymlaen eleni, gan amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg Cymru wedi ymateb i'w argymhellion. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol ac awdurdodau rheoli risg eraill wedi gweithio'n galed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i roi sylw i'r argymhellion ac mae adroddiadau wedi cael eu cwblhau'n rhoi sylw i'r themâu allweddol. Bydd canlyniadau'r adroddiadau'n cael eu hystyried ar gyfer amcanion newydd yn adolygiad y Strategaeth Genedlaethol. Roedd yr Adolygiad Arfordirol yn cynnwys rhai argymhellion sydd, yn ôl eu natur, yn ofynion parhaus neu'n faterion ble mae gwelliannau parhaus yn cael eu ceisio bob amser, er enghraifft, gyda rhagolygon amrediad hir, gwella manwl gywirdeb y rhagolygon arfordirol a pharhau i wella'r arfer o fapio perygl. Gellir ystyried argymhellion parhaus o'r fath wrth adolygu'r Strategaeth Genedlaethol hefyd.

Fel gyda'r strategaeth bresennol, bydd yr amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol wedi'i hadolygu'n cyflwyno amserlen ar gyfer cwblhau a'r sefydliad sy'n gyfrifol am roi pob argymhelliad ar waith.

Mae holl argymhellion Adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru, “Peryglon Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanwol yng Nghymru 2009”, wedi’u cwblhau yn awr ac fe’u cymeradwywyd ym mis Awst 2015.

Amserlen: Mis Ebrill 2018 ar ôl i adolygiad y Strategaeth Genedlaethol gael ei gwblhau

*b) Datblygu strategaeth i nodi cyllid hirdymor ar gyfer diogelu’r arfordir, gan gynnwys cyllid o sawl adran lywodraethol a chorff allanol, ac i ddarparu manteision lluosog yn benodol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’i phartneriaid i ddysgu o’r model ariannu partneriaeth yn Lloegr i ddeall sut mae cynghorau wedi gallu denu cyllid allanol (paragraffau 2.25-2.31).*

Mae’r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn dangos dull strategol Llywodraeth Cymru o weithredu, gan weithio gydag awdurdodau lleol i ganfod ffyrdd eraill o gyllido cynlluniau arfordirol ac i weithio dros amserlenni hirach o ran rhaglennu a chyllido. Dyma un o nifer o raglenni lle mae strategaeth Llywodraeth Cymru’n gwneud defnydd o gyfraddau llog isel a phwerau benthyca sydd ar gael i gyllido buddsoddiadau cyfalaf gan ad-dalu yn y tymor hir o ffrydiau refeniw. Nod y cynllun yw darparu buddsoddiad o £150 miliwn, gwerth cyfalaf, o gynlluniau arfordirol ledled Cymru gyda’r adeiladu dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2021.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi awdurdodau lleol i adnabod a datblygu cynlluniau posib. Mae’r Rhaglen wedi datgan yr angen am i awdurdodau lleol ystyried y potensial i ddarparu manteision niferus oddi mewn i achosion busnes y prosiect. Adlewyrchir hyn hefyd yng nghyfansoddiad bwrdd y rhaglen, gyda chysylltiadau ar draws adrannau’r llywodraeth, gan gynnwys adfywio, twristiaeth a thrafnidiaeth.

Mae cyfraniadau ariannol/cyllid partneriaeth yn cael ei annog eisoes a’i groesawu yn y rhaglenni rheoli perygl llifogydd ac arfordirol a dylai pob Awdurdod Rheoli Perygl ymchwilio i hyn. Ceir hefyd gyfleoedd am gynlluniau a gyllidir ar y cyd ble mae manteision niferus i’w cael, fel y rhai a welir ym Mae Colwyn a Chwm Ivy, Gŵyr.

Gellir datgan hyn yn glir yn y Canllawiau Gwerthuso Prosiectau sydd wedi’u hadolygu. Dechreuodd y gwaith ar y rhain ym mis Mai 2017 ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd 2017. Byddwn yn parhau i ymchwilio i’r posibiliadau ar gyfer cyllid partneriaeth, gan ychwanegu at y gwaith a wnaed gan bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn 2013 ac adolygu sut mae hyn wedi gweithio yn Lloegr. Dyma rywbeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd helpu i’w roi ar waith.

Amserlen: Mae gwaith paratoawl ar y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol wedi dechrau eisoes. Bydd adolygiad o gyllid partneriaeth posib yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol erbyn diwedd 2017.

c) *Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer gweithgareddau refeniw fel cynnal a chadw, monitro arfordirol ac ymgysylltiad cymunedol (paragraffau 2.36-2.37). Dylai'r gwaith hwn gynnwys adolygiad o wariant cynghorau drwy'r Grant Refeniw Amgylcheddol Sengl a ffynonellau cyllid refeniw eraill i ystyried effaith y trefniadau newydd ar ariannu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd.*

Gweinyddir y Grant Refeniw Amgylcheddol Sengl gan dîm canolog ac yn ddiweddar mae'r grant wedi bod yn destun archwiliad mewnol, yn edrych ar y broses a'r systemau sydd yn eu lle, yn hytrach na'r effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael. Disgwylir hefyd i SAC gynnal archwiliad ar y rhaglen yn 2017-18, ond mae'r cwmpas eto i gael ei benderfynu.

Mae'r cynnwys refeniw a gyfrannodd y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol at y grant refeniw yn fach iawn o gymharu â'r gyllideb yn gyffredinol. Yn 2016/17, mae'r gyllideb Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn £54.945 miliwn, gyda dim ond £1.1miliwn (2%) o'r swm yma'n mynd i'r grant hwn. Hefyd mae elfen llifogydd y grant ESD cyffredinol yn fach iawn.

Mae'r Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn adolygu'r adran llifogydd ym mhob cais am y grant refeniw a gyflwynir gan yr Awdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau bod y grant hwn yn cael ei ddefnyddio at bwrpas refeniw rheoli perygl llifogydd. Yng ngheisiadau 2016/17, yn ogystal â chyllid ar gyfer dyletswyddau fel rhoi gwybod am lifogydd, mân waith cynnal a chadw a chodi ymwybyddiaeth/ymgysylltu cymunedol, gwnaeth Awdurdodau Lleol gais am y grant hwn hefyd ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd mwy arloesol ac i ddarparu manteision ehangach y tu hwnt i ddim ond rheoli perygl llifogydd ac erydu.

Gall Awdurdodau Lleol hawlio'r grant hwn ddwywaith y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'u hawliad am grant, rhaid iddynt gyflwyno adroddiad monitro i ddangos cynnydd yn erbyn yr allbynnau disgwyliedig, fel y rhestrir yn y ceisiadau.

Yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, rydym wedi treialu cynllun grant i Awdurdodau Lleol wneud cais iddo ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw a draenio ar raddfa fechan, gwerth hyd at £100,000 y cynllun, drwy gyfrwng proses ymgeisio symlach. Mae hyn wedi cael ei groesawu gan Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai'n briodol cynnal adolygiad byr yn awr i asesu effeithiolrwydd cyllid o'r fath ac a ddylai barhau. Mae hyn yn cael ei drafod eisoes gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Amserlen: Erbyn mis Ebrill 2017 (i adolygu grant cynnal a chadw ar raddfa fechan)

d) *Integreiddio gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn well ar lefel strategol gyda deddfwriaeth newydd sy'n cynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (paragraffau 2.9-2.11).*

Bydd yr adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol yn gyfle i integreiddio'r ddeddfwriaeth newydd yn y gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'r mesurau canlynol yn dechrau'r integreiddio hwn cyn yr adolygiad.

Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn integreiddio ac yn annog manteision ehangach wrth ddatblygu ac adeiladu cynlluniau arfordirol yn y rhaglen, yn enwedig mewn perthynas ag adfywio a thwristiaeth. Mae'r adrannau hyn yn chwarae rhan bwysig yn y rhaglen drwy fwrdd y rhaglen sy'n cynnwys cynrychiolwyr mewnol ac allanol ac adrannau allweddol o'r llywodraeth.

Rydym eisoes yn integreiddio deddfwriaeth newydd yn ein gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae ffurflenni cais y grant refeniw ESD a'r grant cynnal a chadw ar raddfa fechan yn gofyn i awdurdodau lleol nodi sut bydd y gwaith arfaethedig yn cynnig manteision ehangach ac yn bodloni nodau llesiant.

Rydym hefyd yn diweddaru ein Canllawiau Gwerthuso Prosiectau a fydd yn cynnwys yr angen am ddatgan manteision ehangach, nodau llesiant a'n dulliau o weithio fel sydd wedi'u datgan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae disgwyl i ddrafft byw gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2016, i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddefnyddio wedyn wrth wneud cais am grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gweithdai yn dilyn hyn i drafod y newidiadau gyda'r awdurdodau rheoli risg ac i ddarparu hyfforddiant yn ôl yr angen.

Byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd sydd wedi'u rhoi o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sefydlu'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd. Mae disgwyl i'r pwyllgor hwn gael ei sefydlu ar ddechrau 2017 a chael cylch gorchwyl ehangach na'r pwyllgor mae'n cymryd ei le, gan roi cyngor i Weinidogion Cymru ac awdurdodau rheoli risg ar berygl llifogydd ac arfordirol o bob ffynhonnell. Wrth sefydlu'r pwyllgor hwn, byddwn hefyd yn diddymu Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru sydd, ar hyn o bryd, yn dyblygu llawer o ddyletswyddau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy hynny byddwn yn gwneud y prosesau llywodraethu'n fwy effeithlon.

Rydym yn gweithio gyda swyddogion cynllunio Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd mae cyngor perygl llifogydd a'r gwaith mapio cysylltiedig yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau cynllunio.

Amserlen: Mis Mawrth 2017 – bydd y Canllawiau Gwerthuso Prosiectau wedi'u cwblhau ac yn cael eu defnyddio, bydd Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi cael ei sefydlu

**Argymhelliad 2 - Wedi'i dderbyn**

*Disgrifiodd Llywodraeth Cymru swyddogaethau a chyfrifoldebau yn ei Strategaeth Genedlaethol ond fe'n hysbyswyd gan randdeiliaid nad oeddent yn eglur o hyd o ran rhai agweddau. Mae Cynllun Cyflawni ar Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru yn cynnwys prosiect a arweinir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro swyddogaeth oruchwylio Cyfoeth Naturiol Cymru a sut y mae'n wahanol i swyddogaeth Llywodraeth Cymru o reoli perfformiad (paragraff 2.17).*

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad, fel rhan o un o'r argymhellion yng Nghynllun Cyflawni Adolygiad Arfordirol Cymru, gan edrych ar rôl a chyfrifoldebau awdurdodau rheoli risg.

Bydd yr adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol yn gyfle i esbonio ymhellach rôl a chyfrifoldebau'r awdurdodau rheoli risg, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn.

Amserlen: Mis Mawrth 2018

**Argymhelliad 3 - Wedi'i dderbyn**
*Ceir tystiolaeth nad yw rhai cymunedau'n ymwybodol o hyd o oblygiadau hirdymor dull seiliedig ar risg Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltiad cymunedol wedi cael ei lesteirio gan ddiffyg opsiynau yn y strategaeth genedlaethol i helpu cynghorau i baratoi cymunedau ar gyfer cilio a reolir. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu opsiynau o fewn y strategaeth genedlaethol i helpu cynghorau i baratoi cymunedau lle y mae'n debygol y bydd angen cilio a reolir. Dylai'r opsiynau hyn ystyried y trefniadau cyfreithiol ac ariannol sy'n ofynnol i adleoli pobl ac asedau i ffwrdd oddi wrth berygl o lifogydd (paragraffau 2.7-2.8). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi sut y bydd yn cyfathrebu goblygiadau ei ddull seiliedig ar risg i'r cyhoedd (paragraffau 1.21 i 1.22).*

Un o'r pedwar amcan o dan y Strategaeth Genedlaethol yw codi ymwybyddiaeth a chael pobl i ymwneud ag ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol. Adlewyrchir pedwar amcan y Strategaeth Genedlaethol yn y Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol unigol sy'n cael eu paratoi gan bob un o'r Awdurdodau Lleol ac felly mae'r Awdurdodau Lleol yn ymwneud eisoes â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Gwelwyd hyn hefyd yng ngheisiadau'r Awdurdodau Lleol am grant refeniw ESD, gyda llawer ohonynt yn defnyddio'r grant hwn i gynnal gweithgareddau o'r fath. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu gyda chymunedau sy'n wynebu perygl o lifogydd, drwy gyfrwng ei raglen Ymwybyddiaeth o Lifogydd Cymru ac awdurdodau lleol.

Bydd yr adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol y flwyddyn nesaf yn sicrhau bod y dull seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd yn cael ei wneud yn gliriach.

Awdurdodau Lleol arfordirol sydd yn y sefyllfa orau i gyfathrebu am broblemau llifogydd lleol gyda'u cymunedau arfordirol, gan eu bod yn deall materion lleol. Dylent reoli perygl llifogydd yn eu hawdurdod fel y nodir yn eu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Ni ddylai Llywodraeth Cymru orchymyn sut mae gwneud hyn mewn polisi na strategaeth. Yn hytrach, byddwn yn darparu pecyn adnoddau addasu arfordirol sy'n cynnwys arferion gorau ac esiamplau da o sut mae ardaloedd eraill wedi cyfathrebu negeseuon anodd, yn enwedig ynghylch cilio a reolir.

Mae ymchwil parhaus yn cael ei gynnal yng nghymuned Fairbourne, Gwynedd i edrych ar y canlynol:

- cynnwys y gymuned i'w gwneud yn ymwybodol o'r perygl mae'n ei wynebu nawr ac yn y dyfodol,
- archwilio astudiaeth ddichonoldeb cynllun prynu i osod,
- meithrin hunangynhaliaeth a chadernid cymunedol,
- datgan effeithiau Cynlluniau Rheoli Traethlin ar economi a phobl Fairbourne.

Bydd yr ymchwil hwn yn darparu esiamplau o sut mae un gymuned yn paratoi ar gyfer newidiadau. Dim ond ar ôl cwblhau'r ymchwil hwn y bydd yn briodol creu pecyn adnoddau addasu arfordirol.

Bydd rhaid i ni gwblhau ac ystyried yr ymchwil cysylltiedig sydd i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2017 cyn cwblhau'r argymhelliad hwn. Bydd pecyn adnoddau ar gael ochr yn ochr â'r Strategaeth Genedlaethol ac yn cyd-fynd â hi, yn hytrach na chael ei gynnwys yn rhan ohoni.

Amserlen: Mis Awst 2018

**Argymhelliad 4 - Wedi'i dderbyn**
*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar ei weithgareddau a'i gynnydd ei hun yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol o dan adran 18 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 heb fanteision adolygiad annibynnol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau adrodd adran 18 ac ystyried adolygiad annibynnol o berfformiad, neu adolygiad cymheiriaid o adroddiadau adran 18 Cyfoeth Naturiol Cymru (paragraff 2.17).*

Mae'r gofyniad presennol i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd ar y Strategaeth Genedlaethol wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddf hon gael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth a byddai angen cyfrwng deddfwriaethol priodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod adolygiad o briodolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd ar y Strategaeth Genedlaethol o werth a bydd yn ystyried hon fel tasg i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd ar ôl iddo gael ei sefydlu. Byddai hyn yn darparu adolygiad annibynnol gan sefydliad heb gyfrifoldeb am gyflawni yn erbyn yr amcanion yn y strategaeth.

Byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ystyried opsiynau ar gyfer adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac yn ystyried sut gall y pwyllgor roi adolygiad annibynnol neu oruchwylio'r adroddiad adran 18 cyn ei gyhoeddi.

Amserlen: Diwedd 2017

**Argymhelliad 5 - Wedi'i dderbyn**
*Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar y Cyd gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU (Defra) ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Er y gallai rhanddeiliaid wneud mwy i gymryd rhan yn y Rhaglen hon, gallai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru rannu arfer da a nodwyd gan y Rhaglen yn fwy effeithiol, yn enwedig gyda chynghorau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i rannu a hyrwyddo'r arfer da a nodwyd yn y Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol gyda chynghorau (paragraff 2.6).*

Mae llawer o ymchwil defnyddiol yn cael ei wneud fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y Cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Rydym yn cytuno bod angen dosbarthu'r ymchwil hwn yn well i randdeiliaid. Mae tudalennau ymchwil yn cael eu cadw ar hyn o bryd ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd a than yn ddiweddar nid oeddent yn cyfeirio llawer at ymwneud Llywodraeth Cymru na Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae'r wefan yn cyfeirio at y ddau sefydliad erbyn hyn.

Ar hyn o bryd mae gan wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ddolen i dudalen Ymchwil a Datblygu Asiantaeth yr Amgylchedd ar y we. Fodd bynnag, mae wedi cytuno i ddatblygu 'tudalen lanio' sy'n disgrifio ymwneud Cymru â'r rhaglen hon, gan gynnwys rhai o uchafbwyntiau'r prosiect.

Gyda'i rôl gyffredinol mewn rheoli perygl llifogydd, Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn y sefyllfa orau i rannu'r ymchwil hwn gyda rhanddeiliaid perthnasol, yn enwedig Awdurdodau Lleol, ac rydym wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn iddo rannu cylchlythyrau'n fwy effeithiol.

Yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn trafod y dull gorau o ddosbarthu'r ymchwil sydd wedi dod gan y grŵp hwn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried opsiynau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran sut orau i rannu'r ymchwil hwn ac arfer gorau. Rydym hefyd yn ystyried cyfle posib i gynhyrchu cylchlythyr rheolaidd i randdeiliaid gan y tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a allai gynnwys y wybodaeth hon hefyd.

Amserlen: Diwedd 2016

Eitem 6

**Sir Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16eg Awst 2016

Annwyl Nick,

**Menter Twyll Genedlaethol 2014-15: Sicrhau Defnydd Priodol o Arian Cyhoeddus yng Nghymru**

Caf ar ddeall fod y Pwyllgor wedi gofyn am sylwadau Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r gwaith hwn yn frwd. Rydym yn cymryd rhan ym mhob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac rydym yn annog holl Gyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru i wneud yr un peth. Mae data NFI yn cael ei rannu'n ddiogel ac mae unrhyw achosion posibl i ymchwilio iddynt yn cael eu rheoli trwy Dîm Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu'r bwriad i ehangu'r Fenter Twyll Genedlaethol ymhellach drwy ehangu cyfranogiad ac ychwanegu cyplysiadau data newydd, fel ffordd o ddiogelu arian cyhoeddus yn well. Fel y mae'r adroddiad yn nodi, rydym yn trafod gyda Swyddfa Archwilio Cymru'r posibilrwydd o ymgymryd ag ymarferion peilot i gyplysu data sy'n benodol i Gymru. Mae'r ymarferion hyn wedi'i dylunio i atal a chanfod twyll fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol NFI 2016-17 a byddwn yn gweithio gyda'r Fenter i nodi sut y gall NFI helpu i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau twyll cynhenid sy'n gysylltiedig â datblygiadau polisi newydd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • Website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Er na chafodd unrhyw achosion mewnol o dwyll yn Llywodraeth Cymru eu nodi fel rhan o'r ymarfer, rydym wrth gwrs, yn ymwybodol iawn o'r angen i gael rheolaethau cadarn ar waith i atal twyll a hynny drwy amrywiaeth o fesurau atal a chanfod, gan gynnwys y canlynol:

- trefn o wiriadau diwydrwydd dyladwy ar dderbynwyr cyllid Llywodraeth Cymru fel rhan o'n phrosesau o reoli grantiau a buddsoddi mewn busnes a defnyddio gwybodaeth reoli i fonitro sut y defnyddir cronfeydd Llywodraeth Cymru;

- dulliau rheoli mewnol yn rhan annatod o'n systemau cyllid, yn enwedig ein systemau taliadau, a rheolaethau diogelwch gwybodaeth i atal y systemau hynny rhag bod yn destun ymosodiadau mewnol ac allanol;

- defnyddio dulliau'r NFI o ddadansoddi data a'n dulliau mewnol ninnau o ddadansoddi data i gynnal gwiriadau cydymffurfio a gwiriadau gwrth-dwyll ar ddata trafodion, i nodi materion posibl megis camddefnyddio Cardiau Caffael Cymru neu gamddefnyddio cardiau teithio rhatach ar fysiau a ariennir gan y Llywodraeth;

- gwasanaeth gwrth-dwyll arbenigol sy'n cael ei staffio gan gyn dditectif yn yr heddlu gyda chefnogaeth ein Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae ein Pennaeth Gwrth-dwyll ar bwyllgor trefnu Fforwm Twyll Cymru. Mae wedi meithrin cysylltiadau cryf â CIFAS ac mae ganddo rwydwaith eang o gysylltiadau yng ngwasanaeth yr heddlu ac ag ymchwilwyr eraill yn y sector cyhoeddus ledled Cymru;

- cydweithio'n agos â'r Heddlu, Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff ariannu eraill yng Nghymru i sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi ac yr ymchwilir iddynt yn briodol;

- cyngor, cymorth a hyfforddiant ar gyfer staff mewn rolau allweddol lle mae angen ymwybyddiaeth o dwyll. Yn ddiweddar cynhaliwyd cwrs undydd ar gyfer rhai aelodau o staff ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel arf mewn ymchwiliadau i dwyll. Ein blaenoriaeth nesaf yw trefnu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n rhoi tystiolaeth mewn erlyniadau twyll, i'w paratoi ar gyfer y profiad o gael eu croesholi yn y llys;

- gweithredu meddalwedd wrth-dwyll y Comisiwn Ewropeaidd o'r enw "Arachne" i helpu i ganfod twyll posibl mewn rhaglenni a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cael eu rheoli drwy Lywodraeth Cymru;

- cyswllt rhwng perchnogion prosesau ac Archwilio Mewnol pan fydd systemau a gweithdrefnau newydd yn cael ei lunio, i sicrhau bod risgiau o dwyll yn cael eu nodi a bod rheolaethau addas yn cael eu dylunio i'w lliniaru;

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

- polisi a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer parodrwydd i ymateb i dwyll, gan gynnwys paratoi asesiadau o'r risg o dwyll ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae gennym linell gymorth hefyd ym maes twyll i staff a'r cyhoedd godi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch defnydd Llywodraeth Cymru o gronfeydd;

- yn 2015 trefnodd Llywodraeth Cymru i 14 o staff fynychu cwrs Technegwyr Gwrth-dwyll sydd wedi'i achredu gan CIPFA - gyda'r staff hyn yn dod o bob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys Archwilio Mewnol, meysydd polisi perthnasol a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; ac

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithredu "Gwiriwr Ceisiadau" y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio ato yn ei adroddiad ac sy'n arf a ddefnyddir gan yr NFI i wirio manylion personol/hunaniaeth unigolion cyn i gais gael ei wneud. Gellir defnyddio hyn mewn nifer o feysydd i gadarnhau uniondeb unigolion, er enghraifft y rhai sy'n gwneud cais am grantiau, neu am drwyddedau a hefyd ddarpar staff newydd yn Llywodraeth Cymru.

Ond rydym yn cydnabod, wrth gwrs, na all unrhyw ran o'r sector cyhoeddus fod yn imiwn rhag y posibilrwydd o fod yn destun twyll ni waeth pa brosesau a mesurau diogelwch sy'n bodoli ac nid oes lle i laesu dwylo. Efallai y bydd y Pwyllgor wedi gweld achos diweddar yn y wasg, er enghraifft, lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn destun twyll cerdyn credyd gan drydydd parti anhysbys. Tynnodd ein darparwr cerdyn credyd sylw at y trafodiad twyllodrus yn gyflym a chafodd y swm o dan sylw (£103.91) ei gredydu'n ôl i'n cyfrif, felly nid oedd unrhyw golled i'r pwrs cyhoeddus, a daeth y system arferol o brosesau a gwiriadau, gan ddechrau â'r rhai a weithredir gan ein darparwr, i rym yn effeithiol. Ond roedd yn llesol inni gael ein hatgoffa y gall Llywodraeth Cymru fod yn darged ar gyfer twyllwyr, ynghyd â'r holl gyrff y mae'n eu hariannu.

Rwyf yn gobeithio bod yr wybodaeth gefndir hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gywir,

Derek

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

31 Awst 2016

Annwyl Gadeirydd

**PCC – Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd**

Yn dilyn eich cais ar 19 Gorffennaf 2016 am sylwadau Llywodraeth Cymru ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am y cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i Kancoat Ltd, gweler ein hymateb isod.

**Ymateb y Rheolwyr**

Mae'r rheolwyr wedi derbyn canfyddiadau'r adroddiad a chyn cyflwyno'r adroddiad iddynt, roeddynt eisoes wedi comisiynu ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' mewnol. Mae'n canolbwyntio bellach ar ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd. Crynhoir y camau sydd i'w cymryd isod.

**Gwersi a ddysgwyd – Detholiad o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru**

*O ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, ac fel rhan o'r broses o wella'r adran yn barhaus, esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod nifer o newidiadau allweddol i'r gweithdrefnau wedi eu cyflawni:*

1. ***Mae ystyried benthyciadau masnachol bellach yn rhan o'r broses Gymeradwyo Ariannol, a rhaid cael argymhellion Panel Buddsoddi cyn gofyn am eu cymeradwyo gan y Gweinidog.***

   Cytunodd CLT ar y broses hon ym mis Mehefin 2014 ac mae'r adran gyfan wedi'i hymgorffori fel rhan annatod o'r broses Gymeradwyo Ariannol. Mae Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol a'r Panel Buddsoddi yn ystyried ceisiadau sy'n ymwneud â buddsoddiadau uniongyrchol i fusnesau penodol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

2. ***Rhaid i'r Uwch Dîm Rheoli gadarnhau unrhyw argymhelliad a wneir gan y Panel Buddsoddi ar gyfer benthyciadau masnachol o fwy na £1 miliwn***

   Cytunodd y CLT ar y broses hon ym mis Mehefin 2014 ac mae'r adran gyfan wedi'i hymgorffori fel rhan annatod o'r broses Gymeradwyo Ariannol.

3. ***Yn rhan o'r broses Gymeradwyo Ariannol, rhaid cynnal arfarniad arunigol o bob prosiect sy'n cynnwys benthyciadau masnachol***

   Derbynnir y canfyddiad hwn ac mae'r adran gyfan wrthi'n ei ymgorffori.

4. ***Mae'r gwaith o fonitro benthyciadau wedi ei symud i'r Tîm Monitro Canolog, a phrotocol adrannol wedi ei gytuno a'i sefydlu er mwyn eglurder ynghylch meysydd cyfrifolde.***

   Mae'r protocol yn ei le ac yn cael ei rannu â Cyllid Cymru sydd hefyd yn monitro rhai o'n benthyciadau. Rydyn ni wedi cytuno i gwrdd â Cyllid Cymru bob chwarter (ym mis Hydref 2016 fydd y nesaf).

5. ***Asesir ymgeiswyr yn fwy trwyadl o ran eu gallu i ad-dalu, trwy gyflawni Diwydrwydd Dyladwy Ariannol priodol***

   Mae'n amlwg y defnyddir y swyddogaethau cyllid a diwydrwydd dyladwy i asesu'r gallu i ad-dalu pob benthyciad.

   Lle ceir cynllun busnes sy'n dangos bod y gallu i ad-dalu benthyciad yn seiliedig ar ragolygon ariannol, caiff y rhagdybiaethau sy'n sail i'r cynllun busnes eu hasesu'n fanwl.

6. ***Mabwysiadwyd dull safonedig o asesu risg er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwahanol gynlluniau ariannu.***

   Mae'r dull hwn wedi'i ymgorffori yn ein proses arfarnu ar draws pob sector a busnes. Rydyn ni newydd gyhoeddi rhagor o gyngor i Dimau Sector a Busnes ar asesu risg a sut y gwneir hynny dros oes y prosiect.

7. ***Pan fo ymyriadau lluosog o dan ystyriaeth (h.y. cymorth ariannol yn ogystal ag atebion eiddo), ystyrir hwy bellach gan gorff unigol (sef Panel Buddsoddi) gyda chyngor priodol gan y Tîm Arwain Eiddo.***

   Mae hyn bellach yn rhan o'r broses gymeradwy ariannol. Ystyrir prosiectau gan y tîm arwain eiddo a'r panel buddsoddi, gyda'r tîm arwain eiddo'n rhoi cyngor technegol.

8. ***Mabwysiadwyd dogfen arfarnu safonedig sy'n sicrhau ymagwedd gyson at arfarnu prosiectau, ar draws y gwahanol gynlluniau ariannu***

   Mae'r adran gyfan wedi ymgorffori hyn ers rhyw 18 mis gan sicrhau bod pob cynllun ariannu'n cael ei arfarnu mewn ffordd gyson.

9. ***Mae'r ymgais i gynyddu a gwella'r defnydd o'r System Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) yn darparu gwell gwybodaeth reoli***

Rydyn ni newydd symud i BAS gan gynyddu nifer y defnyddwyr. Rydyn ni'n parhau i sicrhau bod yr holl dimau'n defnyddio'r system a bod y swyddogaeth adrodd yn gweithio i sicrhau bod yr Wybodaeth Reoli yn gadarn.

10. ***Mae'r gwaith o anfon llythyrau cynnig wedi ei ganoli o fewn un tîm, ac o ganlyniad mae'r cwsmeriaid yn cael gwell gwasanaeth ac amodau'r dyfarniadau yn fwy cyson a chadarn***

Hefyd, rydyn ni newydd symud y cyfrifoldeb am anfon llythyrau newid i'r tîm canolog hwn, hynny er mwyn cyflymu'r gwaith ac i sicrhau bod yr asesiad o'r risg yn cael ei adolygu'n fwy trwyadl cyn gwneud cynnig diwygiedig.

**Trosolwg**

Mae'r adran Sectorau a Busnes yn mabwysiadu 'diwylliant o welliant parhaus'. Mae'r rheolwyr yn awyddus i gopïo arferion gorau'r sectorau cyhoeddus a phreifat a dysgu gwersi llwyddiannau a methiannau i wella perfformiad yn y dyfodol.

Mae'r gwersi uchod a ddysgwyd wedi'u rhannu'n helaeth ar draws y Tîm Uwch Reoli a'r Tîm Arweiniad Corfforaethol a chânt eu hymgorffori ymhellach yng nghyfarfodydd y Tîm Uwch Reoli.

Er mwyn rhoi cyd-destun, dengys adolygiad o'r cynigion a wnaed gan yr adran i fusnesau rhwng 1 Mai 2011 a 1 Medi 2015 fod 1.3% o'r cwmnïau o ran nifer ac 1.4% o ran gwerth y grant wedi methu. Yn 2013, cyfradd marwolaeth y mentrau yng Nghymru oedd 9.1% (9.7% yn y DU).

Yn gywir

**Mick McGuire**
Cyfarwyddwr, Sectorau a Busnes

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, Adolygiad o Gynnydd

## Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r Memorandwm hwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn unol ag amryw o ddarpariaethau statudol.

Y staff Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r memorandwm hwn oedd Gabrielle Smith a Carol Moseley o dan arweiniad David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 6

Yr archwiliad 6

Canfyddiadau allweddol 7

1 Y llwybr gofal maeth 8

Caiff cleifion eu sgrinio am risgiau maethol ond mae cynnydd araf o ran safoni dogfennaeth nyrsio yn golygu bod angen gwella ansawdd sgrinio a dogfennaeth faethol o hyd 9

Nid oes cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant e-ddysgu ar y llwybr gofal maeth wedi cael ei chyflawni eto 13

Yn gyffredinol, mae pob un o gyrff y GIG yn ymgymryd â rhyw fath o waith rheolaidd i fonitro'r llwybr gofal maeth, ond mae natur a graddau'r gwaith monitro yn amrywio ledled Cymru 15

2 Y profiad amser bwyd 16

Caiff bwydlenni cleifion eu hasesu o ran eu maeth drwy Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan ac mae cyrff y GIG yn cydymffurfio â'r ryseitiau i raddau helaeth 18

Mae trefniadau i sicrhau bod bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd yn ddigonol i raddau helaeth ac mae cleifion, yn gyffredinol, yn teimlo'n gadarnhaol am wasanaethau bwyd 19

Mae lle o hyd i wella'r help sydd ar gael i gleifion i baratoi ar gyfer amser bwyd ac i fwyta 21

Mae amser bwyd wedi'i ddiogelu i'w weld yn fwy eang ond gellir gwneud mwy i sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri ar draws amser bwyd 22

Nid oes gwybodaeth ysgrifenedig am yr hyn sydd i'w ddisgwyl ar gael bob amser i gleifion yn yr ysbyty, ac os oes gwybodaeth o'r fath ar gael, nid yw'n cael ei rhannu'n eang 23

Mae trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau amser bwyd a boddhad cleifion ar waith gan fwyaf 24

Mae ysbytai'n sgorio'n uchel yn erbyn y sgoriau hylendid bwyd 25

3 Costau arlwyo a gwastraff bwyd 26

Mae sefydliadau'r GIG yn defnyddio systemau rheoli costau yn well ond dim ond ychydig ohonynt sy'n defnyddio systemau arlwyo TG 27

Er bod gwastraff prydau bwyd cleifion heb eu gweini o fewn y targed, mae gwerth y gwastraff hwn yn dal yn rhy uchel 30

Mae gostyngiadau sylweddol wedi cael eu cyflawni o ran lefel y cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion 31

4 Cynllunio a chyflwyno adroddiadau 34

Mae gweithgorau cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio materion yn ymwneud â maeth ac arlwyo 35

Mae trefniadau goruchwylio a chraffu gweithredol yn gadarn ar y cyfan ond mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd llawn yn dal yn gyfyngedig 37

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd yn erbyn fy argymhellion 40

Atodiad 2 – Cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol 45

# Cyflwyniad

1 Mae'r memorandwm hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor) am y cynnydd a wnaed gan GIG Cymru mewn ymateb i argymhellion a nodwyd yn fy adroddiad i ac adroddiad y Pwyllgor[1, 2] ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai.

2 Yn 2011, nodais fod trefniadau ar gyfer yr arlwyo a'r gofal maeth a ddarperir i gleifion wedi gwella ar y cyfan ers i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru archwilio'r pwnc ddiwethaf yn 2002. Roedd boddhad cleifion yn dal i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal, ac i sicrhau bod cyn lleied o wastraff bwyd â phosibl.

3 Roedd y Pwyllgor yn siomedig â'r amrywiad eang o ran costau gwasanaethau arlwyo a'r ffordd y cânt eu cynllunio a'u darparu ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd maeth da mewn perthynas â gwellhad cleifion.

4 Mae'r memorandwm yn crynhoi canfyddiadau archwiliad dilynol a gynhaliwyd o fewn cyrff y GIG ledled Cymru yn ystod 2015. Mae hefyd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol o ffynonellau eraill, fel arolygon cleifion cenedlaethol, archwiliadau nyrsio ac adroddiadau adolygiadau allanol eraill.

## Yr archwiliad

5 Yn ystod 2015, cynhaliodd archwilwyr adolygiad dilynol ym mhob bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre er mwyn asesu i ba raddau yr oedd yr argymhellion wedi cael eu gweithredu er mwyn sicrhau gwelliannau o ran diwallu anghenion maethol cleifion a'u profiad amser bwyd, rheoli costau arlwyo a chynllunio a monitro. Cynhaliodd archwilwyr nifer o weithgareddau yn ysbytai'r GIG sy'n darparu gwasanaethau arlwyo, gan gynnwys arsylwi ar wasanaethau amser cinio a bwrw golwg dros nodiadau achos. Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, aeth archwilwyr ati i gynnal cyfweliadau â phersonél allweddol o bob rhan o GIG Cymru, adolygu dogfennau allweddol a dadansoddi data ar gyfleusterau arlwyo yn deillio o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS).

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Mawrth 2011
2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012

## Canfyddiadau allweddol

6 Mae cyrff y GIG wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r argymhellion a wnaed gennyf i a'r Pwyllgor ar waith, fel y crynhoir yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn y drefn honno. Cafodd dwy ran o dair o'r argymhellion eu gweithredu'n llawn, gyda gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny sydd heb eu cwblhau eto.

7 Bydd cyrff y GIG fel arfer yn sgrinio cleifion am risgiau ychwanegol pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd y sgrinio a'r ddogfennaeth faethol o hyd. Mae'r broses o ddatblygu dogfennaeth nyrsio safonol er mwyn hybu sgrinio maethol cyson a gwella ansawdd y wybodaeth wedi bod yn rhy araf. Yn y cyfamser, nid yw cydymffurfiaeth lawn â'r hyfforddiant e-ddysgu wedi cael ei chyflawni eto. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn ymgymryd â rhyw fath o waith i fonitro'r llwybr gofal maeth a'r gwasanaeth amser bwyd ond mae natur a graddau'r gwaith monitro yn amrywio ledled Cymru.

8 Ar rai wardiau, mae lle i wella'r cymorth sydd ar gael i gleifion o hyd: i baratoi ar gyfer amser bwyd; i fwyta; ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri ar draws amser bwyd. Mae gwasanaethau arlwyo yn cyflawni i raddau helaeth yn erbyn Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan, a gyflwynwyd yn 2013, gyda chleifion yn fodlon ar y gwasanaethau bwyd ar y cyfan. Nid oes gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn eang i gleifion a, lle mae'r wybodaeth honno ar gael, nid yw bob amser yn cael ei rhannu.

9 Ceir dibyniaeth barhaus ar systemau papur ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo, gydag ychydig iawn o gyrff y GIG yn defnyddio systemau electronig. Caiff costau arlwyo eu rheoli'n well, gyda gostyngiadau o ran gwastraff bwyd a chymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Er bod y gwastraff bwyd o fewn y targed, mae cost gwastraff yn dal i fod yn uchel.

10 Mae gan gyrff y GIG drefniadau sefydledig ar gyfer sicrhau bod polisïau a safonau cenedlaethol mewn perthynas â maeth ac arlwyo yn cael eu gweithredu. Gellir goruchwylio ar lefel leol a chenedlaethol drwy grwpiau a ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth ei hadrodd yn rheolaidd i Fyrddau ac nid yw'r rhan fwyaf o Fyrddau yn gallu gweld perfformiad ac ansawdd gwasanaethau maeth ac arlwyo.

11 Caiff canfyddiadau manwl eu cyflwyno fesul thema yn y pedair rhan ganlynol:

- a Rhan 1: Y llwybr gofal maeth
- b Rhan 2: Y profiad amser bwyd
- c Rhan 3: Costau arlwyo a gwastraff bwyd
- ch Rhan 4: Cynllunio a chyflwyno adroddiadau

# Rhan 1

# Y llwybr gofal maeth

1.1 Yn 2011, nodais fod llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella eu trefniadau er mwyn sicrhau bod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth yn cael ei ddal mewn amryw o whanol lefydd ac nid oedd yn galluogi cynnal trosolwg cyflym o broblemau maethol cleifion nac adolygu statws maethol yn hawdd. Bryd hynny, gall prinder dogfennaeth nyrsio safonol i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol fod wedi cyfrannu at ansawdd amrywiol cofnodion nyrsio. Nid oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd. Yn y cyfamser, ni chafodd gwybodaeth sgrinio maethol ei choladu er mwyn deall graddau'r broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau.

1.2 Yn 2015, nodais fod y trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae dogfennaeth nyrsio yn dal i fod heb ei safoni ac mae angen gwella ansawdd sgrinio a dogfennaeth faethol o hyd. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod o dan y themâu canlynol:

- asesu a sgrinio maethol;
- hyfforddiant ar y llwybr gofal maeth; a
- threfniadau monitro.

## Caiff cleifion eu sgrinio am risgiau maethol ond mae cynnydd araf o ran safoni dogfennaeth nyrsio yn golygu bod angen gwella ansawdd sgrinio a dogfennaeth faethol o hyd


1.3 Mae angen asesu a monitro statws maethol cleifion yn briodol. Mae llwybr gofal maeth Cymru Gyfan, a gyflwynwyd yn ystod haf 2009, yn nodi'r dilyniant o gamau gweithredu sydd eu hangen wrth sgrinio cleifion am broblemau maethol (Arddangosyn 1).

1.4 Canfu fy archwiliad diweddaraf fod staff nyrsio yn sgrinio cleifion am risgiau maethol yn rheolaidd pan gânt eu derbyn i'r ysbyty ond bod gwybodaeth a ddogfennir o'r broses asesu yn aml yn cael ei chofnodi ar draws nifer o wahanol gofnodion, neu ei bod ar goll yn gyfan gwbl.

1.5 Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn ei gwneud yn glir bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maeth. Dylai asesiad o angen deietegol, megis anawsterau corfforol wrth fwyta ac yfed, dewisiadau deietegol neu alergeddau bwyd fod yn rhan o'r cynllun gofal maeth. Nododd ychydig yn fwy na thraean (37 y cant) o gleifion a ymatebodd i arolwg fframwaith bwydlenni Cymru gyfan, a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2015, fod rhywun wedi gofyn iddynt am eu dewisiadau neu eu gofynion deietegol.[3]

3 Llywodraeth Cymru, **Data Arolwg Cleifion**, 2015 (heb ei gyhoeddi)

Arddangosyn 1 – Llwybr gofal maeth Cymru gyfan




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.6 Mae Arddangosyn 2 yn dangos rhai o’r mesurau a’r wybodaeth allweddol y chwiliodd archwilwyr amdanynt wrth asesu ansawdd y broses sgrinio maethol. Er bod pwysau, taldra ac anghenion iechyd y geg wedi cael eu cofnodi ar gyfer mwy o gleifion yn 2015 o gymharu â 2011, ymddengys fod y bwlch o ran gwybodaeth allweddol arall, fel awydd am fwyd, wedi gwaethygu.

## Arddangosyn 2 – Canran yr eitemau asesu a gofnodwyd fel rhan o’r broses sgrinio maethol yn 2011 a 2015

| | Canran yr eitemau asesu | |
|---|---|---|
| Eitemau asesu | 2011 | 2015 |
| Pwysau ar adeg eu derbyn i'r ysbyty | 75 | 91 |
| Taldra ar adeg eu derbyn i'r ysbyty | 37 | 94 |
| Mynegai màs y corff a gyfrifwyd | 41 | 92 |
| Colli pwysau anfwriadol | 83 | 78 |
| Iechyd y geg | 47 | 74 |
| Lefelau deietegol arferol neu normal | 64 | 51 |
| Anghenion deietegol penodol | 75 | 66 |
| Awydd presennol am fwyd | 91 | 77 |
| Y gallu i fwyta heb gymorth | 88 | 87 |
| Y gallu i lyncu heb anhawster | 75 | 78 |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o nodiadau achos

1.7 Mae’n bwysig monitro a chofnodi lefelau bwyd a diod cleifion â phroblemau maethol. Cafodd siart bwyd Cymru Gyfan a siart cydbwysedd hylif ddiwygiedig eu cyflwyno yn 2009 er mwyn helpu i weithredu’r llwybr gofal maeth. Mae’r siartiau hyn yn galluogi staff nyrsio i gofnodi’r bwyd a’r diod a gaiff cleifion drwy’r dydd mewn ffordd systematig a chyson. Yn 2015, canfu’r archwilwyr nad oedd lefelau bwyd a diod ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod ‘mewn perygl’ bob amser yn cael eu cofnodi ar rai wardiau.

1.8 Yn 2011, argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi dogfennaeth nyrsio safonol i Gymru gyfan er mwyn hyrwyddo prosesau sgrinio maethol a chynllunio gofal cyson. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud i safoni dogfennaeth nyrsio er gwaethaf y materion parhaus a nodwyd gan archwiliadau ac ymweliadau a gynhaliwyd gan reoleiddwyr neu arolygwyr eraill.

1.9 Gwnaeth Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru[4] hefyd ganfod safonau gwael o ran dogfennaeth nyrsio, yn enwedig mewn perthynas â chwblhau asesiadau o anghenion, cynlluniau gofal a siartiau bwyd a hylif gyda phryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â rheoleidd-dra adolygiadau o fewn cynlluniau gofal ysgrifenedig. Canfu ymweliadau dirybudd Ymddiried mewn Gofal yn 2014[5] fod 'swmp, ansawdd ac amrywiadau'r dogfennau ar wardiau, o fewn ysbytai a'r byrddau iechyd a rhyngddynt yn her wirioneddol...' gyda thystiolaeth o ddogfennau wedi'u llungopïo'n wael ac asesiadau gofal cleifion wedi'u dyblygu droeon, nad oeddent bob amser yn gyflawn.

1.10 Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn arwain gwaith ar hyn o bryd i foderneiddio'r broses o gadw cofnodion nyrsio a sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn addas at y diben.[6] Mae'r Gwasanaeth yn ystyried ffyrdd o ad-drefnu dogfennaeth nyrsio a symud o system bapur i system electronig, ond nid oes amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith hwnnw ar hyn o bryd. Y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol sy'n goruchwylio'r prosiect, a'i gadeirydd yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi recriwtio gwybodegydd nyrsio newydd a fydd yn dechrau yn ystod hydref 2016. Bydd yr unigolyn hwn yn helpu gyda'r gwaith o ddatblygu system dogfennaeth electronig Cymru gyfan.

1.11 Canfu'r archwilwyr fod sawl un o sefydliadau'r GIG wedi cyflwyno dogfennaeth nyrsio newydd yn 2015 yn absenoldeb dogfennaeth nyrsio safonol. Er enghraifft:

a Cyflwynodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddogfennaeth nyrsio newydd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth allweddol am gleifion yn cael ei chofnodi. Mae'r ddogfennaeth newydd yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â maeth, cyfathrebu, a llyncu, yn ogystal ag archwaeth presennol am fwyd, dewisiadau deietegol ac anghenion deietegol arbennig, therapiwtig neu ddiwylliannol. Ar y cyfan, canfu'r archwilwyr fod ansawdd y wybodaeth a gofnodir yn nodiadau achos cleifion wedi gwella, gyda gwaith sgrinio maeth yn cael ei gwblhau'n dda yn gyffredinol a'r wybodaeth ar gael yn hawdd.

4 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, **Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol 2014-15, Adroddiad Thematig**, cyhoeddwyd ym mis Medi 2015.
5 Llywodraeth Cymru, **Gwersi yn sgil Ymddiried mewn Gofal, Ymweliadau Dirybudd ar ran y Gweinidog, Adroddiad Cymru Gyfan**, Tachwedd 2014.
6 Llywodraeth Cymru, **Gwersi yn sgil Ymddiried mewn Gofal - Un Flwyddyn Ar Ôl**, 2015.

b Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn safoni dogfennaeth nyrsio ar gyfer mannau i gleifion mewnol sy'n oedolion er mwyn helpu gyda chadw cofnodion. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfennaeth yn cynnwys awgrymiadau o ran gwybodaeth, fel dewisiadau bwyd. Nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r ddogfennaeth newydd yn llawn eto, ac mae'n bosibl mai hyn, ynghyd â'r diffyg awgrymiadau, oedd y rheswm dros y bylchau a ganfuwyd yn y wybodaeth a gofnodwyd.

c Yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, caiff cofnodion nyrsio eu cwblhau yn erbyn y 12 safon Hanfodion Gofal, sy'n helpu i sicrhau bod gwybodaeth am iechyd a hylendid y geg, bwyta ac yfed, a chyfathrebu yn cael ei chofnodi.

1.12 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi datblygu dull asesu nyrsio integredig gyda dogfennaeth ategol er mwyn hybu asesu nyrsio cyfannol a mynd i'r afael â'r amrywiad o ran safonau dogfennaeth. Mae trefniadau ar waith i fonitro safon y cwblhau.

1.13 Nid yw sefydliadau'r GIG wedi mynd ati eto i gategoreiddio niferoedd cleifion mewn modd systematig yn ôl eu sgôr risg faethol na defnyddio'r wybodaeth i gynllunio neu fonitro canlyniadau cleifion. Nid oes modd cofnodi'r manylion hyn gan ddefnyddio'r systemau TG presennol, gan gynnwys system fetrig nyrsio Cymru gyfan. Dylai newid i ddogfennaeth nyrsio safonol a chofnod nyrsio electronig sicrhau cyfleoedd i gynnwys maeth a sgoriau asesiad risg eraill yn y cofnod nyrsio.

## Nid oes cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant e-ddysgu ar y llwybr gofal maeth wedi cael ei chyflawni eto

1.14 Diffyg hyfforddiant gloywi ar sut i ddefnyddio'r offer sgrinio neu'r ddogfennaeth asesu oedd un o'r rhesymau a nodwyd dros ansawdd gwael sgrinio maeth pan gyflwynais fy adroddiad yn 2011. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn hyfforddi e-ddysgu ar sut i ddefnyddio llwybr gofal maeth Cymru gyfan a siartiau bwyd a hylif Cymru gyfan ym mis Medi 2011. Roedd yn ofynnol i holl staff nyrsio ar wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddi e-ddysgu o fewn 12 mis i'r dyddiad hwn a dylai staff newydd ei gwblhau o fewn 12 mis i'w penodi.

1.15 Ym mis Gorffennaf 2014, gosodwyd y modiwlau e-ddysgu ar sgrinio maethol a'r siartiau bwyd a hylif ar lwyfan gwe newydd. Nid oes gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan am nifer y staff nyrsio a gwblhaodd y modiwlau hyn mis Gorffennaf 2014 ar gael mwyach am nad oedd modd trosglwyddo data o'r hen system i'r system newydd.

1.16 Ar adeg fy ngwaith archwilio yn 2015, nid oedd sefydliadau'r GIG wedi cyflawni cydymffurfiaeth lawn eto. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau'r GIG, roedd cydymffurfiaeth â'r modiwl e-ddysgu yn amrywio o 25 y cant i fwy na 80 y cant. Nodwyd nifer o resymau dros gydymffurfiaeth wael:

- dim digon o gyfrifiaduron ar y ward i alluogi staff i gael gafael ar y pecyn hyfforddi e-ddysgu;
- analluу i gwblhau'r hyfforddiant yn ddi-dor yn y gwaith oherwydd yr amser sydd ei angen i'w gwblhau;
- anhawster wrth ddefnyddio'r llwyfan e-ddysgu ar ôl llwyddo i fynd ar-lein; a
- hen gynnwys nad oedd yn adlewyrchu'r newidiadau o ran arfer sydd wedi cael eu cyflwyno, fel newidiadau o ran maint jygiau dŵr a gwydrau.

1.17 Yn ogystal â'r modiwlau e-ddysgu, ceir llawer o enghreifftiau o staff deietegol a nyrsio yn cydweithio ar adeg fy archwiliad i wreiddio hyfforddiant maethol o fewn cyrsiau hyfforddi lleol sydd eisoes yn bodoli neu ddatblygu rhaglenni hyfforddiant pwrpasol. Ar rai wardiau, canfu'r archwilwyr fod staff deietegol wedi sefydlu byrddau gwybodaeth a oedd yn cynnwys cyngor deietegol a maethol i gleifion, a'u bod yn cynnal a chadw'r byrddau hynny. Roedd y byrddau gwybodaeth hyn hefyd yn gweithredu fel adnodd dysgu i staff nyrsio.

1.18 Roedd grŵp gorchwyl a gorffen addysg a hyfforddiant Cymru gyfan wedi cael ei sefydlu ar adeg fy ngwaith archwilio. Diben y grŵp yw sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rhan o 'gadwyn' fwyd ysbytai yn gallu cael hyfforddiant i hyrwyddo Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan, annog dewis priodol i gleifion a hyrwyddo dewisiadau iach. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o gyrff y GIG, naill ai o'r adran ddeietegol, yr adran arlwyo neu'r adran hyfforddiant. Ni allaf wneud sylw ynghylch p'un a yw'r grŵp wedi cyflawni ei amcanion gan mai dim ond unwaith yr oedd wedi cwrdd ar adeg fy archwiliad.

## Yn gyffredinol, mae pob un o gyrff y GIG yn ymgymryd â rhyw fath o waith rheolaidd i fonitro'r llwybr gofal maeth, ond mae natur a graddau'r gwaith monitro yn amrywio ledled Cymru

1.19 Yn 2011, nodais nad oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth. Argymhellais y dylai sefydliadau'r GIG archwilio pob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd. Mae cydymffurfio â phrosesau sgrinio maethol[7] yn fesur craidd a gofnodir yn fisol o fewn system metrigau nyrsio Cymru gyfan. Mae data hunangofnodedig yn dangos bod cydymffurfiaeth yn amrywio o 90 i 95 y cant ar draws byrddau iechyd unigol yn 2015. Fodd bynnag, canfu'r archwilwyr fod cyfartaleddau byrddau iechyd yn cuddio amrywiadau o fewn ysbytai a rhyngddynt, sy'n golygu bod perfformiad cyson wael yn llai gweladwy.

1.20 Mae'r graddau y mae sefydliadau'r GIG yn asesu ansawdd y sgrinio maethol a'r llwybr gofal maeth ehangach yn rheolaidd yn amrywio o un sefydliad i'r llall. Mewn rhai sefydliadau (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre), mae staff deietegol yn mynd ati'n rheolaidd i asesu ansawdd y sgrinio maethol, cywirdeb y sgoriau risg maethol, p'un a oes gofal maeth priodol wedi cael ei drefnu a ph'un a oes atgyfeiriadau priodol ar gyfer cymorth deietegol wedi cael eu gwneud. Cyflwynodd dau fwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf) archwiliadau rheolaidd o brosesau sgrinio maethol, a gynhelir gan staff nyrsio, er mwyn gwella cydymffurfiaeth a chodi proffil asesu maethol ar lefel ward. Caiff cydymffurfio â phrosesau sgrinio maethol ei gynnwys fel rhan o'r archwiliadau amlddisgyblaethol o amser bwyd a gyflwynwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (gweler paragraff 2.28).

1.21 Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg archwiliadau cynhwysfawr o'r llwybr gofal maeth, gan gynnwys sgrinio maethol, ddiwethaf yn 2013. Er nad yw'r naill fwrdd na'r llall wedi ailgynnal yr archwiliad, caiff cydymffurfio â phrosesau sgrinio maethol ei fonitro drwy'r metrigau nyrsio misol, yn ogystal â hapwiriadau o gydymffurfiaeth â safonau maeth a hydradiad neu archwiliadau dogfennaeth nyrsio. Ers ein gwaith archwilio, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi sefydlu grwpiau Craffu ar Ddangosyddion Gofal a Gwella a fydd yn gyfrifol am gynnal adolygiad manwl o gydymffurfiaeth â dangosyddion gofal, gan gynnwys safonau sgrinio maethol a chadw cofnodion.

7 Diffinnir cydymffurfio â phrosesau sgrinio maethol fel canran y sgoriau maeth a gwblheir a chamau priodol a gymerir o fewn 24 awr i dderbyn claf.

# Rhan 2

# Y profiad amser bwyd

2.1 Yn 2011, roedd y rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd. Er bod deietegwyr yn helpu i gynllunio bwydlenni mewn ysbytai, nid oedd pob un wedi'i hasesu o ran ei maeth. Yn gyffredinol, roedd cleifion yn fodlon ar y bwyd a gawsant ond nododd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau. Nid oedd pob claf yn cael yr help yr oedd ei angen arnynt amser bwyd a gellid gwneud mwy i ymgorffori egwyddorion amser bwyd wedi'i ddiogelu.[8]

2.2 Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru safonau maeth ac arlwyo newydd.[9] Roedd y safonau hyn yn disodli fframwaith arlwyo a maeth 2002 ac yn rhoi canllawiau technegol i staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion.[10] Roedd yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2013.

2.3 Yn 2015, nodais fod y profiadau amser bwyd yn gwella ond bod angen gwneud mwy o hyd i sicrhau bod pob claf yn cael cymorth amserol a gwybodaeth ysgrifenedig am yr hyn i'w ddisgwyl ac er mwyn sicrhau llai eto o dorri ar draws amser bwyd ar rai wardiau. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod o dan y themâu canlynol:

- bwydlenni cleifion;
- gwasanaethau bwyd a diod;
- paratoi ar gyfer amser bwyd;
- amser bwyd wedi'i ddiogelu;
- gwybodaeth i gleifion;
- monitro gwasanaethau amser bwyd; a
- sgoriau hylendid bwyd.

8 Ystyr amser bwyd wedi'i ddiogelu yw cyfnodau pan roddir y gorau i'r holl waith clinigol nad yw'n waith brys ar wardiau ysbytai er mwyn galluogi cleifion i fwyta eu bwyd heb darfu diangen, a phan all staff nyrsio roi cymorth i bobl sydd angen help i fwyta.

9 Llywodraeth Cymru, **Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Hylif i Gleifion Mewnol mewn Ysbytai**, Hydref 2011

10 Mae'r safonau arlwyo a maeth yn anelu at ddiwallu anghenion maethol cleifion a all fwyta ac yfed. Nid yw'r safonau'n gymwys i gleifion sy'n cael maeth drwy'r gwythiennau neu'r ymysgaroedd, hynny yw, maetholion a gyflwynir yn fewnwythiennol neu'n uniongyrchol i mewn i'r system gastroberfeddol.

## Caiff bwydlenni cleifion eu hasesu o ran eu maeth drwy Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan ac mae cyrff y GIG yn cydymffurfio â'r ryseitiau i raddau helaeth

2.4 Yn 2011 roedd safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan yn nodi'r cynnwys maethol sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth ysbyty. I gefnogi'r broses o gyflwyno'r safonau hyn, cydweithiodd arlwywyr a dietegwyr ledled Cymru i lunio Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o 150 o ryseitiau a bwydlenni enghreifftiol safonol sydd wedi'u hasesu o ran eu maeth. Mae'r cynhyrchion, manylebau cynnyrch a chodau alergenau[11] wedi'u cynnwys ar wefan atodol y Fframwaith Bwydlenni, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael yn rhwydd.

2.5 Yn 2015, nodais fod cyrff y GIG bron yn cydymffurfio â'r Fframwaith Bwydlenni, hynny yw, dim ond y ryseitiau sydd wedi'u hasesu o ran eu maeth o fewn y gronfa ddata a ddefnyddir ganddynt. Mewn rhai o gyrff y GIG, roedd ryseitiau lleol sy'n cydymffurfio â'r safonau maethol yn dal i gael eu defnyddio. Ceir dull unedig o ddatblygu ryseitiau ac mae grŵp adolygu ryseitiau gweithredol Cymru gyfan yn goruchwylio'r gwaith o ddylunio bwydlenni. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan y deietegydd caffael, a benodwyd i Wasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn 2013 i arwain y gwaith o ddatblygu manylebau maeth ar gyfer contractau bwyd mewn perthynas â'r seigiau o fewn y fframwaith bwydlenni.

2.6 Yn ogystal ag arwain manylebau maeth, mae'r deietegydd caffael wedi dod o hyd i fyrbrydau o ansawdd uchel sy'n cynnwys llawer o egni fel rhan o'r dull gweithredu 'bwyd yn gyntaf' ar gyfer gwella statws maethol claf. Mae cawliau maethlon pwrpasol tebyg i gawl cartref hefyd wedi cael eu caffael neu eu gwneud yn fewnol gan ddilyn rysáit safonol, yn lle'r cawliau powdwr o ansawdd gwael a oedd yn cael eu gweini o'r blaen. Mae cawl, wedi'i gyfuno â brechdan neu gaws a bisgedi, bellach yn ddewis ysgafnach sy'n uchel mewn protein ac yn llawn egni ar fwydlenni cleifion. Mae bwydlen Cymru gyfan o fwydydd ag ansawdd wedi'i addasu hefyd wedi cael ei llunio er mwyn sicrhau dewis digonol o brydau i gyrraedd y safonau o ran maetholion ar gyfer cleifion ag anawsterau llyncu.

11 Rhoddwyd Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (UE) Rhif 1169/2011 ar waith ym mis Rhagfyr 2014. Newidiodd y rheoliadau hyn y rheolau o ran labelu alergenau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gynhyrchion sy'n alergenau yn cael ei chyflwyno mewn ffordd glir a chyson.

## Mae trefniadau i sicrhau bod bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd yn ddigonol i raddau helaeth ac mae cleifion, yn gyffredinol, yn teimlo'n gadarnhaol am wasanaethau bwyd

2.7 Yn 2015, nodais fod trefniadau i sicrhau bod bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd yn ddigonol i raddau helaeth a bod cleifion, yn gyffredinol, yn teimlo'n gadarnhaol am y bwyd a'r ystod o ddewis. Fodd bynnag, mewn rhai ysbytai, mae lle i wella'r dewis o brydau i'r cleifion hynny sydd ar wardiau arhosiad hir neu i gleifion â gofynion deietegol arbennig yr oedd gwasanaethau arlwyo ysbytai yn gweithio i fynd i'r afael â hwy.

2.8 Yn dilyn lansio Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan, ffurfiwyd Grŵp Monitro a Gwerthuso Strategol (gweler hefyd baragraff 4.6) a gyflwynodd arolwg cenedlaethol i geisio barn cleifion ar wasanaethau bwyd a diod. Ymatebodd mwy na 1,700 o gleifion – tua 20 y cant o gleifion mewnol ysbytai – i'r arolwg diweddaraf yn 2015. Nododd bron i bedair rhan o bump o'r cleifion eu bod 'bob amser yn cael dewis o fwyd' amser brecwast, cinio neu bryd nos, ar y cyfan, bod 'nifer y dewisiadau yn iawn'.

2.9 Rhoddodd cleifion eu barn hefyd ar olwg a blas y prydau, yn ogystal â'u boddhad cyffredinol. Nododd ychydig yn fwy na thair rhan o bump (62 y cant) o'r cleifion fod cyflwyniad a golwg y bwyd yn dda neu'n dda iawn, ond nododd un rhan o dair (34 y cant) eu bod wedi cael pryd a oedd yn edrych yn annymunol yn eu barn hwy. Dywedodd mwy na hanner (56 y cant) fod y blas yn dda neu'n dda iawn, gyda thair rhan o bump (60 y cant) yn dweud bod yr ansawdd yn dda neu'n dda iawn. Gofynnwyd i gleifion nodi eu boddhad cyffredinol ar raddfa o 1 i 10 lle bo 1 yn golygu anfodlon dros ben a 10 yn golygu bodlon dros ben. Nododd mwy na hanner y cleifion (55 y cant) sgôr rhwng 8 a 10.

2.10 Mae safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan 2011 yn nodi y dylai byrbrydau gael eu cynnig i gleifion ddwy neu deirgwaith y dydd gyda byrbrydau yn cael eu cynnig gyda'r nos i bob claf oherwydd y bwlch hir rhwng y pryd nos a brecwast. Canfu'r archwilwyr fod byrbrydau ar gael yn gyffredinol rhwng prydau ac i gleifion a oedd wedi colli pryd, gyda byrbrydau'n cael eu cynnig yn ystod y rowndiau diodydd ganol bore a chanol prynhawn. Dywedodd staff wardiau wrthym y gallai cleifion ofyn am fyrbrydau ar unrhyw adeg o'r dydd, gydag amrywiaeth o fyrbrydau, fel bisgedi, ffrwythau ffres, caws a chraceri, yn ogystal â phrif fwydydd fel bara, grawnfwyd a llaeth, yn cael eu cadw yng ngheginau wardiau.

2.11 Fodd bynnag, dengys canfyddiadau arolwg Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan nad yw pob claf yn cael profiad cadarnhaol. Dywedodd un o bob chwe chlaf (15 y cant) eu bod wedi cael eu cynghori i fwyta byrbrydau ychwanegol ond nad oeddent wedi cael eu darparu iddynt, ac ni chafodd un o bob pedwar claf (26 y cant) gynnig byrbryd ar ôl y pryd nos o gwbl. Pan fyddai cleifion yn colli pryd, dim ond un o bob wyth claf (12 y cant) fyddai'n cael cynnig pryd arall yn ei le.

2.12 Mae safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan yn nodi y dylid cynnig saith neu wyth diod yn ystod unrhyw gyfnod o 24 awr, ac y dylai dŵr fod ar gael bob amser a jygiau dŵr yn cael eu newid deirgwaith y dydd. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014[12] fod dŵr yfed ar gael ac o fewn cyrraedd cleifion ond mai dim ond mewn 60 y cant o ardaloedd clinigol yr oedd jygiau dŵr yn cael eu newid deirgwaith y dydd. Roedd y staff nyrsio ac arlwyo a welsom fel rhan o ymweliadau â wardiau wedi ymrwymo i ddarparu dŵr ffres deirgwaith y dydd a saith neu wyth diod. Gwnaethant gyfaddef fod cyflawni hyn yn heriol ar adegau oherwydd y llwyth gwaith cyffredinol, yn enwedig gyda'r nos pan oedd staff arlwyo'r ward neu staff cynnal wedi gorffen eu sifft.

2.13 Roedd y mwyafrif o'r cleifion (97 y cant) a arolygwyd fel rhan o'r archwiliad Hanfodion Gofal o'r farn eu bod wedi cael dŵr a diodydd. Dywedodd tair rhan o bump o gleifion a ymatebodd i arolwg Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan eu bod bob amser yn cael cynnig diodydd amser bwyd, rhwng prydau ac amser gwely. Fodd bynnag, dywedodd ychydig yn llai nag un o bob deg o gleifion (9 y cant) eu bod yn sychedig am nad oeddent wedi cael digon i yfed.


2.14 Amlygodd adroddiad Ymddiried mewn Gofal hydradu fel prif destun pryder. Yn dilyn astudiaeth beilot yn 2015, lansiodd GIG Cymru ymgyrch 'Dŵr - Iechyd Da' ym mis Chwefror 2016 er mwyn sicrhau bod pobl yn cael digon o ddŵr pan fyddant yn yr ysbyty. Nod yr ymgyrch yw rhoi gwybod i bobl am bwysigrwydd hydradu da o ran rheoli ac atal llawer o gyflyrau iechyd, a'r niwed a achosir o beidio ag yfed digon.

12 Llywodraeth Cymru, **Archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan, Crynodeb o Gydymffurfiad Sefydliadau GIG Cymru â'r Safonau ar sail Archwiliad Blynyddol 2014**, Mehefin 2015

## Mae lle o hyd i wella'r help sydd ar gael i gleifion i baratoi ar gyfer amser bwyd ac i fwyta

2.15 Mae safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan 2011 yn nodi'n glir na ddylid torri ar draws amser bwyd cleifion ac y dylid rhoi help i fwyta i bawb sydd ei angen. Fel rhan o archwiliad 2015, ymwelodd archwilwyr â 26 o wardiau yn ystod amser cinio er mwyn arsylwi ar b'un a oedd trefniadau ar waith er mwyn helpu cleifion i fwynhau eu prydau mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer bwyta, a bod cleifion a oedd angen help i fwyta yn ei gael. Roedd yr archwilwyr hefyd yn chwilio am dystiolaeth bod cleifion yn cael help i baratoi ar gyfer prydau bwyd, fel cael help i eistedd yn gyfforddus a chael y cyfle i olchi eu dwylo. Dengys yr arsylwadau fod lle o hyd i wneud mwy er mwyn paratoi rhai wardiau, helpu cleifion i baratoi ar gyfer amser bwyd a sicrhau bod pob claf yn cael cymorth prydlon i fwyta ac er mwyn sicrhau cymorth a goruchwyliaeth ddigonol i'r holl gleifion (Arddangosyn 3).

### Arddangosyn 3 – Cyfran y wardiau lle'r oedd gweithgareddau amser bwyd disgwyliedig yn gymwys i'r holl gleifion




Ffynhonnell: Canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru o arsylwadau amser bwyd

2.16 Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r canlyniadau canlynol o arolwg diweddar Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan i raddau helaeth:

- dywedodd tair rhan o bump (61 y cant) o gleifion a allai adael eu gwelyau eu bod bob amser neu fel arfer yn cael eu hannog i wneud hynny i fwyta eu prydau bwyd;
- dywedodd mwy na hanner (56 y cant) y cleifion eu bod bob amser yn gallu golchi neu lanhau eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd, er y dywedodd un o bob wyth claf (12 y cant) nad oeddent byth yn gallu golchi na glanhau eu dwylo cyn prydau bwyd; a
- dywedodd tair rhan o bump (60 y cant) o gleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta eu bod wedi cael help, o gymharu ag 17 y cant o gleifion yr oedd angen help arnynt a ddywedodd nad oeddent byth yn cael help.

## Mae amser bwyd wedi'i ddiogelu i'w weld yn fwy eang ond gellir gwneud mwy i sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri ar draws amser bwyd

2.17 Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau atodol ar amser bwyd wedi'i ddiogelu. Yn 2012, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd i atgoffa cyrff iechyd bod amser bwyd wedi'i ddiogelu yn rhan annatod o Lwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag ef. Hefyd, ni ddylid defnyddio amser bwyd wedi'i ddiogelu i gau allan berthnasau a gofalwyr sydd am helpu cleifion i fwyta amser bwyd.

2.18 Dangosodd archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol 2014 fod gan 98 y cant o wardiau systemau ar waith i ganiatáu i deulu a ffrindiau helpu amser bwyd. Canfu fy ngwaith archwilio fod hyn yn wir, gyda staff nyrsio yn croesawu teulu a ffrindiau a'u hannog i helpu cleifion amser bwyd.

2.19 Roedd arwyddion yn dangos diben amser bwyd wedi'i ddiogelu a'i amseroedd gweithredu i'w gweld, ar y cyfan, ym mynedfeydd y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Yn Ysbyty Nevill Hall, mae'r arwyddion yn mynd gam ymhellach ac yn cynnwys gwybodaeth am 'amser tawel' er mwyn annog gorffwys a gwellhad.

2.20 Canfu fy ngwaith archwilio dilynol fod amser bwyd wedi'i ddiogelu i'w weld yn fwy eang nag o'r blaen gyda gweithgarwch clinigol nad oedd yn hanfodol yn 'distewi' ychydig cyn i brydau bwyd ddechrau cael eu gweini. Ar y cyfan, roedd staff gofal iechyd proffesiynol yn gadael y wardiau ar ddechrau'r gwasanaeth prydau bwyd, ac, os oeddent yn aros, bach iawn o ryngweithio â chleifion a staff nyrsio a gafwyd. Roedd rheolwyr wardiau yn hyderus bod amser bwyd wedi'i ddiogelu yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr proffesiynol yn cefnogi'r egwyddorion. Yn gyffredinol, roedd gwaith glanhau wedi'i gwblhau cyn amser bwyd a phan oedd yn parhau, roedd yn digwydd mewn mannau i ffwrdd o welyau cleifion ac nid oedd yn amharu ar y gwasanaeth prydau bwyd.

2.21 Pan oedd yn ymddangos bod amser bwyd yn gweithio'n dda, roedd y tîm nyrsio cyfan yn rhan o'r broses amser bwyd. Fodd bynnag, ar rai wardiau yr ymwelwyd â hwy, nid oedd pob aelod cofrestredig o staff nyrsio yn canolbwyntio ar yr amser bwyd ond yn hytrach yn ymwneud â gweithgareddau eraill, fel rowndiau meddyginiaeth, gwaith gweinyddol nad oedd yn waith brys, neu adael y ward i gael egwyl bwyd. Mae'r archwiliad Hanfodion Gofal yn asesu'n rheolaidd p'un a oes nyrs gofrestredig yn cydgysylltu pob amser bwyd a ph'un a yw'r aelodau o'r tîm nyrsio yn rhan o'r gwasanaeth amser bwyd, ac yn 2014 cydymffurfiaeth y naill oedd 82 y cant, a'r llall oedd 93 y cant.

2.22 Mae cydymffurfiaeth ag amser bwyd wedi'i ddiogelu bellach yn cael ei hasesu'n rheolaidd fel rhan o'r archwiliadau cynhwysfawr o amser bwyd a gyflwynwyd gan y rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG gyda chamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael (gweler paragraff 2.28). Fodd bynnag, roedd un o bob chwe chlaf (15 y cant) a ymatebodd i arolwg fframwaith bwydlenni Cymru gyfan 2015 yn dweud bod pethau ar y ward wedi torri ar draws eu hamser bwyd, gan olygu nad oedd modd iddynt fwyta eu prydau bwyd, sy'n awgrymu y gellir gwneud mwy o hyd i sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri ar draws amser bwyd.

## Nid oes gwybodaeth ysgrifenedig am yr hyn sydd i'w ddisgwyl ar gael bob amser i gleifion yn yr ysbyty, ac os oes gwybodaeth o'r fath ar gael, nid yw'n cael ei rhannu'n eang

2.23 Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan 2011 yn ei gwneud yn glir y dylid rhoi gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr am yr hyn sydd i'w ddisgwyl o ran byrbrydau a phrydau bwyd yn yr ysbyty. Argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn rhoi fy nhaflen 'Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty – Yr hyn y dylech ei ddisgwyl' i gleifion yn yr ysbyty.[13] Roedd y llythyr a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio yn 2012 yn gofyn i gyrff y GIG roi'r wybodaeth a nodir yn fy nhaflen i gleifion.

2.24 Yn 2015, canfu'r archwilwyr fod gwybodaeth ysgrifenedig am yr hyn sydd i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau bwyd a diod yn dal yn gyfyngedig neu, os yw ar gael, nid yw'n cael ei rhannu'n eang, ac roedd ymwybyddiaeth staff ac aelodau bwrdd o'm taflen yn amrywiol.

2.25 Yn fwy cadarnhaol, roedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn rhoi copi o'r daflen i gleifion yn rheolaidd, ac mae cyrff eraill y GIG yn gwneud gwaith parhaus i ddarparu gwybodaeth briodol am wasanaethau arlwyo a maeth, er enghraifft:

a Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn arddangos ei Addewid Urddas[14] ar wardiau ysbytai ac yn rhan o ddogfennaeth ymyl gwely;

b Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi llunio llawlyfr wedi'i lamineiddio i gleifion ar gyfer pob ward, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau bwyd;

13 Swyddfa Archwilio Cymru, **Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty: Yr hyn y dylech ei ddisgwyl**

14 Mae'r 'Addewid Urddas' yn rhestru 16 o addewidion, ac mae pedwar ohonynt yn ymwneud ag amser bwyd. Yr addewidion hyn yw sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu ar waith, rhoi cyfleoedd i gleifion olchi eu dwylo cyn prydau bwyd, helpu cleifion i fod yn gyfforddus i fwyta a sicrhau bod prydau bwyd a diodydd o fewn cyrraedd a helpu'r rhai sydd angen help i fwyta, gan gynnwys croesawu perthnasau a gofalwyr i helpu.

c Roedd staff deietegol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi llunio taflen 'archwaeth isel am fwyd' er mwyn rhoi syniadau ac awgrymiadau ymarferol i gleifion ar sut i gael maeth ychwanegol yn yr ysbyty ac ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty; ac

ch Roedd Ysbyty Tywysoges Cymru wedi llunio llawlyfr newydd i gleifion a oedd yn cynnwys gwybodaeth am fwyd, byrbrydau, bwyta'n iach a help i fwyta ac yfed.

2.26 Mae gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau bwyd a help i fwyta ac yfed os oes angen, ar gael ar wefannau byrddau iechyd weithiau. Er bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, ni fydd pob claf yn cael gafael arni cyn dod i'r ysbyty ac nid yw o reidrwydd ar gael mewn fformat wedi'i argraffu.

2.27 Ar adeg fy ngwaith archwilio, roedd Grŵp Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan yn llunio deunyddiau marchnata er mwyn esbonio'r dull Cymru gyfan o baratoi bwyd ysbyty i gleifion. Roedd y Grŵp yn bwriadu cydweithio â byrddau iechyd lleol a'u partneriaid i hysbysebu'r deunyddiau hyn mewn mannau y gallai cleifion ymweld â hwy, fel adrannau i gleifion allanol a meddygfeydd.

## Mae trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau amser bwyd a boddhad cleifion ar waith gan fwyaf

2.28 Yn 2015, canfu'r archwilwyr fod gan bob bwrdd iechyd, ar wahân i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, systemau cynhwysfawr ar waith i asesu gwasanaethau amser bwyd yn rheolaidd. Mae'r archwiliadau hyn yn asesu arferion o ran hylendid bwyd, gwastraff prydau bwyd heb eu gweini, y cymorth a roddir i gleifion amser bwyd, amser bwyd wedi'i ddiogelu ac argaeledd byrbrydau a diodydd. Mae cydymffurfio â phrosesau sgrinio maethol wedi'i gynnwys fel rhan o'r archwiliadau amser bwyd hyn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Timau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys staff nyrsio, staff deietegol a staff cyfleusterau sy'n cynnal yr archwiliadau hyn, ac mae adborth ar gael ar unwaith, gan sicrhau y gellir gwneud gwelliannau lle bo angen.

2.29 Arolygon boddhad yw'r brif system ar gyfer casglu barn cleifion ar wasanaethau maeth ac arlwyo o hyd. Lle mae byrddau iechyd wedi cyflwyno archwiliadau amlddisgyblaethol o amser bwyd, caiff profiadau cleifion eu cofnodi mewn 'amser real', sy'n helpu i ddatrys problemau yn gyflym, er enghraifft:

a Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, mae arolygon ffurfiol o foddhad cleifion yn rhan sefydledig o'r broses archwilio amser bwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dwyn canfyddiadau'r arolwg ynghyd i ffurfio sgôr boddhad cleifion sy'n gweithredu fel dangosydd perfformiad allweddol, a chyflwynir adroddiad ar y canfyddiadau cyffredinol i grŵp maeth ac arlwyo strategol a Phwyllgor Risg Gorfforaethol y Bwrdd Iechyd.

b Yn 2015, roedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn integreiddio arolwg boddhad cleifion fel rhan o'i archwiliadau amser bwyd.

2.30 Ers 2012, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwahodd cleifion wardiau i gymryd rhan yn ei arolwg 'Dwy funud o'ch amser', sy'n cynnwys cwestiynau am wasanaethau bwyd. Caiff barn cleifion ei rhannu â'r grŵp maeth ac arlwyo strategol a chyflwynir adroddiad arni ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cyflwyno'r prawf teulu a ffrindiau.[15] Os bydd cleifion neu ofalwyr yn cwblhau'r prawf teulu a ffrindiau yn electronig, bydd geiriau allweddol, fel maeth, yn sbarduno ymateb yn lleol ar unwaith. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cymryd rhan mewn arolygon annibynnol a gynhelir gan Sefydliad Picker,[16] sy'n cynnwys nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â bwyd ac amser bwyd.

## Mae ysbytai'n sgorio'n uchel yn erbyn y sgoriau hylendid bwyd

2.31 Yn ei adroddiad yn 2012, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod pob ysbyty yng Nghymru yn arddangos y sgôr hylendid bwyd a roddwyd gan wasanaethau iechyd amgylcheddol yr awdurdod lleol. Daeth Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i rym ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes bwyd yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau arlwyo ysbytai a gwasanaethau masnachol sydd wedi'u lleoli ar safleoedd ysbytai, arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Mae'r sgôr yn amrywio o 'angen gwella ar frys' (sgôr o sero) i 'da iawn' (sgôr o 5).

2.32 Dengys data'r EFPMS fod gan 98 y cant o ysbytai yng Nghymru sgôr hylendid o 4 (da) neu 5 (da iawn) ddiwedd mis Mehefin 2015, a bod gan ddau ysbyty sgôr hylendid o 3 (boddhaol ar y cyfan). Yn ystod fy archwiliad, canfu'r archwilwyr amrywiaeth o ffyrdd o arddangos y sgoriau hyn. Roedd rhai ysbytai'n arddangos y sgôr yn y fynedfa i'r prif ysbyty a'r bwyty. Mewn ysbytai eraill, dim ond yn y fynedfa i'r bwyty yr oedd y sgôr hylendid yn cael ei harddangos er mwyn peidio â rhoi'r argraff bod y sgôr hefyd yn berthnasol i wasanaethau masnachol sy'n gweithredu ar y safle. Hefyd, gwelodd yr archwilwyr fod gwasanaethau masnachol, gan gynnwys y rhai a redir gan Wasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched, yn arddangos sgoriau hylendid bwyd.

15 Mae'r prawf teulu a ffrindiau yn gofyn i gleifion a gofalwyr p'un a fyddent yn argymell y gwasanaeth i deulu a ffrindiau, a chofnodir sylwadau ar agweddau ar ofal neu wasanaeth.
16 Elusen ryngwladol yw **Sefydliad Picker**, sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i fesur profiad cleifion er mwyn gwella ansawdd y gofal. http://www.pickereurope.org/

# Rhan 3

# Costau arlwyo a gwastraff bwyd

3.1 Nodwyd yn fy adroddiad yn 2011 fod gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwyo yn wael fel arfer. Lle'r oedd ar gael, roedd yn dangos cryn amrywiad mewn costau o fewn sefydliadau'r GIG a rhyngddynt. Ychydig iawn o ysbytai a oedd yn cynhyrchu digon o incwm i adfer holl gostau gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Roedd cyrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Fodd bynnag, roedd lle i wneud mwy o ddefnydd o ryseitiau safonol wedi'u costio, cytuno ar lwfansau bwyd a diod ar gyfer cleifion, safoni contractau arlwyo lleol a lleihau gwastraff bwyd. Yn y cyfamser, ychydig iawn o gynnydd a fu o ran defnyddio systemau cyfrifiadurol o fewn gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau arlwyo yn ddibynnol ar systemau papur.

3.2 Canfu fy adroddiad dilynol yn 2015 ddibyniaeth barhaus ar systemau papur ond canfu hefyd fod costau arlwyo yn cael eu rheoli'n well gyda lleihad mewn gwastraff bwyd a chymorthdaliadau am wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Er bod y gwastraff bwyd o fewn y targed, mae cost gwastraff yn dal i fod yn uchel. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod o dan y themâu canlynol:

- systemau rheoli costau a thechnoleg gwybodaeth;
- gwastraff bwyd; a
- chymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion.

## Mae sefydliadau'r GIG yn defnyddio systemau rheoli costau yn well ond dim ond ychydig ohonynt sy'n defnyddio systemau arlwyo TG

3.3 Canfu fy archwiliad diweddaraf fod dealltwriaeth gliriach o gost cynhyrchu bwyd yn y rhan fwyaf o gyrff y GIG, gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau'n defnyddio data'r EFPMS yn well i fonitro a meincnodi gwasanaethau arlwyo yn fewnol. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau wedi safoni eu systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau gyda sawl un ohonynt yn newid y ffordd y maent yn crynhoi gwybodaeth er mwyn gallu gwneud cymariaethau mwy dibynadwy rhwng safleoedd.

3.4 Mae cyflwyno Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan yn sicrhau bod ryseitiau safonol wedi'u costio ar gael i wasanaethau arlwyo. Mae gwefan ategol y Fframwaith Bwydlenni yn cynnwys y cynhyrchion, manylebau cynnyrch a chostau fesul dogn ar gyfer pob rysáit. Roedd deietegydd caffael Gwasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn gweithio i resymoli nifer y llinellau cynnyrch a brynir gan gyrff y GIG. Mae'n debyg bod y dull gweithredu hwn yn helpu i wella'r broses o reoli stoc ac ansawdd y cynnyrch bwyd a brynir drwy'r contractau Cymru gyfan ac i sicrhau arbedion.

3.5 Ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflwyno systemau arlwyo TG ledled Cymru. Dim ond rhai o gyrff y GIG a oedd yn defnyddio systemau o'r fath, ac roedd y rhai nad oeddent yn eu defnyddio yn aros am benderfyniad ynghylch caffael system i Gymru gyfan.

3.6 Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno system Menumark. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, defnyddir y system hon i reoli'r ffordd y caiff bwyd ei gynhyrchu ac roedd y Bwrdd Iechyd yn treialu'r drefn o ddefnyddio llechi cyfrifiadurol i gofnodi archebion prydau bwyd cleifion.

3.7 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn defnyddio system Menumark i ddarparu gwybodaeth amser real gan ddefnyddio'r ryseitiau wedi'u costio ar gyfer Cymru gyfan ynghyd â phrisiau'r nwyddau, a gaiff eu diweddaru yn unol â phris contract caffael Cymru gyfan. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyfrifo a monitro costau prydau bwyd dyddiol ar gyfartaledd.

3.8 Yn 2012, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru weithio gydag Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG (Ystadau Iechyd Cymru gynt) er mwyn llunio achos busnes amlinellol ar gyfer caffael system arlwyo TG genedlaethol. Paratowyd yr achos busnes amlinellol yn 2013. Fodd bynnag, bu oedi yn y broses o rannu'r achos busnes amlinellol yn ehangach â chyrff y GIG. Erbyn iddo gael ei ystyried gan grwpiau priodol o Gyfarwyddwyr y GIG ddechrau 2015, roedd y ffigurau ar gostau ac arbedion posibl wedi dyddio. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG wedi diweddaru'r achos busnes amlinellol gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar gostau a ddaeth ar gael ddiwedd mis Rhagfyr 2015. Deellir bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd Gwybodeg Cenedlaethol er mwyn iddo wneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid parhau â'r broses gaffael.


3.9 Yn 2011, nodais amrywiadau eang yng nghostau gwasanaethau arlwyo i gleifion rhwng ysbytai Cymru ac o fewn byrddau iechyd ac nad oedd y gwahanol fodelau arlwyo yn rhoi eglurhad syml o'r gwahaniaethau. Bryd hynny, roedd y gost fesul diwrnod prydau bwyd claf yn amrywio deirgwaith drosodd rhwng ysbytai acíwt, sef rhwng £6.00 a £18.00 y dydd. Fodd bynnag, roedd yn anodd deall yr amrywiadau hyn o ran cost yn llawn oherwydd anghysondebau yn y ffyrdd yr oedd y costau'n cael eu cyfrifo gan wahanol gyrff y GIG.

3.10 Yn 2012, cytunodd sefydliadau'r GIG yng Nghymru i weithredu model newydd wedi'i gostio ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion fel rhan o'r EFPMS. Ategwyd y model newydd wedi'i gostio gan ddiffiniadau data diwygiedig a dangosyddion newydd fel 'cost fesul pryd claf', a ddisodlodd 'cost fesul diwrnod prydau bwyd claf', a chost gwastraff prydau bwyd heb eu gweini.

3.11 Yn ystod fy archwiliad diweddaraf, dywedodd staff y GIG fod ansawdd y data yn gwella, er bod y gwelliant hwnnw'n araf. Dangosodd fy nadansoddiad o ddata'r EFPMS diweddaraf fod mwy i'w wneud o hyd i wella ansawdd y gwaith cofnodi data a wneir gan sefydliadau'r GIG ac i ddileu anghysondebau yn y cyfrifiadau a ddefnyddir i bennu'r dangosyddion EFPMS. O ganlyniad i newidiadau diweddar i system cofnodi data'r EFPMS, caiff sefydliadau'r GIG bellach eu hysbysu am broblemau posibl gydag ansawdd y wybodaeth neu wallau o ran cofnodi data drwy dynnu sylw at amrywiadau sylweddol yn y gwaith cofnodi data o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hefyd, mae Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG wedi comisiynu'r darparwr meddalwedd i wneud yr holl waith dadansoddi data sydd ei angen i bennu Dangosfyrddau Cenedlaethol yr EFPMS.

3.12 Mae'r gost fesul pryd bwyd claf (y dangosydd newydd) yn dal i amrywio ond mae'r amrediad cyffredinol wedi lleihau (Arddangosyn 4). Dylid nodi bod costau prydau bwyd cleifion yn debygol o fod wedi'u goramcangyfrif ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Yn 2015, nid oedd y cyfrifoldeb am gyllidebau arlwyo yn y Bwrdd Iechyd wedi'i ganoli o fewn y tîm rheoli cyfleusterau ond yn hytrach wedi'i ddatganoli ar lefel leol. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd wahaniaethu rhwng cost gyffredinol y bwydydd a gaffaelwyd a chost y bwyd a ddefnyddiwyd i baratoi prydau bwyd cleifion. Ar adeg ysgrifennu, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymgynghori ynghylch strwythur newydd wedi'i ganoli ar gyfer rheoli cyfleusterau, gyda'r buddiannau arfaethedig yn cael eu gwireddu ganol 2016.

Arddangosyn 4 – Cost fesul pryd claf




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol 2014-15 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

17 Gwnaeth ysbytai yng Nghymru baratoi 11.3 miliwn o brydau bwyd, hynny yw brecwast, cinio, pryd nos a brechdanau, yn 2014-15. Mae'n costio £37.4 miliwn i baratoi'r prydau hyn, sy'n cynnwys costau cynnyrch bwyd, staff a nwyddau eraill nad ydynt yn nwyddau traul.

## Er bod gwastraff prydau bwyd cleifion heb eu gweini o fewn y targed, mae gwerth y gwastraff hwn yn dal yn rhy uchel

3.13 Mae lleihau gwastraff bwyd yn dal i fod yn rhan bwysig o reoli cost gwasanaethau arlwyo ysbytai. Yn ddelfrydol, dylai ysbytai fod yn monitro gwastraff bwyd yn rheolaidd ac fel rhan o'r drefn arferol er mwyn rheoli'n effeithiol o ddydd i ddydd. Ar adeg fy archwiliad gwreiddiol, roedd pob adran arlwyo yn monitro ac yn cofnodi nifer y prydau bwyd cleifion heb eu gweini rywbryd yn ystod y flwyddyn. Roedd pa mor aml y gwnaed hyn yn dibynnu ar ddulliau cynhyrchu bwyd neu'r trefniadau ar gyfer gweini prydau bwyd i gleifion ond roedd lefel y gwastraff bwyd mewn rhai ysbytai yn annerbyniol o uchel. Roedd data'r EFPMS ar y pryd yn awgrymu bod 8 y cant o bob pryd bwyd claf a gynhyrchwyd wedi cael ei adael heb ei fwyta[18] yn 2009-10. Awgrymodd canfyddiadau fy archwiliad fod gwastraff yn uwch o lawer.

3.14 Argymhellais y dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad oedd gwastraff o brydau bwyd heb eu gweini yn fwy na 10 y cant a gofynnodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru roi manylion iddo o ran sut a phryd y byddai targedau lleihau gwastraff yn cael eu cyrraedd. Yna, pennodd Llywodraeth Cymru darged gwastraff bwyd o 10 y cant ar gyfer prydau bwyd heb eu gweini yr oedd yn rhaid i sefydliadau'r GIG ei gyrraedd erbyn diwedd 2012-13.


3.15 Canfu fy ngwaith archwilio diweddaraf fod sefydliadau'r GIG wedi gwella eu systemau ar gyfer monitro a chofnodi gwastraff prydau bwyd cleifion heb eu gweini. Roedd canllawiau cliriach ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwastraff heb ei weini ar waith yn hanner y sefydliadau hyn.

3.16 Canfu ymweliadau â wardiau a gynhaliwyd yn 2015 fod staff arlwyo, gan fwyaf, yn cofnodi nifer y prydau bwyd heb eu gweini ar ddiwedd y cyfnod gweini. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i monitro'n rheolaidd gan reolwyr arlwyo a chyfleusterau. Dangosodd data ar wastraff a ddarparwyd gan sefydliadau'r GIG fod gwastraff misol yn cyrraedd y targed neu'n is na'r targed, gan amrywio o 2 y cant i ychydig islaw 10 y cant. Yn ogystal â'r monitro rheolaidd, roedd gwastraff heb ei weini hefyd yn cael ei asesu fel rhan o'r archwiliadau cynhwysfawr o amser bwyd. Mae'r dull tîm amlddisgyblaethol o gynnal yr archwiliadau amser bwyd yn galluogi staff arlwyo a nyrsio i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwastraff ar y cyd.

3.17 Dengys data'r EFPMS fod gwastraff o brydau bwyd cleifion heb eu gweini ychydig yn llai nag 8 y cant ar gyfartaledd yn 2011-12 ac, ers hynny, ei fod wedi codi a gostwng o gwmpas 6 y cant (Arddangosyn 5). Er bod hyn o fewn y lefel targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, a bod cost amcangyfrifedig y gwastraff hwn wedi lleihau 3 y cant rhwng 2011-12 a 2014-15, dengys y ffigurau blynyddol diweddaraf fod prydau bwyd heb eu gweini yn dal i gostio £903,600 i'r GIG yng Nghymru.

18 Dyma nifer y prydau bwyd heb eu bwyta/heb eu gweini ar ddiwedd yr amser bwyd wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer y prydau a ddarparwyd.

Arddangosyn 5 – Nifer y prydau bwyd cleifion heb eu gweini





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru, 2011-12 i 2014-15

## Mae gostyngiadau sylweddol wedi cael eu cyflawni o ran lefel y cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion

3.18 Yn 2011, nododd fy adroddiad fod sefydliadau'r GIG yn cymorthdalu gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion, ac yn gwneud hynny'n ddiarwybod yn y rhan fwyaf o achosion. Canfu fy ngwaith archwilio diweddaraf fod sefydliadau'r GIG bellach yn anelu at sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill eu costau gyda nifer o systemau'n cael eu cyflwyno ar gyfer rheoli gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn fwy effeithiol. Roedd y systemau hyn yn cynnwys polisïau prisio cliriach a phrisiau safonedig ym mhob ysbyty o fewn byrddau iechyd unigol. Sicrhaodd technoleg pwynt gwerthu electronig fod prisiau'n cael eu diweddaru'n awtomatig, yn ogystal â helpu i reoli stoc, monitro nifer y trafodion drwy gydol y dydd ac adolygu'r cynnyrch mwyaf proffidiol.

3.19 Mae'n debygol bod y systemau hyn yn cyfrannu at y lleihad cyffredinol yng nghost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Gwnaeth y costau leihau 16 y cant o £15 miliwn yn 2011-12 i £12.6 miliwn yn 2014-15. Cafwyd amrywiadau bach yn yr incwm a gynhyrchwyd gan y gwasanaethau hyn ond mae'r lleihad yn y costau o flwyddyn i flwyddyn yn golygu bod y bwlch rhwng cost ac incwm yn lleihau (Arddangosyn 6). Gwnaeth y diffyg neu'r cymhorthdal cyffredinol leihau 73 y cant o £3.85 miliwn yn 2011-2012 i ychydig yn fwy nag £1 miliwn yn 2014-15.


Arddangosyn 6 – Tuedd yng nghostau gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru, 2011-12 i 2014-15

3.20 Er bod lefel gyffredinol y cymhorthdal yn gostwng, gall gymryd peth amser i'r gwasanaethau adennill costau ym mhobman. Dim ond rhai o sefydliadau'r GIG a gynhyrchodd ddigon o incwm i adennill costau neu adennill y rhan fwyaf o'u costau yn 2014-15 (Arddangosyn 7). Bwrdd Iechyd Addysgu Powys oedd â'r ganran uchaf o ddiffyg o ran incwm o gymharu â chost ei wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion, sef cyfanswm o £72,000. Dim ond cyfran fach o'r £1 miliwn o ddiffyg ledled Cymru y mae hyn yn cyfrif amdano, tra bod cyfanswm diffyg Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn £913,000.

Arddangosyn 7 – Canran y costau nas adferwyd drwy incwm o wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn 2014-15




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol 2014-15 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

Rhan 4

# Cynllunio a chyflwyno adroddiadau

4.1 Yn 2011, tynnodd fy adroddiad sylw ar nifer o wendidau gyda threfniadau cynllunio a chyflwyno adroddiadau mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Nodais mai tameidiog oedd bodolaeth strategaethau a chynlluniau lleol cyfoes ar gyfer gweithredu polisïau cenedlaethol. Roedd lle hefyd i egluro atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth o fewn rhai byrddau iechyd lle'r oedd cyfrifoldebau wedi'u rhannu. Roedd angen cymryd camau mwy cynhwysfawr a chydgysylltiedig er mwyn ceisio barn cleifion a'u teuluoedd i lywio cynlluniau a datblygiadau. Hefyd, mynegais bryder mai ychydig iawn o wybodaeth yr oedd byrddau cyrff y GIG yn ei chael am gyflwyno gwasanaethau arlwyo a'u perfformiad, ynghyd â materion yn ymwneud â maeth cleifion.

4.2 Canfu fy ngwaith yn 2015 fod rhai o'r trefniadau hyn wedi cael eu hatgyfnerthu. Roedd gweithgorau cenedlaethol wedi cael eu sefydlu i gefnogi'r gwaith o oruchwylio materion sy'n ymwneud â maeth ac arlwyo. Er y gwelwyd bod trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu gweithredol o fewn sefydliadau'r GIG yn gadarn ar y cyfan, mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r bwrdd yn dal yn gyfyngedig. Nodir y canfyddiadau o dan y themâu canlynol:

- gwaith goruchwylio cenedlaethol; a
- gwaith craffu a chyflwyno adroddiadau lleol.

## Mae gweithgorau cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio materion yn ymwneud â maeth ac arlwyo

4.3 Yn 2011, argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi perthnasol mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn un fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiweddaru. Yn y cyfamser, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynnydd cyrff y GIG o ran dilyn ei ganllawiau.

4.4 Roedd safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan 2011 yn dwyn ynghyd lawer o'r canllawiau polisi perthnasol mewn perthynas ag arlwyo a maeth mewn ysbytai. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dwyn ynghyd y safonau hyn a gwybodaeth berthnasol am arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai ar wefan y 'Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai'. Mae'r wefan hon, sydd ar fewnrwyd y GIG, ar gael ar bob ward ysbyty drwy borth nyrsio'r GIG.

4.5 Mae nifer o grwpiau cenedlaethol yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru o oruchwylio'r ffordd y caiff polisïau eu gweithredu. Mae Fforwm Cydgysylltwyr Maeth ac Arlwyo Ysbytai Cymru Gyfan, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys uwch nyrsys, therapyddion lleferydd ac iaith, arlwywyr o gyrff y GIG a swyddogion perthnasol eraill o Lywodraeth Cymru.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu grŵp cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o lansio Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan. Mae'r grŵp hwn wedi esblygu'n Grŵp Monitro a Gwerthuso Strategol Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan. Mae'r Grŵp yn cynnwys deietegydd iechyd cyhoeddus, cynrychiolwyr o Wasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG ac uwch staff deietegol ac arlwyo o bob bwrdd iechyd. Mae'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn. Mae gan y Grŵp nifer o amcanion, gan gynnwys, yn bennaf, sicrhau bod byrddau iechyd yn cyrraedd safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan 2011, cydymffurfio â Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan a chyflawni lefelau uchel o foddhad cleifion. Mae'r Grŵp yn paratoi adroddiad blynyddol i Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyflawniadau yn erbyn rhaglen o waith a gyflawnir drwy grwpiau gorchwyl a gorffen fel y grŵp gweithredol adolygu ryseitiau a'r grŵp addysg a hyfforddiant.

4.7 Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan a'r Fforwm Cydgysylltwyr Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai yn gweithio ar wahân. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ffurfio cysylltiadau agosach rhwng gwaith y ddau grŵp hyn yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi gwell dilyniant a chyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol nyrsio ac arlwyo ac yn sicrhau bod modd goruchwylio ffordd y caiff polisïau arlwyo a maeth eu rhoi ar waith yn fwy effeithiol.

4.8 Yn 2012, fe'i gwnaed yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i gyrff y GIG ddatblygu cynlluniau yn nodi'r camau gweithredu yr oedd eu hangen i fynd i'r afael â'm hargymhellion. Roedd y cynlluniau gweithredu hyn ar gael yn gyhoeddus ar wefannau sefydliadau unigol y GIG. Hyd at 2013, roedd cyrff y GIG yn cyflwyno adroddiad ar y camau gweithredu hyn i Lywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn. Ers hynny, is-bwyllgorau byrddau sefydliadu unigol y GIG sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am fonitro cynnydd.

## Mae trefniadau goruchwylio a chraffu gweithredol yn gadarn ar y cyfan ond mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd llawn yn dal yn gyfyngedig

4.9 Yn 2011, nodais fod lle i egluro atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth o ystyried bod y portffolios hyn wedi'u rhannu rhwng gwahanol gyfarwyddwyr gweithredol mewn rhai byrddau iechyd. Canfu fy archwiliad diweddaraf ei bod yn dal yn annhebygol bod gan gyrff y GIG un cyfarwyddwr ar lefel bwrdd sy'n gyfrifol am faeth ac arlwyo. Serch hynny, roedd yr archwilwyr yn fodlon yn gyffredinol, lle'r oedd y cyfrifoldebau hyn wedi'u rhannu rhwng gwahanol gyfarwyddwyr gweithredol, bod atebolrwydd yn cael ei ddiffinio a'i ddeall yn glir.

4.10 Mae grwpiau strategol amlddisgyblaethol ar gyfer maeth ac arlwyo bellach ar waith ym mhob un o sefydliadau'r GIG er mwyn rhoi sicrwydd a gwneud gwaith goruchwylio mewn perthynas â gweithredu polisïau a safonau cenedlaethol. Mae gan y grwpiau (a'r is-grwpiau) hyn raglenni gwaith eang eu cwmpas. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth â safonau maeth ac arlwyo i gleifion mewnol a fframwaith bwydlenni Cymru gyfan, arwain y gwaith o weithredu'r safon iechyd a gofal ar faeth a hydradu (Safon 2.5) , adolygu canfyddiadau archwiliadau amlddisgyblaethol o amser bwyd ac adborth cleifion a'r gwelliannau sy'n deillio ohonynt. Mae gan bob grŵp aelodaeth eang a chynhwysol, gan gynnwys cynrychiolwyr cleifion. Mae Cadeiryddion y grwpiau strategol hyn yn cyflwyno adroddiadau i'r naill neu'r llall o'r cyfarwyddwr gweithredol sy'n gyfrifol am faeth ac arlwyo. Mewn dau fwrdd iechyd, caiff y grwpiau strategol hyn eu cadeirio gan y cyfarwyddwr gweithredol sydd â chyfrifoldeb.

4.11 Yn 2011, argymhellais y dylai cyrff y GIG ddatblygu dull mwy cynhwysfawr o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd a fyddai'n dwyn ynghyd wybodaeth am gydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth, data ar berfformiad gwasanaethau arlwyo ac adborth gan gleifion. Canfu fy ngwaith archwilio yn 2015 fod trefniadau ar gyfer monitro arlwyo a maeth cleifion a chyflwyno adroddiadau arnynt yn sefydledig ar lefel weithredol gyda gwaith goruchwylio a chraffu'n cael ei gyflawni gan y grwpiau strategol amlddisgyblaethol. Ceir llinellau atebolrwydd clir, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr, o'r grwpiau hyn i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch Byrddau.

4.12 Fodd bynnag, cafwyd gennyf fod lle o hyd i wella'r llif o wybodaeth o Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch i'r Bwrdd llawn. Golyga hyn na chyflwynir adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth yn rheolaidd i'r Bwrdd. Yn lle hynny, ceir dibyniaeth barhaus ar yr hunanasesu blynyddol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal a'r archwiliad Hanfodion Gofal. O ganlyniad i hyn, nid yw'r rhan fwyaf o Fyrddau yn gweld y gwaith a wneir i sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaethau maeth ac arlwyo o safon uchel ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan a'r Llwybr gofal maeth.

19 Llywodraeth Cymru, **Safonau Iechyd a Gofal**, Ebrill 2015.

4.13 Ceir eithriadau, yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle y cyflwynir adroddiadau ar gydymffurfiaeth â phrosesau sgrinio maethol a phrofiad cleifion, gan gynnwys boddhad â gwasanaethau bwyd, ym mhob cyfarfod bwrdd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf hefyd yn cael gwybodaeth ar gydymffurfiaeth â phrosesau sgrinio maethol ym mhob cyfarfod bwrdd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael adroddiadau cyfnodol ar gydymffurfiaeth drwy ei fetrigau 'O'r Ward i'r Bwrdd'. Drwy eithriad y cyflwynir adroddiadau i'r bwrdd yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, er bod gwaith bellach yn mynd rhagddo i integreiddio metrigau perfformiad ar faeth ac arlwyo o fewn ei fwrdd stori chwarterol ar berfformiad.

# Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd yn erbyn fy argymhellion

Atodiad 2 – Cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol

# Atodiad 1 – Cynnydd yn erbyn fy argymhellion

Mae’r tabl isod yn nodi i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau’r GIG wedi rhoi fy argymhellion ar waith. Canfu fy ngwaith archwilio fod 22 o’r 32 o argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn tra bod saith ar y trywydd cywir ond heb fod wedi’u cwblhau eto, ac mai ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl, oedd wedi’i wneud yn erbyn tri argymhelliad.

| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1a | Argymhellwn fod **Llywodraeth Cymru** yn datblygu a chyhoeddi dogfennaeth nyrsio safonol i Gymru gyfan er mwyn hyrwyddo prosesau sgrinio maethol a chynllunio gofal cyson, ac er mwyn helpu i sicrhau bod meysydd pwysig, megis iechyd y geg, yn cael eu hystyried yn briodol. | ● |
| A1b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn defnyddio’r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae’n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi’n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy’n wynebu risg o’u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu. | ● |
| A1c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o’u safleoedd a rhannu canlyniadau’r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy’n ymwneud â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. | ● |
| A1d | Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, argymhellwn fod **cyrff y GIG** ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i’r afael â’r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff. | ● |
| A1e | Argymhellwn fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o’r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd. | ● |
| A2a | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn cymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddietegwyr. | ● |
| A2b | Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn adolygu dichonolrwydd cyflwyno cronfa ddata genedlaethol o fwydlenni wedi'u hasesu o ran maeth fel modd i osgoi dyblygu ymdrechion ar draws sefydliadau'r GIG a gwneud y defnydd gorau o adnoddau deietegol cyfyngedig. | ● |

Tudalen y pecyn 118

| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | | |
| A3a | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion. | ● |
| A3b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini. | ● |
| A3c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn parhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd. | ● |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A4ba | Argymhellwn fod **Llywodraeth Cymru,** drwy Ystadau Iechyd Cymru (Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG bellach), yn datblygu model clir ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, sy'n cael ei gymhwyso'n gyson ym mhob un o sefydliadau'r GIG er mwyn rhoi cyfle i wneud cymariaethau ystyrlon rhwng costau arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru. | ● |
| A4b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn cyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw. | ● |
| A5a | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi'u costio. | ● |
| A5b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion. | ● |
| A5c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai. | ● |

Tudalen y pecyn 119

| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo (parhad.)** | | |
| A6a | Er mwyn gwella perfformiad mewn perthynas â gwastraff bwyd ysbyty, argymhellwn y dylid pennu **targedau lleol a chenedlaethol** ar gyfer gwastraff bwyd ac fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweiniwyd yn fwy na 10 y cant. | ● |
| A6b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn monitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol. | ● |
| A6c | Argymhellwn y dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio [gan **gyrff y GIG**] i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff. | ● |
| A6d | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn pwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem. | ● |
| A7a | Argymhellwn y dylai **cyrff y GIG** bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau. | ● |
| A7b | Argymhellwn y dylai **cyrff y GIG** fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol. | ● |

| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A8a | Argymhellwn fod **Llywodraeth Cymru** yn dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi perthnasol mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn un fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiweddaru; dylai fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiweddaru gael ei ddatblygu gan grŵp polisi amlddisgyblaethol ar gyfer arlwyo a maeth sy'n dwyn ynghyd staff o wahanol ganghennau o Lywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldebau am y gwasanaethau hyn. | ● |
| A8b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodelau gwasanaeth o dan un sefydliad. | ● |
| A8c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. | ● |
| A9a | Argymhellwn fod **Llywodraeth Cymru** yn hyrwyddo pwysigrwydd data'r EFPMS fel dull o fonitro'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a sicrhau bod digon o ganllawiau a hyfforddiant ar ddiffiniadau o ddata ar gael i staff yng nghyrff y GIG sy'n cyflwyno gwybodaeth. | ● |
| A9b | Argymhellwn fod staff **Llywodraeth Cymru** sy'n ymwneud ag arlwyo a maeth yn gwneud mwy o ddefnydd ar y cyd o ddata'r EFPMS, ochr yn ochr â data a gasglwyd gan yr archwiliadau blynyddol o Hanfodion Gofal, fel ffordd o ddarparu gwybodaeth am weithredu amcanion polisi cenedlaethol yn lleol. | ● |
| A9c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | ● |

| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol (parhad.)** | | |
| A10a | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn datblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd, sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau, a dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata'r EFMPS. | ● |
| A10b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn coladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth, neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth, er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn. | ● |
| A11a | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo. | ● |
| A11b | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn dangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | ● |
| A11c | Argymhellwn fod **cyrff y GIG** yn pennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. | ● |

1 Mae'r rhan fwyaf o'm hargymhellion yn gymwys i'r saith bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Nifer fach o argymhellion sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru yn unig. Mae'r sgôr perfformiad yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed gan gyrff y GIG a/neu Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argymhellion unigol. Mae gwyrdd (●) yn dynodi bod argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn gan o leiaf chwech o sefydliadau'r GIG, a bernir bod y ddau arall ar y trywydd cywir. Mae melyn (●) yn dynodi bod sefydliadau ar y trywydd cywir ond nad yw'r camau gweithredu wedi'u cwblhau eto ar draws y rhan fwyaf o gyrff y GIG. Mae coch (●) yn dynodi mai ychydig iawn o gynydd, neu ddim cynnydd o gwbl, sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion gan hyd at hanner sefydliadau'r GIG neu bob un ohonynt.

# Atodiad 2 – Cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn nodi i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar waith. Canfu fy ngwaith archwilio fod chwech o'r saith argymhelliad wedi cael eu gweithredu'n llawn a bod un ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto.

| Argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol | | Sgôr cynnydd[1] |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir na ddylid defnyddio'r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac os yw perthnasau a gofalwyr am gynorthwyo amser bwyd, dylai staff ar y ward eu hannog i wneud hynny. | |
| A2 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi copi o ganllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty-Yr hyn y dylech ei ddisgwyl' i bob claf yn ysbytai Cymru, a hynny pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty. | |
| A3 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod y modd y mae cyrff y GIG yn rhoi eu cynlluniau gweithredu eu hunain ar waith yn cael ei fonitro'n ofalus a bod y canlyniadau ar gael i bawb eu gweld. | |
| A4 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro i ba raddau y mae cyrff y GIG yn llwyddo i roi ei chanllawiau ar waith, gan gynnwys defnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach i gleifion, lle bo hynny'n bosibl. | |
| A5 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym sut a phryd y gallwn ddisgwyl i'r targedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd. | |
| A6 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod sgôr hylendid bwyd ysbytai yng Nghymru yn cael eu harddangos yn gyhoeddus. | |
| A7 | Rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu baratoi cynllun sy'n dangos sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau'r gwelliannau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu hargymell.[20] | |

20 Gwyrdd' yw'r sgôr a roddir i'r argymhelliad hwn am fod y swyddog cyfrifyddu wedi rhoi cynllun i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru a chyrff unigol y GIG gymryd mwy o gamau i fynd i'r afael â'm holl argymhellion yn llawn.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

Our Ref: AG/JW/SB

13 September 2016

Dear Huw

**Hospital Catering and Patient Nutrition**

Thank you for your letter dated 25 August 2016 inviting comments on the memorandum for the Public Accounts Committee on hospital catering and patient nutrition.

It is satisfying to observe the progress made with respect to the nutritional care pathway, especially the mealtime experience, catering costs, food waste and planning and reporting issues related to hospital nutrition. While good progress has been made against the seven recommendations of the Public Accounts Committee I acknowledge that more action is needed by both the Welsh Government and individual NHS bodies to fully address all of your own recommendations.

The two key areas that are being addressed are the development of an all Wales IT catering system and the development of all Wales nursing documentation.

In 2011 a target of 10% food wastage was introduced along with the recommendation to develop a new all Wales IT Catering System. I am pleased to say that the food waste target has been exceeded and now sits at around 6%. Some organisations are using local IT catering systems but there is continued reliance on paper based systems in other organisations. I believe the cost of waste could be reduced further through the use of appropriate technology and this would enable a clearer understanding of the cost of food production and cost control. It is also possible that in future the Cabinet Secretary may set an even more stretching target. Set in this context, I can confirm that the business case for an all Wales IT catering system will be on the NHS Wales National Informatics Management Board (NIMB) agenda in November this year. NIMB will consider the business case based on its value for money and the priority of this work alongside other initiatives in NHS Wales.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

The NIMB will of course need to determine if the approach recommended some years ago is still the right option to pursue in terms of value for money as reasonably effective local systems have been developed in the interim.

In respect of the second area, while there are of course opportunities to rationalise and adopt ‘once for Wales’ approaches for documentation, it remains the responsibility of NHS providers to ensure they have systems to securely and appropriately record patient care and treatments. In order to develop a national approach in future, I am pleased to report that NWIS has appointed a new nurse informaticist who will take up her post at the end of October 2016. It is proposed that she lead the all Wales nursing documentation work programme which has been on hold since her predecessor vacated her post.

There is work under way to create closer links between the All Wales Hospital Menu Framework (AWMF) group and the Nutrition Coordinators group to ensure closer links between nursing and catering.  I see this as an important mechanism to ensure that the oversight of respective strands of policy in relation to catering and patient nutrition is joined up and coordinated. In addition, work is underway to develop a measure of patient nutrition and hydration that will be reported via the NHS Outcomes and Delivery Framework in future.

Yours sincerely



**Dr Andrew Goodall**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

Fiona.Bashford@audit.wales
Huw.Thomas@audit.wales

3 August 2016

Dear Mr Vaughan Thomas

**Petition P-04-663 Food in Welsh Hospitals**

The National Assembly for Wales's Petitions Committee has been considering the following petition from Rachel Flint since January this year:

**Petition wording**
*We the undersigned call on the Welsh Government to examine the standards of food in hospitals in Wales. Each health board's provision must be investigated to ensure it is fit for purpose for patients, those with dietary needs and medical conditions, and impose standards across the whole of the Welsh NHS. Hospital food should be nutritious, fresh and be a major part of a patient's care package and road to recovery – not make things worse. Dietary needs must be catered for – such as gluten free, lactose intolerant, Celiac, vegetarian and vegan – experience shows this is not currently the case and patients are often made to feel awkward. Food tailored for medical conditions – including those who suffer from bowel conditions or have had surgery – must be standardised, to ensure patients are getting the right nutrition at all times. Currently patients on some wards are being fed all the same food regardless of their conditions, weight and dietary needs – this is not acceptable and can be upsetting and potentially damaging. Hospitals should not rely on relatives to bring in food, eat the same bland meal every day, or allow patients to waste away if they can't have any of the food on offer. Nutrition must be a key part of every patient's care package. We are not asking for Michelin Star quality, just meals that help rather than hinder.*

***Additional Information***

*My experiences of food in the NHS have shown that the standards vary across wards, hospitals and departments, as well as between England and Wales. The problem is not in Wales alone - as I find providing meals for those on low res or with dietary conditions is something the NHS as a whole struggles to deal with. But my experience in Wales recently*

*showed that the standards are not up to scratch. There were no menus (as in Chester and other English hospitals) and patients were all fed the same regardless of their condition, weight or dietary needs. On one ward people who had just had bowel surgery were offered curry, lentil soup and tuna sweetcorn sandwiches which was totally inappropriate - and potentially damaging. At times the situation was that if you couldn't eat anything on the trolley or were not at your bed, you simply didn't eat, unless a nurse made some toast. This has to change; without the right nutrition I believe people are in hospital longer.*


Members considered the petition, including correspondence from the then Minister for Health and Social Services and each of the Local Health Boards, at our meeting on 12 July 2016. We agreed to send you the information we have received so far and also to ask you for an update on the work you are currently undertaking around the catering and nutrition in Welsh hospitals.

Responses will be published as part of our Committee papers and will be discussed at a future Committee meeting.

Further information on the Petitions Committee's consideration of this petition, including agreed actions and correspondence is available at the following hyperlink:
**http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=14311**

If you would like any further information, please contact the Committee Clerking team at **SeneddPetitions@assembly.wales** or on 0300 200 6375/3. I would be grateful if any written response could be sent electronically to the email address above.

Yours sincerely



Mike Hedges AM
**Chair/ Cadeirydd**

**Encs:** Correspondence – Minister for Health and Social Services to the Chair dated 29.3.16
Cwm Taf UHB to the Chair dated 8.3.16
Abertawe Bro Morgannwg UHB the Chair dated 24.3.16
Betsi Cadwaladr UHB to the Chair dated 29.3.16
Cardiff & Vale UHB to the Chair dated 18.3.16
Hywel Dda UHB to the Chair dated 14.3.16
Powys Teaching HB to the Chair dated 9.3.16
Minister for Health and Social Services to the Chair dated 18.12.15
Petitioner to the Chair dated 13.1.16

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Mike Hedges AM
Chair, Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Date: 31 August 2016
Our ref: HVT/2600/fgb


Dear Mike

## Petition P-04-633 Food in Welsh Hospitals

Thank you for your letter of 3 August 2016 regarding the petition from Rachel Flint in respect of standards of food in Welsh hospitals. I have noted the details of the petition and the various correspondence from the previous Minister for Health and Social Services, and from health board Chief Executives. It is helpful to have sight of these exchanges.

You asked for an update on my recent work on hospital catering and patient nutrition. You may recall from previous evidence sessions at the Public Accounts Committee (PAC) that I first published the findings from an all Wales review of hospital catering and patient nutrition in March 2011. Since then auditors have maintained an overview of the progress that is being made by NHS bodies in addressing my audit recommendations. During 2015 and into the early part of 2016 my staff undertook work at each health board in Wales and Velindre NHS Trust in order to provide a pan-Wales picture of the progress that is being made.

As a result of this work I have issued local audit reports to each of the NHS bodies my staff visited, and these are available to view on the Wales Audit Office website. I have also prepared a memorandum for the PAC that summarises the findings from the local audits, and includes a consideration of the progress that has been made against the recommendations made by the PAC following its inquiry.

The new PAC will have the opportunity to consider the memorandum when they meet on 19 September, and to decide whether they want to take any further evidence from Welsh Government or NHS bodies.

Direct Line: 029 2032 **0510** E-mail: huw.vaughan.thomas@audit.wales

The main message that emerges from my recent audit work is that in overall terms there has been good progress in implementing previous audit and PAC recommendations. There is a clear commitment on the part of NHS bodies in Wales to deliver good quality patient catering services. This is supported by a clear set of standards, an all Wales nutritional care pathway and the all Wales menu framework. Moreover, patient satisfaction with the food they received in hospital is generally positive.

However, my local audit work did identify that there is still plenty of scope to continue to strengthen current arrangements and practice. The quality of nutritional screening that takes place on admission to hospital can vary, as can the way in which the results of the screening are recorded. A more consistent approach to nutritional screening would be facilitated by the development of standardised all Wales nursing documentation but there have been delays in progressing this. Similarly full compliance with e-learning training for nurses on implementation of the nutritional care pathway has yet to be achieved.

The launch of the all Wales menu framework should be viewed as a positive development in that it provides Welsh hospitals with a database of nutritionally assessed recipes and menus. My audit work found that compliance with the menu framework was good, and that arrangements to ensure 24 hour access to food and beverages were largely adequate.

The NHS captures patients' views on hospital food through periodic surveys. Whilst these show positive responses in terms of overall satisfaction with hospital food, they also highlight scope for further progress in terms of ensuring that food is appetising and that patients are given the necessary help and support to eat their meals.

Good progress has been secured in embedding the concept of the "protected mealtime" although the extent to which nursing staff engage with the meal time process varied across the wards that auditors visited.

The other key findings that emerged from my follow up work related to cost control and monitoring of compliance against standards within NHS bodies. My most recent work found that catering costs were better controlled than when I first reported in 2011. There have been reductions in the amount of food wasted and in the extent to which non patient catering services are subsidised. Although recorded waste is within target level, the overall cost of wasted food remains high. My original audit work in 2011 had highlighted the benefits of introducing computerised catering systems to replace the largely manual paper based recording of information that was in existence, however, little progress has been achieved in this area.

I was, however, pleased to note that arrangements for monitoring and reporting of patient nutrition and catering services are now well established at the operational level within NHS bodies with clear lines of accountability and good lines of reporting into Quality and Safety Committees or their equivalent. However, with a few notable exceptions, there is still scope to strengthen the extent of information that is presented to the full Board on the performance of catering and patient nutrition services.

I trust that the above is helpful by way of a summary of the work that I have recently completed and the key findings which have emerged. I should make it clear that I have not sought to make any additional recommendations either through my local audit reports or in the memorandum which I have prepared for the PAC. I believe the recommendations already made are sufficient to support the improvements which are necessary and I have therefore drawn attention to where further work is required to secure implementation of those recommendations.

The PAC will have the opportunity to consider my findings in more detail when they receive my memorandum, and in considering Ms Flint's submissions, the Petitions Committee may therefore wish to take account of any decisions that are taken by the PAC in respect of additional evidence gathering on this topic.

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**AUDITOR GENERAL FOR WALES**

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyflawni a phontio**

Adroddiad blynyddol a chyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015-16

**Rhagair y Llywydd**

Rwy’n falch iawn o gael cyflwyno’r adroddiad blynyddol hwn. Mae’n anrhydedd ac yn fraint cael fy ethol i’r rôl hon gan fy nghyd-Aelodau Cynulliad.

Ond wrth gwrs, mae’r llwyddiannau a ddisgrifir yn yr adroddiad blynyddol hwn yn perthyn i’r cyfnod cyn i mi gael fy mhenodi. Felly, mae angen rhoi cydnabyddiaeth i eraill. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi teyrnged i’m rhagflaenydd, y Fonesig Rosemary Butler, a chwalodd y rhwystrau a oedd yn atal cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru, yn enwedig ymysg menywod drwy ei hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a thrwy roi lle amlwg i bobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad.

Cafodd Rosemary gefnogaeth fedrus gan David Melding y Dirprwy Lywydd, a gyfrannodd mewn ffordd graff a diwyd yn y Siambr a thu hwnt, gan gynnwys fel cadeirydd pwyllgor, a hynny i hybu gwaith y Cynulliad mewn amryw o ffyrdd. Gwnaeth y ddau ohonynt, ynghyd â’r Comisiynwyr Sandy Mewies, Angela Burns, Rhodri Glyn Thomas a Peter Black, ffurfio tîm arwain effeithiol a fu’n llywio gwelliant parhaus ym mhob agwedd ar nodau strategol Comisiwn y Cynulliad.

Wrth wneud hynny, tynnodd y Comisiynwyr ar arbenigedd, brwdfrydedd ac ymroddiad staff Comisiwn y Cynulliad, a hynny o dan arweiniad Claire Clancy, y Prif Weithredwr a’r Clerc. Rwy’n gwybod o fy mhrofiad i o weithio gyda staff y Comisiwn yn y gorffennol y gallaf ddibynnu ar gyngor o’r safon uchaf, gwasanaethau adweithiol a darpariaeth effeithiol yn fy rôl newydd. Rwy’n hynod ddiolchgar am gymorth Claire a’i staff ar ddechrau fy nghyfnod.

Mae’n bwysig bod y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad yn cefnogi fy egwyddorion o ran sut y bydd y Pumed Cynulliad yn gweithredu. Yr egwyddor gyntaf yw bod yn deg, diogelu hawliau pob Aelod a thrin pob Aelod yn gyfartal. Yr ail yw hyrwyddo ac amddiffyn enw da y Cynulliad hwn, yn y Siambr a thu hwnt, ac ym mhob cymuned yng Nghymru. Y drydedd yw sicrhau dadl ddemocrataidd frwd ac iach, gyda gweithdrefnau tryloyw yn gefn iddi. Yn olaf, hoffwn weld y Cynulliad yn chwarae rôl adeiladol a chydweithredol wrth weithio gyda seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Rwy’n edrych ymlaen at weithio gydag Ann Jones, y Dirprwy Lywydd, a’m cyd-Gomisiynwyr Joyce Watson, Dai Lloyd, Suzy Davies a Caroline Jones, i adeiladu ar lwyddiannau’r Pedwerydd Cynulliad. Rwy’n bwriadu efelychu’r gwaith a wnaed gan ein rhagflaenwyr i bennu strategaeth glir, sydd â chynllunio ariannol trylwyr a llywodraethu effeithiol yn sail iddi. Byddwn yn gwneud hyn mewn sefyllfa o newid parhaus yng Nghymru ac ar draws y byd: newid cyfansoddiadol, gwleidyddol, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y Cynulliad yn cael pwerau a chyfrifoldebau newydd, yn ogystal â wynebu heriau newydd, ac mae’n rhaid i ni fod yn barod i wasanaethu pobl Cymru yn unol â hynny.

**Ein diben a'n gweithgareddau**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi llwyddiannau Comisiwn y Cynulliad yn erbyn ein nodau strategol rhwng mis Ebrill 2015 a Mawrth 2016.

**Cyd-destun**

Mae Cymru yn derbyn tua £16 biliwn y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel ysgolion ac ysbytai, ar gyfer pobl Cymru. Caiff hyn ei adnabod fel "bloc Cymru".

Caiff cyfran fechan (0.3 y cant) o floc Cymru ei dyrannu i'r Comisiwn i dalu costau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r arian hwn yn caniatáu i'r 60 Aelod Cynulliad i gynrychioli pobl Cymru, gwneud cyfreithiau a chraffu ar bolisïau a phenderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Ein cyllideb**

Yn ystod 2015-16, roedd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllideb o £52.3 miliwn, a oedd yn cynnwys:

•£15,700,000 ar gyfer talu ein 60 Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, costau cyllid pensiwn a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru; a

•£36.6 miliwn i'r Comisiwn i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i'r Cynulliad weithredu.

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cytunodd y Comisiwn ar strategaeth ar gyfer y gyllideb i bennu'r fframwaith ar gyfer ein cyllideb flynyddol. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol i ddangos perfformiad corfforaethol ar draws pob maes gweithgarwch (gweler tudalen 20 i 21. Rydym yn cael sicrwydd allanol ar ein gwariant gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â chraffu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

**Ein cynllun i gyflawni strategaeth y Comisiwn**

Yn ein cynllun strategol ar gyfer dwy flynedd olaf y Pedwerydd Cynulliad, a gyhoeddwyd ym Mai 2014, nodwyd pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddiad:

•galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy gamau nesaf ein strategaeth TGCh;

•ehangu ein gwasanaethau dwyieithog;

•ymgysylltu mwy â phobl yng Nghymru;

•gwneud y gorau o'n hystâd; a

•bod yn gwbl barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'r heriau newydd a ddaw yn sgil hynny.

Defnyddiodd staff y Comisiwn y blaenoriaethau hyn a'r nodau strategol i ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth a'u hamcanion perfformiad eu hunain.

**Ein hamcanion strategol**

**1. Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf**

Eleni, darparodd y Comisiwn ystod o gefnogaeth i Aelodau er mwyn: cwblhau rhaglen craffu deddfwriaethol drom y Cynulliad (gan gynnwys y Bil treth cyntaf); archwilio cynigion ar gyfer newid cyfansoddiadol pellach; ymgymryd â gwaith pwyllgorau; defnyddio ein dwy iaith swyddogol; ystyried newidiadau gweithdrefnol a newidiadau i brosesau; trawsnewid y ffordd rydym yn creu, defnyddio a rhannu gwybodaeth; a myfyrio ar waith y Pedwerydd Cynulliad. Roedd yr holl weithgareddau hyn yn sail i'r paratoadau manwl ar gyfer y Pumed Cynulliad.

**Dysgu a gwella trwy ymgysylltu**

Oherwydd natur gymhleth a thechnegol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ddigwyddiad rhanddeiliaid anffurfiol cyn ystyried y Bil yn ffurfiol. Cynlluniwyd y digwyddiad i roi cyfle i gyfranogwyr rannu eu barn a chael trafodaeth fwy agored. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed gan arbenigwyr trethi a chynrychiolwyr o'r sector cyfreithiol a'r sector cyfrifyddu, ac fe sicrhawyd achrediad datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y digwyddiad fel cymhelliad pellach i bobl ddod. Yn dilyn y digwyddiad, rhoddodd y cyfranogwyr adborth cadarnhaol eu bod yn croesawu trafod y materion yn llawn ac yn agored ac roeddent yn awyddus i fynychu digwyddiadau tebyg i drafod Biliau trethi datganoledig yn y dyfodol.

Fel rhan o'n cenhadaeth i gynyddu'r ymgysylltiad mewn gwaith pwyllgorau, mae staff y Comisiwn, mewn partneriaeth â Chwarae Teg, wedi datblygu rhaglen hyfforddi gyda'r nod o annog mwy o fenywod, yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r pwyllgorau. Cafodd y rhaglen ei chynllunio i chwalu unrhyw ddirgelwch o ran rhoi tystiolaeth i bwyllgor ac i fagu hyder wrth siarad o flaen cynulleidfa. Yn ogystal â chael cyflwyniadau ar brosesau'r pwyllgorau gan Aelodau Cynulliad a staff y Comisiwn, gofynnwyd i gyfranogwyr lunio tystiolaeth ysgrifenedig i'w chyflwyno i gyfarfod pwyllgor ffug. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers dwy flynedd, ac mae wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr.

Defnyddiodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol banel arbenigol o dri ymarferydd cyfreithiol i ystyried drafft cyntaf yr adroddiad ar ddeddfu yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn gallu profi canfyddiadau cychwynnol ac argymhellion gyda'r panel, a oedd yn hynod ddefnyddiol wrth helpu i sicrhau bod yr adroddiad o ansawdd uchel ac yn mynd i gael derbyniad da.

**2. Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**

Parhawyd i ymgysylltu'n ehangach ac yn ddwysach â phobl Cymru. Sicrhawyd bod y Cynulliad yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol, a'i fod yn cynnal ac yn cyflwyno digwyddiadau o'r fath. Parhawyd i flaenoriaethu'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc ac ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd. Hefyd cynhaliwyd perthynas waith gref â sefydliadau'r UE a'r Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru, a chrëwyd cysylltiadau newydd ledled y byd.

**Senedd10**

Ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd ymgyrch Senedd10 i nodi 10 mlynedd ers agor y Senedd ac i godi ymwybyddiaeth am y Cynulliad, ei Aelodau a'u gwaith hwy. Roedd yr ymgyrch hefyd yn rhan o raglen ehangach o weithgareddau i hyrwyddo etholiad y Cynulliad.

Cynhaliodd y Llywydd dderbyniad amser cinio ar Ddydd Gŵyl Dewi i ddathlu cyflawniadau'r Pedwerydd Cynulliad a diolch i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a helpodd y Cynulliad dros y pum mlynedd diwethaf. Gyda'r hwyr, cynhaliwyd y digwyddiad 'Adeiladu ar gyfer Democratiaeth' yng nghwmni penseiri'r Senedd, yr Arglwydd Richard Rogers ac Ivan Harbour, a fu'n trafod y Senedd ddegawd ar ôl ei hagoriad. Cadeirydd y digwyddiad oedd Menna Richards OBE, cyn-reolwr BBC Cymru, ac fe drefnwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Chymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru.

Cafwyd hefyd benwythnos o hwyl i'r teulu yn y Senedd, a ddenodd dros 3,000 o ymwelwyr, gan gynnwys perfformiadau gan Sioe Cyw S4C, Ysgol Glanaethwy, a lwyddodd i gyrraedd rownd derfynol 'Britain's Got Talent', a'r grwpiau lleol, côr 'City Voices' a syrcas 'No Fit State'.

Cafodd ymgyrch Senedd10 gryn sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys darllediadau byw o'r Senedd ar Ddydd Gŵyl Dewi gan BBC Radio 2, Radio Wales a Radio Cymru.

**3. Defnyddio adnoddau'n ddoeth**

Mae'r adrannau o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â datganiadau ariannol ac atebolrwydd yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r ffyrdd amrywiol yr ydym yn defnyddio adnoddau'n ddoeth. Yn yr adran hon, rydym yn tynnu sylw at rai o'r prif feysydd gwaith a'r buddiannau a sicrhawyd ac yn cyflwyno ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn.

**Moderneiddio'r siambr drafod**

Gosodwyd y system gynadledda, y system bleidleisio a'r dechnoleg sain a ddefnyddir yn Siambr y Senedd, sef y siambr drafod lle cynhelir Cyfarfod Llawn y Cynulliad, yn 2006. Ar y pryd, roedd y rhain yn systemau arloesol o'r radd flaenaf. Mae'r dechnoleg wedi diwallu anghenion sawl Cynulliad yn dda. Fodd bynnag, 10 mlynedd yn ddiweddarach, dechreuwyd cael problemau sylweddol o ran dibynadwyedd a chymorth a dechreuodd yr Aelodau gwestiynu pa mor gynaliadwy oedd y dechnoleg.

Mewn ymateb, ymgymerodd y Comisiwn â phrosiect cymhleth i ddewis, caffael a gosod systemau newydd yn y Siambr. Achubwyd ar y cyfle i wella ergonomeg gweithfannau'r Aelodau a gwella hygyrchedd. O ganlyniad, mae bellach gan yr Aelodau ddesgiau fflat newydd. Gosodwyd panel pleidleisio/cyfieithu ar y pryd newydd ar y desgiau, yn ogystal â chyfleusterau gwefru ar gyfer dyfeisiau symudol. Mae seinyddion a meicroffonau pob desg wedi'u huwchraddio hefyd, er mwyn gwneud y sain yn gliriach ym mhob rhan o'r Siambr.

Mae bellach gan yr Aelodau a'r staff sgriniau llydan manylder uchel. Ar y ddesg flaen, lle y mae'r Llywydd a'r swyddogion yn eistedd, mae modd symud y sgriniau o'r ffordd fel na fyddant yn amharu ar ddigwyddiadau arbennig fel yr Agoriad Brenhinol.

Gosodwyd system meddalwedd gynadledda newydd ar gyfer rheoli busnes y Cyfarfod Llawn. Gellir defnyddio'r system i weld yr agenda, y rhestr siaradwyr a'r wybodaeth weithdrefnol, ac i bleidleisio ac anfon negeseuon.

**Neges gan y Prif Weithredwr a'r Clerc**

Roedd hon yn sicr yn flwyddyn bwysig o ran cyflawni a throsglwyddo.

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn gyflym ac yn broffesiynol. Llwyddodd staff Comisiwn y Cynulliad i gwblhau'r rhaglen o fuddsoddi a gwella gwasanaethau yn unol â'r nodau strategol a bennwyd gan ein Comisiynwyr ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Cefnogwyd y cyfnod terfynol a mwyaf pwysig o graffu deddfwriaethol yn y Cynulliad cyntaf i feddu ar bwerau deddfu llawn, gan gynnwys y ddeddfwriaeth dreth gyntaf. Rydym wedi parhau i ymgysylltu fwyfwy â phobl Cymru, gan ddefnyddio technegau newydd. Cadarnhawyd rôl y Senedd fel canolbwynt i fywyd cyhoeddus, a dathlwyd deng mlynedd ers yr agoriad. Daw llawer o'r lluniau yn yr adroddiad hwn o'r dathliadau hynny.

Rydym hefyd wedi parhau i gryfhau ein prosesau cynllunio a darparu, a chawsom ein cydnabod mewn nifer o ffyrdd am y ffordd rydym yn meithrin ein staff ac yn cael y gorau ohonynt. Drwy ein fframwaith llywodraethu, roeddem yn gallu rhoi sicrwydd pendant ynghylch y defnydd priodol o adnoddau, y mae gennyf gyfrifoldeb personol drostynt fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, gwnaeth ein meddyliau a'n gwaith droi'n anochel at drosglwyddo i'r Cynulliad nesaf. Cynorthwyodd staff y Comisiwn yr Aelodau i ystyried a chofnodi etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad. Hefyd, trefnwyd amryw o brosiectau a ffrydiau gwaith i baratoi i roi'r profiad gorau posibl i Aelodau newydd a'u helpu i wneud y penderfyniadau sydd eu hangen i sefydlu'r Pumed Cynulliad. Er y bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn ymdrin â

digwyddiadau ar ôl yr etholiad ym mis Mai, ni allaf beidio â chrybwyll yma y bu'r cyfnod cynefino yn llwyddiant mawr, ac yn un a gafodd ei ganmol gan Aelodau newydd ac Aelodau a gafodd eu hailethol fel ei gilydd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff, Cyfarwyddwyr y Comisiwn, Penaethiaid Gwasanaeth a'u staff, contractwyr ac aelodau o sefydliadau eraill, gyda phob un yn cyfrannu at lwyddiant y Cynulliad.

Rwy'n ystyried fy hun yn ffodus iawn o gael y cyfle i arwain y sefydliad yn y fath gyfnod pwysig yn hanes datganoli. Rwy'n falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Gyda'n gilydd fel tîm rydym wedi mynd ati gydag arddeliad ac osgo i gael mwy o gyfrifoldebau a wynebu heriau eraill. Ar yr un pryd, rydym wedi adeiladu democratiaeth seneddol fodern sy'n addas ar gyfer Cymru gref a hyderus.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon